

DINAS A SIR ABERTAWE

**CYNLLUN DRAFFT – MYNEDIAD I
GEFN GWLAD**

2007- 2017

Cynnwys

1. CYFLWYNIAD
2. CYFLWR Y RHWYDWAITH
3. ANGHENION DEFNYDDWYR
4. Y MAP A'R DATGANIAD TERFYNOL
5. GORCHMYNION LLWYBRAU CYHOEDDUS (DARGYFEIRIO, CREU, DILEU)
6. RHEOLI'R RHWYDWAITH
7. TIR MYNEDIAD A CHYFLEOEDD ERAILL AM FYNEDIAD
8. TWRISTIAETH A HYRWYDDO'R RHWYDWAITH
9. DATGANIAD GWEITHREDU

ATODIADAU

1. Rhestr o'r ymgylgoreion a'r ymatebion
2. Rhestr o'r Cymunedau lle ceir rhai Hawliau Tramwy Cyhoeddus
3. Llwybrau Ceffyl heb ffordd drwodd
4. Gweithdrefn cyflwyno cais am ddargyfeirio
5. Gweithdrefn gorfodi
6. Rhestr o gyhoeddiadau hyrwyddo
7. Hysbysiadau cynghori a godwyd ar hyd llwybrau
8. Llwybr yr arfordir
9. Canlyniadau arolygon tiffeddianwyr a defnyddwyr
10. Cyd-destun strategol
11. Strwythur Staffio

GEIRFA


1.0 Cyflwyniad

Diben y Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad yw gwella mynediad i gefn gwlad i bawb

- 1.1 Rhoddodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 gyfrifoldeb i Awdurdodau Priffyrdd dros lunio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy erbyn hydref 2007. Mae nodau'r Cynllun hwn yn cyfeirio at fynediad y cyhoedd i gefn gwlad yn yr ystyr ehangaf, ac felly bernir bod y teitl **Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad** yn fwy priodol.
- 1.3 Mae llwybrau cyhoeddus a llwybrau ceffyl, tir mynediad a mynediadau cyhoeddus arall i gefn gwlad yn cyfrannu'n ddiamau at yr economi leol ac at les pobl Dinas a Sir Abertawe. Defnyddir y 376 milltir (602km) o lwybrau a'r 23 milltir sgwâr (60km²) o dir mynediad (16% o gyfanswm arwynebedd tir Dinas a Sir Abertawe) yn helaeth gan ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd. Rhwng Mehefin a Hydref 2006 cofnodwyd 324,000 o bobl yn mynd ar hyd 4 o lwybrau cerdded Gŵyr.
- 1.4 Bydd y Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad (CMGC) yn asesu pob agwedd ar gyflwr presennol adnodd mynediad cefn gwlad er mwyn nodi sut gellir rheoli'r adnodd hwn yn well a'i wella. Hwn fydd y cynllun neu'r strategaeth gyntaf erioed ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i gefn gwlad yn yr ardal hon.
- 1.5 Rhaid i'r CMGC ystyried cerdded, marchogaeth a beicio, gyda phwyslais ar ddefnydd hamdden o'r isadeiledd mynediad. Mewn rhai rhannau o Brydain ceir mynediad helaeth i gefn gwlad mewn cerbydau, boed y rheiny'n rhai modur neu beidio, gan ddefnyddio cilffordd sydd ar agor i bob traffig. Yn DASA nid oes ond tair cilffordd (cyfanswm o 1¹/₄ milltir) y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u palmantu ac yn cael eu trin fel rhan o rwydwaith y ffyrdd. Ni chaiff defnydd hamdden cyfreithlon o gefn gwlad gan y cyhoedd mewn cerbydau ei ystyried felly yn y Cynllun hwn.
- 1.6 Mae mwyafrif y Tir Mynediad hefyd wedi'i gofrestru fel tir comin posib, ac fe'i dynodwyd fel Tir Mynediad o ganlyniad i gael ei gofrestru fel tir comin neu wlad agored.
- 1.7 Mae tua 5% o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, cyfran debyg o'r Tir Mynediad a mwyafrif y llwybrau beicio ar dir sydd yn berchen i'r Awdurdod hwn, ac felly'n llwyr o dan ei reolaeth. Fodd bynnag, mae gweddill y mynediad i gefn gwlad ar dir preifat. Gall y cyhoedd gael mynediad i'r tir hwn yn sgîl nifer o Ddeddfau Seneddol a gafwyd ers 1925, a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yw'r diweddaraf o'r rhain.
- 1.8 Dim ond rhan fach o hanes hir rhwydwaith y llwybrau a adlewyrchir gan y Ddeddfau a ddaeth i rym yn ystod yr 80 mlynedd diwethaf. Mae rhannau o'r rhwydwaith yn gannoedd, os nad miloedd o flynyddoedd oed. Iwtilitariaidd oedd eu diben yn wreiddiol, gan y defnyddiai pobl y llwybrau i gerdded neu farchogaeth o'r fferm i'r eglwys neu'r pentref i'r pwll. Bellach defnyddir y

rhwydwaith yn bennaf at ddibenion hamdden. Mae mwyafrif llethol y rhwydwaith yn wledig ei natur, ac mae'r rhan fwyaf o'r llwybrau yn yr ardaloedd trefol wedi cael eu mabwysiadu.

- 1.8 Nid cael ei lunio wnaeth y rhwydwaith – daeth i fodolaeth yn sgîl defnydd y cyhoedd, weithiau dros gyfnod o ganrifoedd. Nid yw felly bob amser yn diwallu anghenion modern y cyhoedd – gan fod defnydd modern o'r rhwydwaith at ddibenion hamdden yn bennaf. Hefyd, mae dosbarthiad anwastad i'r rhwydwaith, yn enwedig o ran llwybrau ceffylau, lle nad oes rhai o gwbl mewn ambell ardal, tra bod gan eraill rwydwaith fechan leol, fel ar Ros Rhosili.
- 1.9 Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr yn cynnwys rhyw 66% o'r rhwydwaith cyfan.
- 1.10 Mae'r rhwydwaith cofrestredig presennol yn 376 milltir (602 km) o hyd ac yn cynnwys llwybrau troed yn bennaf (79.3%). Mae hefyd 77 milltir (123km) o lwybrau ceffyl (20.4% o'r rhwydwaith) a 1¼ milltir o gilffyrdd sydd ar agor i bob traffig (0.3%).





- 1.11 Mae hawliau tramwy cyhoeddus hefyd ar gael fel a ganlyn:

Llwybrau Troed	Cerddwyr
Llwybrau Ceffyl	Marchogwyr, beicwyr a cherddwyr
Cilffyrdd	Pob math ar draffig

- 1.12 Nid yw'r Awdurdod a'i ragflaenwyr erioed wedi llunio polisiau penodol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus na mynediad arall i gefn gwlad. Mae'r CMGC felly'n cynnwys, o dan bob adran ac yn y Datganiad Gweithredu, nifer o bolisiau a champau gweithredu ar gyfer mynediad i gefn gwlad a fydd yn llywodraethu sut cyflawnir swyddogaethau statudol yr Awdurdod a sut rheolir yr adnodd.

Total countryside access in the City and County of Swansea



Reproduced from the Ordnance Survey Map with the permission of the copyright holder HMSO
Copyright
City and County of Swansea Licence no. 100013360

2.0 Cyflwr rhwydwaith y llwybrau

2.1 Arolygwyd holl rwydwaith y llwybrau yn hydref 2005. Canfu'r arolwg fod nifer mawr o ddiffygion, y byddai llawer ohonynt yn atal llwybrau rhag cael eu defnyddio.

2.2 Fodd bynnag, mae arolwg blynyddol y dangosyddion perfformiad (gweler isod) wedi canfod yn gyson bod tua hanner y rhwydwaith yn 'hawdd ei ddefnyddio', ac er gwaethaf yr anawsterau ar rai llwybrau, mae cannoedd ar filoedd o bobl yn parhau i ddefnyddio'r rhan o'r rhwydwaith sydd mewn cyflwr da. **O fewn pedwar mis yn 2006, cofnododd dyfeisiau cyfrif fod 324,000 o bobl wedi mynd ar hyd 4 llwybr gwahanol yng Ngŵyr.**

2.3 Y prif ddiffygion oedd:

Mynegbyst O 715 man lle dylid gosod mynegbyst, mae 225 ar goll.

Rhwystrau Nodwyd 275 o rwystrau.

Sticlau Angen atgyweirio neu adnewyddu 42 sticyll, allan o gyfanswm o 436.

Gatiau Angen atgyweirio neu adnewyddu 145 gât, allan o gyfanswm o 587.

Pontydd Angen atgyweirio neu adnewyddu 6 phont, allan o gyfanswm o 210 o bontydd, gyda 26 ar goll yn llwyr.

2.4 Mae arolwg y defnyddwyr hefyd yn rhoi peth tystiolaeth am gyflwr y rhwydwaith, gyda 38% o'r cerddwyr a 50% o'r marchogwyr a ymatebodd wedi cael eu rhwystro rhag defnyddio llwybr. Roedd 64% o'r cerddwyr a 68% o'r marchogwyr o'r farn bod gordyfiant yn broblem. Ar ben hyn, roedd 37% o'r cerddwyr, a 60% o'r marchogwyr yn teimlo bod wyneb y llwybrau'n broblem, ond dim ond 6% oedd yn teimlo bod gormod o sticlau neu gatiau.

2.5 Mae cyfyngiadau ar ddefnydd y rhwydwaith a DP isel yn digwydd nid yn unig o ganlyniad i ddiffyg gwaith cynnal a phresenoldeb rhwystrau. Ni ellir datrys nifer o broblemau ond trwy lunio rhyw fath ar orchymyn cyfreithiol. Mewn rhai achosion bydd hyn yn arwain at broses gyfreithiol ddrud a hirwyntog a fydd yn cynnwys ymchwiliad cyhoeddus. Ar hyn o bryd nid yw union nifer yr 'anghysondebau' fel y'u gelwir, ar y map a'r datganiad terfynol yn hysbys, ond daethpwyd o hyd i 40 hyd yma, ac mae'r nifer terfynol yn debygol o fod yn llawer uwch. Nid yw rhai o'r anghysondebau hyn yn atal mynediad i'r cyhoedd. Er enghraifft ni ellir dilyn llawer o lwybr troed LL22 yng Nghoedwig y Parc oherwydd gordyfiant, ond defnyddir y llwybr coedwigaeth paralel ag ef sydd rai metrau i ffwrdd yn ei le. Byddai sefyllfa fel hon yn arwain at 'fethu' yn yr arolwg dangosyddion perfformiad (gweler isod). Gweler yr adran ar y map terfynol isod i gael rhagor o fanylion.

2.6 Mae cyflwr y rhwydwaith hefyd yn amrywio yn ôl pwy ydych. Roedd 82% o'r ymatebwyr o'r farn bod hygyrchedd y rhwydwaith yn wael neu'n weddol wael ar gyfer pobl â symudedd cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd 87% o'r farn bod y rhwydwaith yn hwylus ar gyfer pobl â chŵn.

Arolwg Dangosyddion Perfformiad

2.7 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gofyn bod Awdurdodau Lleol yn cynhyrchu amrywiaeth o ystadegau (Dangosyddion Perfformiad) i fesur eu perfformiad, ac yn eu plith mae mesur hwylustod defnydd rhwydwaith hawliau tramwy. Bob blwyddyn mae'n rhaid i'r Awdurdod ddewis sampl ar hap o'r llwybrau, o leiaf 5% o'r rhwydwaith, a'u harolygu i bennu pa lwybrau sy'n 'hwylus'. Cynhelir yr arolwg gan ddefnyddio canllawiau o eiddo Cymdeithas y Syrfewyr Sirol.

2.8 Er mwyn darparu ystadegau mwy dibynadwy mae'r Awdurdod hwn yn arolygu 10% o'r rhwydwaith mewn dau gam, 5% ym mis Mai a 5% ym mis Tachwedd. Er bod hyn yn darparu arolwg mwy dibynadwy, gall cyflwr llwybrau hwy wro'r canlyniadau i ddarparu canlyniad mwy cadarnhaol neu negyddol nag y dylid. Ni ddylid ystyried canlyniadau arolwg unigol, felly, fel rhywbeth arwyddocaol, yn hytrach mae'n fwy priodol dadansoddi canlyniadau sawl arolwg dros nifer o flynyddoedd i weld y tueddiad. O wneud hyn, bydd modd gweld a yw cyflwr y rhwydwaith yn gwella neu beidio.

Canlyniadau'r Dangosydd Perfformiad



Polisiau a Gweithredu

CN1 Nod yr Awdurdod yw bod 75% o'r rhwydwaith yn cynnwys mynegbyst ac yn hawdd ei ddefnyddio erbyn 2012.

Polisiau eraill perthnasol

HR1 Bydd yr Awdurdod yn agor pob llwybr ceffyl (ar ôl symud y rhwystrau, diffinio'r llwybrau'n gyfreithiol, a gosod mynegbyst arnynt) erbyn 2012.

3.0 Anghenion defnyddwyr

Pobl â symudedd cyfyngedig

- 3.1 Gellid diffinio'r rheiny â symudedd cyfyngedig fel pawb nad ydynt yn dringo mynyddoedd yn broffesiynol! Gellid barnu, felly, bod gan y mwyafrif ohonynt elfen o symudedd cyfyngedig, ac mae'n bwysig bod y rhwydwaith mor hwylus â phosib i bawb.
- 3.2 Gellir diffinio symudedd cyfyngedig fel pobl:
 - Sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a cherbydau symudedd
 - Â gallu cyfyngedig i gerdded
 - Â phlant bach, cerbydau gwthio
 - Sy'n oedrannus
 - Sy'n Ddall neu â nam ar y golwg
- 3.3 Yn 2001, cyhoeddodd Entec Astudiaeth Defnydd Hawliau Tramwy a'r galw amdanynt. Roedd yr astudiaeth hon yn diffinio 3 ffactor cyffredinol sy'n effeithio ar fynediad y rheiny â symudedd cyfyngedig fel a ganlyn:-
 - Cyflwr ffisegol y llwybr – yr arwyneb, camber, llethrau, rhwystrau
 - Lle parcio a thoiledau
 - Gwybodaeth am y llwybrau sy'n addas
- 3.4 Datgelodd Arolwg y Defnyddwyr fod 81% o'r ymatebwyr o'r farn nad yw'r llwybrau'n hwylus i'r rheiny â phroblemau symudedd.
- 3.5 Yn ôl Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DDA) 1995 a 2005 mae'n anghyfreithlon i ddarparwyr gwasanaeth wahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail anabledd. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd a ellir ystyried tiffeddianwyr sy'n gyfrifol am sticlau a gatiâu ar draws llwybrau fel 'darparwyr gwasanaeth'.
- 3.6 Ar ben hyn mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CROW) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau i ystyried anghenion pobl â symudedd cyfyngedig wrth awdurdodi sticlau neu gatiâu o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.
- 3.7 Mae'n rhaid derbyn, yn sgîl natur y dirwedd y mae llawer o'r llwybrau'n rhedeg drwyddi na fydd y rhwydwaith cyfan byth yn hygyrch i bawb. Fodd bynnag, er nad oes modd newid y dirwedd o amgylch y llwybr, gallai fod modd dileu rhwystrau a chreu arwynebau mwy hygyrch.
- 3.8 Gall sticlau rwystro mynediad i bawb ond y mwyaf abl ac felly dylid eu disodli neu eu clirio lle bynnag y bo modd. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran ar Reoli'r Rhwydwaith isod. Mae BS5709:2001, y Safon Brydeinig ar gyfer bylchau, gatiâu a sticlau, yn honni, er bod mathau lleol traddodiadol o sticlau a gatiâu, mai diben sticyll neu gât yw 'rhwystro'r stoc yn ddigonol, a rhoi mynediad da i bob defnyddiwr cyfreithlon'. Mae darparu gât neu sticyll, felly, yn cadw'r cydbwysedd rhwng anghenion rheoli da byw a mynediad i'r cyhoedd.

- 3.9 Mae'n eglur felly bod dyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod cymaint o rwydwaith y llwybrau yn hwylus i gynifer o bobl â phosib.
- 3.10 Mae llawer o'r rhwydwaith eisoes ar agor i'r rheiny â symudedd cyfyngedig, ac mae modd eisoes i bobl mewn cadeiriau olwyn a cherbydau symudedd ddefnyddio rhai llwybrau. Fodd bynnag, mae diffyg gwybodaeth ynghylch lleoliad y llwybrau hyn a'u cyflwr. I ganiatáu mynediad i bobl mewn cadeiriau olwyn confensiynol mae angen llwybr agored gydag arwyneb caled (fel nad yw'r olwynion yn suddo), dim camber neu un bychan, a graddiant isel (llai nag 1 mewn 20).
- 3.11 Mae diffyg hyder llawer o bobl wrth ddefnyddio HTC yn debygol o waethygu ymhlith y rheiny â symudedd cyfyngedig. Petai pobl â symudedd cyfyngedig yn cael gwybod beth i'w ddisgwyl ar lwybr byddent yn medru penderfynu a oedd y llwybr hwnnw'n addas at eu defnydd. Y diffyg gwybodaeth hwn yw'r ffactor unigol pwysicaf, mae'n debyg, wrth atal pobl â symudedd cyfyngedig rhag defnyddio'r rhwydwaith yn ei gyflwr presennol.


Beicwyr

- 3.12 Mae gan feicwyr yr hawl i ddefnyddio llwybrau ceffyl, cilffyrdd a rhwydwaith llwybrau beicio'r Awdurdod. Datgelodd Arolwg y Defnyddwyr mai'r gordyfiant ar y llwybrau a chyflwr yr arwyneb oedd y problemau mwyaf cyffredin ar rwydwaith y llwybrau ceffyl. Mae llawer o'r problemau y daw beicwyr ar eu traws yn debyg i'r rheiny sy'n wynebu pobl sy'n marchogaeth wrth iddynt fynd i gefn gwlad.

Marchogaeth

- 3.13 Mae'r rhan fwyaf o rwydwaith y ffyrdd yn cynnwys llwybrau troed lle nad oes hawl mynediad ffurfiol i farchogaeth. Dim ond ar 21% o'r rhwydwaith mae hawl mynediad gan farchogwyr. Fel y disgrifiwyd yn y Cyflwyniad, nid yw rhwydwaith y llwybrau ceffyl wedi'i ddisbarthu'n gyfartal, ac mae tuedd i gael crynodiad dwys o rwydweithiau llwybrau ceffyl bychain mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft, mae rhwydweithiau o lwybrau ceffyl o amgylch Llangynydd, yn Oxwich ac ar Gomin Clun. Ni chynlluniwyd y rhwydwaith HTC na'i ddylunio, daeth i fodolaeth trwy ddefnydd hanesyddol. Felly, os oedd llwybr yn cael ei ddefnyddio gan bobl ar geffylau roedd yn debygol o ddod yn llwybr ceffyl. Mae mynediad i bobl ar gefn ceffyl wedi'i gyfyngu ymhellach gan nad oes hawl i farchogaeth ar dir mynediad. Mae tir comin yn Hen Fwrdeistref Abertawe a Rhanbarth Trefol Llŵchwr wedi darparu mynediad i'r cyhoedd ar gyfer 'hawl aer ac ymarfer corff' ers diwygio Deddf Cyfraith Eiddo 1925 ym 1974. Ar hyn o bryd, mae'n aneglur a yw hawliau marchogaeth yn bodoli neu beidio ar y 'Tir Comin Trefol' hwn.
- 3.14 Yn sgîl y diffyg cyfleusterau marchogaeth, mae'n bwysicach fyth sicrhau bod yr holl fannau y gellir hawlio mynediad cyfreithiol iddynt ar agor ac mewn cyflwr i'w defnyddio. Caiff llwybrau 'heb ffordd drwodd' eu hystyried dan yr


adran ar y Map Terfynol isod. Mae llawer o farchogwyr a beicwyr (56% yn Arolwg y Defnyddwyr) o'r farn y byddai rhai ardaloedd yn elwa o gysylltiadau ychwanegol neu ddarpariaeth well. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn y Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus isod nid yw darparu llwybrau ceffyl newydd yn fater syml ac mae'n debygol iawn o ennyn gwrthwynebiad cryf gan dirfeddianwyr.



Cerddwyr

- 3.15 Mae holl rwydwaith y llwybrau a'r holl dir mynediad ar gael yn gyfreithiol i gerddwyr. Mae hyn yn golygu bod gan gerddwyr eisoes gryn dipyn o fynediad i gefn gwlad.
- 3.16 Canfu Arolwg y Defnyddwyr mai 27% yn unig o'r cerddwyr oedd yn credu y gallai rhai manau elwa o gysylltiadau ychwanegol neu well darpariaeth. Felly ymddangosai mwyafrif y cerddwyr yn fodlon ar y ddarpariaeth bresennol. Fodd bynnag, mae'r arolwg hefyd yn datgelu bod cerddwyr yn dod ar draws nifer sylweddol o broblemau wrth ddefnyddio'r llwybrau, o lwybrau sydd wedi'u rhwystro'n llwyr i sbwriel. Bydd nifer o'r polisïau a'r camau gweithredu mewn manau eraill yn y CMGC yn cynorthwyo cerddwyr i fwynhau mwy o'r rhwydwaith, gan gynnwys HR1 uchod a CN1 (sy'n anelu at darged o 75% o'r rhwydwaith sy'n hawdd ei ddefnyddio).
- 3.17 Cerdded yw'r dull cludiant gorau ar gyfer yr amgylchedd ac iechyd, a dylid ei annog. Mae cerddwyr yn defnyddio'r rhwydwaith mewn amrywiol ffyrdd. Mae'r defnydd cyfleustod yn tueddu i fod yn yr ardaloedd trefol - cerdded i'r

siopau, i'r ysgol ac ati, ac mae'r defnydd hamdden yn tueddu i fod yng nghefn gwlad.



Pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr

- 3.18 Mae'n debygol na fydd y rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr byth am ddefnyddio'r rhwydwaith. Fodd bynnag, o dderbyn gwybodaeth, gallai fod nifer mawr o bobl a fyddai'n defnyddio'r rhwydwaith, er nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Dengys astudiaethau fod diffyg ymwybyddiaeth yn rheswm amlwg dros ddiffyg defnydd, er y gall hyder hefyd fod yn ffactor arwyddocaol, yn enwedig ar gyfer y rheiny â symudedd cyfyngedig. Disgrifir y dulliau o wella ymwybyddiaeth o gyfleoedd mynediad yn Rheoli'r Rhwydwaith a Thwristiaeth a Hyrwyddo isod.
- 3.19 Nid yw dulliau codi ymwybyddiaeth yn tueddu i lwyddo ymhlith pobl o ardaloedd difreintiedig neu 'Gymunedau'n Gyntaf'. Nid yw mynediad i gefn gwlad yn flaenoriaeth i drigolion ardaloedd o'r fath ac mae ymweld â chefn gwlad yn cael ei ystyried yn un o ddi-ddordebau'r dosbarth canol. Felly, nid yw eu denu mewn ffyrdd dosbarth canol traddodiadol yn debygol o lwyddo.
- 3.20 Mae Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf yn Abertawe eisoes wedi cael peth llwyddiant wrth ddarbwyllio trigolion i gerdded yng nghefn gwlad yn lleol.

Polisïau a Chamau Gweithredu

- LM1 Bydd yr Awdurdod yn trafod gyda'r rheiny â symudedd cyfyngedig ynghylch y dull gorau o ddarparu gwybodaeth i alluogi'r rheiny â Symudedd Cyfyngedig i gael mynediad i'r rhannau hynny o'r rhwydwaith sydd ar gael iddynt.
- HR1 Bydd yr Awdurdod yn agor pob llwybr ceffyl (wedi dileu rhwystrau, eu diffinio'n gyfreithiol, a gosod mynegbyst arnynt) erbyn 2012.
- NU1 Bydd yr Awdurdod yn annog pobl o bob cefndir i fanteisio ar fynediad i gefn gwlad.
- NU2 Bydd Gwasanaeth Mynediad i Gefn Gwlad yn datblygu cysylltiadau gydag asiantaethau eraill i wella'r cyfleoedd ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Polisïau a chamau gweithredu eraill perthnasol

- DM3 Bydd pob llwybr heb ffordd drwodd yn cael ei ystyried, a chymerir y cam mwyaf priodol i ddatrys y sefyllfa; cynnal y sefyllfa bresennol, uwchraddio neu greu llwybr troed, israddio llwybr ceffyl.
- MN14 Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda thirfeddianwyr a rheolwyr tir i hyrwyddo'r opsiwn sy'n cyfyngu leiaf, yn nhrefn bwlch, wedyn gât, ac wedyn sticyll, a bydd yn ceisio cyfyngu gymaint â phosib ar yr adeileddau. Rhagdybir mai gatiâu'n unig a awdurdodir fel adeileddau newydd.
- MN15 Lle nad oes angen adeiledd bellach ar gyfer rheoli stoc neu ddiogelu'r cyhoedd, bydd yr Awdurdod yn ceisio trefnu bod yr adeiledd yn cael ei symud i adael bwlch.

4.0 Y Map Terfynol

Nod Sicrhau bod y map a'r datganiad terfynol yn darparu cofnod cywir

- 4.1 Mae'r map a'r datganiad terfynol yn cofnodi'r holl lwybrau troed cyhoeddus, llwybrau ceffyl a chilffyrdd agored i bob traffig a gofrestrwyd yn Ninas a Sir Abertawe. Mae cyfeiriadau at y 'map terfynol' isod yn cynnwys y datganiad terfynol.
- 4.2 Bu dyletswydd ar Gynghorau Unedol a Sirol Cymru a Lloegr i lunio a chynnal map terfynol ers Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.
- 4.3 Cyhoeddwyd y map terfynol cyntaf ym 1970. Roedd hwn yn dilyn 20 mlynedd o dirfesur, gwrandawiadau a sesiynau chwarter pan fu rhaid i Gyngor Sir Morgannwg lunio map drafft (14 Medi 1954) a map dros dro (1964) cyn y map terfynol gorffenedig.
- 4.4 Galluogodd Adran 35 o Ddeddf wreiddiol 1949 rai Bwrdeistrefi Sirol i gael eu heithrio o'r broses gofrestru, ac felly ni chynhyrchwyd map terfynol ar gyfer Bwrdeistref Abertawe. Gwydrodd Adran 54(3) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 y sefyllfa hon, gan roi cyfrifoldeb i Gynghorau Sir am gynhyrchu mapiau terfynol ar gyfer yr ardaloedd a eithriwyd gynt. Fodd bynnag, yn wahanol i Ddeddf 1949, nid yw'n ofynnol cynnal arolwg a chofrestru rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus wedi hynny. Bydd y map terfynol ar gyfer yr ardal hon yn datblygu dros amser wrth i 'orchmynion addasu' (gweler isod) gael eu creu i ychwanegu mwy o lwybrau a gellir cael hyd i'r polisïau ar gyfer datblygu rhwydwaith yn yr ardal hon yn yr adran isod ar orchmynion llwybrau cyhoeddus.
- 4.5 Cychwynnod adolygiad drafft ym 1971, ac wedi 16 mlynedd o wrandawiadau, cyhoeddwyd ail argraffiad y map terfynol ym 1987, gyda'r dyddiad perthnasol 1 Ionawr 1971 ac ar raddfa o 1:25,000. Y map hwn yw'r cofnod cyfreithiol cyfredol o hawliau tramwy cyhoeddus yr Awdurdod, er bod yr wybodaeth ar y map yn 33 blwydd oed.
- 4.6 Mae presenoldeb hawl tramwy cyhoeddus ar y map hwn yn brawf terfynol o'i fodolaeth a'i statws (Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981). Fodd bynnag, yn sgîl graddfa'r map terfynol (1:25,000) a byrder y datganiad, mae'n aml yn anodd pennu union aliniad, lled a lleoliad y llwybrau a ddangosir arno.
- 4.7 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod y map terfynol ar gael i'w archwilio yn ystod oriau swyddfa. Os gellir bodloni hawlfraint yr Arolwg Ordnans, mae'n bosib y bydd modd darparu'r wybodaeth hon ar wefan yr Awdurdod yn y dyfodol.

Y sefyllfa bresennol

- 4.8 Ers 1971 cofnodwyd dros 300 o lwybrau cyfreithiol ar argraffiad 1971 o'r map terfynol. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o'r map terfynol ac mae'n rhaid eu cadw gydag ef, ond maent yn ddogfennau cyfreithiol ar wahân. O ganlyniad i'r anhawster wrth ddefnyddio'r map terfynol gwreiddiol ar bapur a'r holl newidiadau sydd ynghlwm wrtho, mae fersiwn ddigidol o'r map yn cael ei ddefnyddio o ddydd i ddydd, a'r enw ar hwn yw'r 'copi ymarferol'. Caiff y map hwn ei ddiweddarau cyn gynted ag y caiff newid arall ei gadarnhau, a gall holl aelodau'r Tîm Mynediad i Gefn Gwlad ac unrhyw aelod arall o staff sy'n meddu ar y meddalwedd priodol gael mynediad iddo.
- 4.9 Gellid cyhoeddi'r map 'copi ymarferol' digidol fel map terfynol yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae peth gwaith i'w wneud i ddal i fyny gyda'r gwaith lleol sydd wedi cronni (LEMOs, gweler isod) y mae'n rhaid ei gwblhau cyn y gellir cynhyrchu map terfynol newydd.

Adnoddau staff


- 4.10 Mae dau aelod o staff amser llawn yn yr Is-adran Gyfreithiol a Gwasanaethau Pwyllgor sy'n delio â'r rhan fwyaf o agweddau ar orchmynion addasu, a'r Tîm Mynediad i Gefn Gwlad sy'n delio â rhai o'r materion llai. Gweler yr atodiad am y strwythur staffio. O dan drefniant a sefydlwyd adeg ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996 mae staff Cyfreithiol a Gwasanaethau Pwyllgor yn treulio peth o'u hamser hefyd yn gweithio ar achosion ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.
- 4.11 Ar hyn o bryd, er bod y ddwy adran yn cydweithio'n agos, nid oes trefniant ffurfiol rhwng Cyfreithiol a Gwasanaethau Pwyllgor a Gwasanaethau Cynllunio ynghylch sut dylai dwy ran gwasanaeth mynediad i gefn gwlad yr Awdurdod gydweithio. Mae angen felly am sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ffurfiol ar gyfer HTC rhwng Gwasanaethau Pwyllgor a Chyfreithiol a Gwasanaethau Cynllunio.

Newidiadau i'r map terfynol – Gorchmynion Addasu

- 4.12 Gellir newid y map terfynol naill ai drwy ddod o hyd i dystiolaeth sy'n profi ei fod yn anghywir, a fydd yn arwain at 'orchmyn addasu' (gweler isod) neu o ganlyniad i Orchmyn Llwybr Cyhoeddus (PPO, gweler yr adran ddilynol).
- 4.13 Mae dyletswydd ar yr Awdurdod o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 i adolygu'r map terfynol yn barhaus. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo ystyried tystiolaeth y gallai'r map fod yn anghywir os daw ar draws y dystiolaeth honno ei hun, neu pan gyflwynir tystiolaeth iddo. Newidir y map terfynol trwy lunio gorchmyn addasu.



Y map terfynol cyfredol



'Copi ymarferol' digidol o'r map terfynol

- 4.14 Mae gan y cyhoedd yr hawl i gyflwyno cais i'r Awdurdod am orchymyn addasu i newid y map terfynol mewn rhyw fodd am eu bod yn credu nad yw llwybr i'w weld arno, ond y dylai fod, bod llwybr i'w weld ar y map, ond na ddylai fod, neu bod y llwybr a welir ar y map neu'r disgrifiad yn y datganiad yn anghywir. Adwaenir ceisiadau o'r fath fel 'hawliadau', ac fel arfer maent yn hawlio y dylid ychwanegu llwybrau at y map terfynol.
- 4.15 Gall yr Awdurdod ddarganfod gwall ei hun a chreu gorchymyn addasu o ganlyniad. Mae gwallau wedi digwydd wrth gynhyrchu'r map terfynol, ac ni ellir cywiro'r rhain ond drwy lunio gorchymyn addasu. Mae mwyafrif y gwallau hyn o ganlyniad i ddrafftio gwael wrth greu'r map.
- 4.16 Pan gadarnheir PPO (gorchymyn dargyfeirio, creu neu ddileu) mae'n rhaid llunio gorchymyn addasu ar wahân o'r enw Gorchymyn Addasu Digwyddiad Cyfreithiol (LEMO) er mwyn addasu'r map terfynol. Nid yw LEMOs yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, gan i hynny ddigwydd yn ystod llunio'r gorchymyn gwreiddiol i newid y llwybr. Gallai'r sefyllfa hon newid yn y dyfodol os cyflwynir Deddf CROW yn llawn, gan fod atodlen 5 yn caniatáu cyfuno LEMOs a PPOs mewn un gorchymyn.

Y sefyllfa bresennol

- 4.17 Mae 49 hawliad nad yw'r Awdurdod wedi dod i benderfyniad arnynt eto (ar 6 Hydref 2006), y mae rhai ohonynt yn dyddio'n ôl sawl blwyddyn. Ar gyfartaledd, derbynnir 17 hawliad newydd bob blwyddyn, ac mewn blwyddyn arferol bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar 14 o hawliadau.
- 4.18 Mae'r Awdurdod yn gwybod am dros 50 o wallau ac anghysondebau y mae'n rhaid ymchwilio iddynt ar y map terfynol, ac mae'n bosib y bydd nifer mawr ohonynt yn arwain at orchymynion addasu. Ni chynhaliwyd arolwg systematig o'r cofnodion i bennu union nifer y gwallau a'r anghysondebau y mae angen eu cywiro, ond mae'n debygol y bydd yn llawer uwch na'r 50 a ddarganfuwyd eisoes. Mae 15 achos o lwybrau ceffyl neu gilffyrdd 'heb ffordd drwodd', gweler atodiad 3.
- 4.19 Er bod Gorchymynion Addasu Digwyddiad Cyfreithiol (LEMOs) bellach yn cael eu cynhyrchu'n union ar ôl cadarnhau'r PPO gael ei gadarnhau, ni fu hynny'n digwydd am flynyddoedd lawer, ac mae dros 70 LEMO i'w llunio cyn y gellir cyhoeddi'r map terfynol nesaf (yng nghyswllt PPOs o 1971 i 1999).
- 4.20 Ers 1996, mae dros 23km o lwybrau troed a bron 10km o lwybrau ceffyl wedi cael eu hychwanegu at y rhwydwaith o ganlyniad i lunio a chadarnhau gorchymynion addasu gan yr Awdurdod hwn.

Polisiau a Chamau Gweithredu

- DM1 Anghysondebau sy'n arwain at atal defnydd o'r llwybr fydd y flaenoriaeth uchaf, a byddant yn derbyn sylw ar frys.

- DM2 Cynhelir arolwg o'r map a'r datganiad terfynol i asesu nifer y cywiriadau y bydd angen eu gwneud i'r cofnod cyfreithiol presennol. Unwaith mae graddfa'r broblem yn hysbys, bydd pob cywiriad yn cael ei ystyried mewn gorchymyn y cytunir arno gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Tîm Mynediad i Gefn Gwlad.
- DM3 Bydd pob llwybr heb ffordd drwodd yn cael ei ystyried, a chymerir y camau mwyaf priodol i ddatrys y sefyllfa; cynnal y sefyllfa bresennol, uwchraddio neu greu llwybr troed, israddio llwybr ceffyl neu gilffordd.
- DM4 Cynhyrchu LEMOs ar gyfer yr ôl-groniad o PPOs ac yn union wedi i bob PPO newydd gael ei gadarnhau.
- DM5 Cyhoeddi map terfynol newydd bob 5 mlynedd a cheisio ffyrdd o'i gyhoeddi ar y wefan.
- DM6 Sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ffurfiol ar gyfer HTC rhwng y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Cynllunio.
- DM7 Mae'r ceisiadau am orchymyn addasu i dderbyn sylw yn nhrefn derbyn y ceisiadau gorffenedig oni bai bod y llwybr honedig dan fygythiad gan ddatblygiad; bydd y cais yn cael ei drin fel blaenoriaeth mewn achosion o'r fath.
- DM8 Gorfodir llinell llwybrau honedig a rwystrowyd gan ddatblygiad os caiff y llwybr honedig ei gofrestru. Gweler y polisi gorfodi yn atodiad 5.
- DM9 Lle mae manteision amlwg i lunio PPO neu gytundeb creu yn hytrach na gorchymyn addasu, dylid ffafrio'r PPO neu'r cytundeb creu.

5.0 Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (PPOs) (Gorchmynion Dargyfeirio, Creu a Dileu)

Nod Gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol i wella'r rhwydwaith i bawb

- 5.1 Mae gan yr Awdurdod bwerau i greu gorchmynion dargyfeirio, creu a dileu i symud, ychwanegu neu gael gwared o lwybrau o dan rai amgylchiadau. Adwaenir yr holl orchmynion o'r math hwn fel Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus neu PPOs. Cynhwysir y pwerau hyn yn Neddf Priffyrdd 1980, sy'n cynnwys y mwyafrif o newidiadau, neu yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n delio'n benodol â newidiadau y mae eu hangen o ganlyniad i ddatblygu. Nid oes dyletswydd ar yr Awdurdod i greu PPO, ac felly nid oes rhaid iddo greu un oni bai ei fod o'r farn bod hynny'n angenrheidiol. Gellir creu llwybrau cyhoeddus hefyd drwy gytundeb rhwng y Tirfeddiannwr a'r Awdurdod.
- 5.2 Gall tirfeddiannwyr gyflwyno cais i'r Awdurdod am ddargyfeirio neu ddileu, ond mae'n rhaid iddynt gytuno i dalu'r Awdurdod am y costau gweinyddol cysylltiedig ac, os bydd angen, y gwaith angenrheidiol i greu'r llwybr newydd. O dan rai amgylchiadau, gall yr Awdurdod a'r tirfeddiannwr fod ar eu hennill wrth lunio gorchymyn dargyfeirio, er enghraifft am resymau iechyd a diogelwch.
- 5.3 Gall yr Awdurdod hefyd gychwyn PPOs sydd er lles y cyhoedd, gorchmynion dargyfeirio neu greu fel arfer. Fodd bynnag, gall y rhain fod yn amodol ar dalu iawndal i dirfeddiannwyr.
- 5.4 Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r Awdurdod wedi cadarnhau 32 PPO. O'r rhain, roedd 3 o ganlyniad i geisiadau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r Awdurdod hefyd wedi dynodi rhwydwaith helaeth o lwybrau ar ei dir ei hun yng Nghwm Clun, ac yn Llansamlet. Hefyd lluniwyd tri chytundeb creu yn y cyfnod hwn.
- 5.5 Mae cryn ôl-groniad o broblemau y bydd angen eu datrys gan y PPOs a gychwynnir gan yr Awdurdod.
- 5.6 Mewn sawl lleoliad, mae adeiladau a godwyd yn ystod y 50 mlynedd diwethaf wedi dod yn rhwystr ar lwybrau. Bydd angen ymdrin â'r rhwystrau hyn, a gwneir hynny'n bennaf drwy ddargyfeirio'r llwybrau dan sylw. Ar ben hyn, mae rhai llwybrau wedi cael eu rhwystro am gryn gyfnod – 50 mlynedd neu fwy – ac yn aml yr ateb gorau i'r rhwystr er lles y defnyddwyr a'r tirfeddiannwyr yw ei ddargyfeirio.
- 5.7 Mae dargyfeirio'n gyfle i wella llwybr er lles y cyhoedd drwy gyfyngu cymaint â phosibl ar yr adeileddau sy'n croesi'r llwybr newydd a defnyddio gatiâu yn hytrach na sticlau lle mae'r llwybr yn croesi ffensys. Mae newidiadau o dan Ddeddf CROW 2000 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd wedi rhoi

Awdurdodau o dan rwymedigaeth i ystyried gosod gathiau yn lle sticlau, o leiaf, neu i glirio adeileddau'n gyfangwbl.

Creu llwybrau newydd

- 5.8 Disgrifir y sefyllfa o ran yr ardal o Fwrdeistref Abertawe a eithriwyd yn flaenorol yn yr adran ar y map terfynol uchod. Fel y disgrifiwyd, mae'n rhaid i'r Awdurdod ychwanegu llwybrau yn yr ardal hwn drwy orchmynion addasu. Gall yr Awdurdod aros am geisiadau gan y cyhoedd ar gyfer gorchmynion o'r fath ond mae ganddo hefyd bwerau i weithredu'n fwy rhagweithiol drwy lunio gorchmynion creu neu gytundebau creu. Mewn achosion lle mae llwybr yn amlwg yn cael ei ddefnyddio, ac mae'r cyhoedd o blaid creu llwybr, gallai'r Awdurdod ddefnyddio'r pwerau hyn. Mae'r Awdurdod hefyd yn y gorffennol wedi defnyddio datblygiad newydd fel cyfle i wella'r rhwydwaith yn yr ardal, a gallai barhau i wneud hynny fel y disgrifir isod. O ganlyniad i orchmynion blaenorol o dan Ddeddfau Priffyrdd a Chynlluniau, mae rhai llwybrau naill ai heb ffordd drwodd neu heb gysylltu â phriffyrdd eraill o gwbl. Mae perygl nad yw rhai llwybrau yn yr ardal a eithrid gynt yn cael eu defnyddio bellach, a'r pryder yw, os na chaiff y llwybrau hyn eu cofrestru fel HTC mewn rhyw fodd, y byddant yn mynd i gyflwr gwael, gan arwain at ddiffyg defnydd, ac yn cael eu colli am byth.
- 5.9 Yn ogystal â'r amgylchiadau a ddisgrifiwyd uchod, bydd angen i'r Awdurdod lunio gorchmynion creu mewn mannau eraill. Fel y disgrifiwyd uchod, anwastad yw'r rhwydwaith, yn enwedig o ran llwybrau ceffyl, ac o bryd i'w gilydd gallai fod angen llunio gorchmynion i wella mynediad mewn rhai ardaloedd. Yn benodol, gallai'r Awdurdod barhau i greu llwybrau ar ei dir ei hun, ychwanegu dolenni coll ar Lwybr yr Arfordir (gweler yr adran ar Lwybr Arfordir Gŵyr yn 'Rheoli'r Rhwydwaith' isod) a chreu llwybrau diogel i'r ysgol.
- 5.10 Datgelodd arolwg y defnyddwyr fod 86% o gerddwyr o'r farn bod y cysylltiadau rhwng llwybrau troed, llwybrau ceffyl ac ardaloedd eraill (e.e. traethau) yn dda neu'n weddol dda a theimlai 90% fod y rhwydwaith cyffredinol o lwybrau troed a llwybrau ceffyl yn dda neu'n weddol dda. Ymddengys felly fod mwyafrif y cerddwyr yn fodlon ar ddarpariaeth gyffredinol mynediad. Fodd bynnag, ymddengys y rheiny sy'n marchogaeth yn llai bodlon, gyda 45% yn unig o'r farn bod y cysylltiadau rhwng llwybrau ceffyl ac ardaloedd eraill yn dda neu'n weddol dda. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhwydwaith mwy bylchog o lwybrau ceffyl ar draws yr Awdurdod.
- 5.11 Gall creu llwybrau newydd fod yn bwnc llosg yn aml yn enwedig os effeithir ar unrhyw dirfeddianwyr preifat, ac felly mae'n bwysig bod unrhyw lwybrau newydd wedi'u cyfiawnhau'n llawn o ran yr angen am ychwanegu at gyfleustra nifer sylweddol o'r cyhoedd neu drigolion yr ardal. Datgelodd arolwg y tiffeddianwyr eu bod i gyd fwy neu lai yn teimlo y byddai mwy o fynediad i'w tir gan y cyhoedd yn cael effaith niweidiol. Byddai creu llwybr y cafwyd gwrthwynebiad iddo'n debygol o arwain at ymchwiliad cyhoeddus, ac ar ben hynny mae iawndal yn daladwy i'r tiffeddiannwr am unrhyw werth a gollir o'r tir.

- 5.12 Er gwaethaf yr anawsterau wrth greu llwybrau newydd mae'r Awdurdod, ers 1996, wedi creu 1.1km o lwybrau troed ac 8.3km o lwybrau ceffyl, trwy gytundeb yn bennaf.

Dileu llwybrau

- 5.13 Mae dileu llwybrau'n anghyffredin am fod rhaid i'r Awdurdod brofi nad oes angen y llwybr bellach at ddefnydd y cyhoedd. Mae'r prawf hwn yn un anodd llwyddo ynddo'n ymarferol, yn enwedig gan y gall fod rhwystr ar y llwybr dan sylw sy'n golygu nad oes modd ei ddefnyddio. Yn y gorffennol mae llwybrau wedi cael eu rhwystro gan ddatblygiad ac wedi cael eu disodli i bob pwrpas gan fynediad arall i'r cyhoedd, a gellid datrys sefyllfaoedd o'r fath â gorchymyn dileu.

Datblygiad a hawliau tramwy cyhoeddus

- 5.14 Bydd darparu mynediad diogel, cyfleus a dymunol nad yw i gerbydau yn cynorthwyo pobl mewn ardaloedd trefol i fyw bywydau iach ac yn darparu dull cludiant cynaliadwy ar eu cyfer.
- 5.15 Gall datblygiad ar raddfa fawr newid tirlun cyfredol yn llwyr a bydd anghenion mynediad y cyhoedd yn newid yn sylweddol. I adlewyrchu'r newid hwn, gall fod angen addasu'r mynediad presennol i'r cyhoedd yn rhannol neu'n llwyr, ond wrth wneud hynny dylid cynnal neu wella mynediad cyffredinol y cyhoedd.
- 5.16 Rhaid ystyried dyluniad llwybr newydd yn ofalus er mwyn 'dileu troseddu trwy ddyluniad' – rhaid i lwybrau gael eu goleuo, bod yn llydan a dymunol i'w defnyddio, a dylid osgoi ffensys dros 1.2 metr o uchder yn ymyl llwybr, troeon cam a manau eraill lle gellid cuddio. Rhaid i ddefnyddwyr fod yn hyderus bod llwybrau newydd yn ddiogel i'w defnyddio.
- 5.17 Gall trigolion deimlo bod llwybrau trwy ddatblygiadau'n niwsans, ac felly dylid ystyried anghenion trigolion sy'n byw yn ymyl llwybrau trwy ddatblygiadau wrth eu dylunio.
- 5.18 Rhaid diwallu anghenion y rheiny â symudedd cyfyngedig oni bai nad yw amgylchiadau'r safle'n caniatáu hynny. Mae polisi AS2 y CDU yn nodi y dylid dylunio datblygiadau newydd i ddarparu cyfleusterau addas ac amgylchedd deniadol ar gyfer cerddwyr, beicwyr a dulliau cludiant eraill heb fodur. Mae rhwymedigaeth gynllunio trwy gytundebau adran 106 yn darparu cyfle i wella mynediad ar, neu yn ymyl, datblygiad.

Polisiau a Chamau Gweithredu

Cytundebau a gorchmynion creu

- PPO1 Bydd yr Awdurdod yn arwain drwy esiampl ac yn creu llwybrau ar ei dir ei hun lle gellir dangos bod angen mynediad gwell i'r cyhoedd.

- PPO2 Manteisio ar bob cyfle i sefydlu llwybrau newydd yn yr ardal a eithriwyd gynt (Bwrdeistref Abertawe gynt) drwy greu llwybrau newydd fel rhan o ddatblygiad newydd.
- PPO3 Creu llwybrau newydd yn yr ardal a eithriwyd gynt lle gellir dangos yn glir bod angen a galw gan y cyhoedd am llwybrau newydd, neu lle mae gorchymyn blaenorol wedi gadael llwybr heb ffordd drwodd neu heb ei gysylltu â phriffordd arall.
- PPO4 Lle gellir dangos y bydd creu llwybr newydd yn darparu llwybr diogel i'r ysgol ar gyfer plant neu welliant diogelwch ffyrdd, cefnogir creu'r llwybr hwnnw.
- PPO5 Lle mae dolenni ar goll yn Llwybr Arfordir Gŵyr bydd yr Awdurdod yn ceisio creu llwybrau cyhoeddus.
- PPO6 Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod Llwybr Arfordir Gŵyr yn rhedeg mor agos at yr arfordir â phosib.
- PPO7 Cefnogir cytundebau cyflwyno lle dangosir y bydd y rhwydwaith yn cael ei wella.

Gorchmynion dargyfeirio a dileu o dan Ddeddf y Priffyrdd

- PPO8 Cefnogir creu gorchmynion dargyfeirio sydd er lles defnyddwyr a'r holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt.
- PPO9 Cyflwynir gorchmynion dargyfeirio gan yr Awdurdod lle dangosir mai dyna'r dewis mwyaf cost-effeithiol ar gyfer datrys problem ar lwybr.
- PPO10 Bydd gofyn i'r ymgeisydd dalu am gostau dargyfeirio neu ddileu a'r gwaith y mae ei angen i agor y llwybr newydd.
- PPO11 Lle mae manteision iechyd a diogelwch amlwg i ddargyfeirio llwybr (megis y rheiny trwy fuarth fferm weithredol) bydd yr Awdurdod yn cyfrannu at gost llunio'r gorchymyn a'r gwaith y mae ei angen i agor y llwybr newydd.
- PPO12 Yr unig adeileddau a ganiateir ar draws llwybr troed newydd fydd gatiau, oni bai bod rhesymau rheoli stoc cryf iawn dros ganiatáu sticlau. Rhagdybir y gosodir cyn lleied â phosib o adeileddau ar unrhyw lwybr newydd, ac na ddefnyddir gatiau ond pan fydd eu hangen i gynnal ffin na all stoc ei chroesi.
- PPO13 Lle rhwystrowyd llwybr cyn 1950, cefnogir dargyfeirio'r llwybr i lwybr amgen addas os dyma'r ffordd orau o ddatrys problem y rhwystr.
- PPO14 Cefnogir dargyfeirio llwybrau sydd eisoes wedi'u rhwystro gan adeiladau os nad oes opsiynau eraill ar gael ac nad oes modd symud neu adleoli'r adeilad.
- PPO15 Bydd dileu'n cael ei ystyried lle bodlonir y profion cyfreithiol angenrheidiol h.y. nad oes angen y llwybr at ddefnydd y cyhoedd bellach. Gellir bodloni'r

prawf hwn os oes mynediad amgen i'r cyhoedd sydd i bob pwrpas wedi disodli'r llwybr gwreiddiol.

Gorchmynion dargyfeirio a chau o dan Ddeddf Cynllun Gwlad a Thref

PPO16 Rhaid cadarnhau dargyfeirio neu gau llwybr cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Bernir bod unrhyw safle adeiladu sy'n rhwystro llwybr yn rhwystr a bydd yn cael ei drin yn unol â'r polisi gorfodi a geir yn atodiad 5.

PPO17 Caniateir dargyfeirio llwybrau ar draws safleoedd yr effeithir arnynt gan ddatblygiad dim ond lle profir bod rhaid dargyfeirio'r llwybr i alluogi cyflawni'r datblygiad, a phryd hynny dim ond lle darperir llwybr amgen derbyniol.

PPO18 Caniateir i lwybrau gael eu cau ar gyfer datblygiad mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

PPO19 Ceisir cyfleoedd i greu gwelliannau i'r rhwydwaith lle mae datblygiadau newydd wedi'u cynllunio.

PPO20 Rhaid llunio llwybrau newydd i greu cyn lleied o niwsans â phosib i drigolion lleol ac fel bod defnyddwyr yn hyderus eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Lle mae'r dirwedd yn caniatáu, rhaid i lwybrau newydd fod ar gael i ddefnyddwyr o bob gallu.

Cyffredinol

PPO21 2 fetr fydd lled unrhyw lwybrau troed newydd heb ei amgáu, a 3 metr fydd lled unrhyw lwybr ceffyl newydd heb ei amgáu, oni bai nad yw cyflwr y ddaear neu adeileddau parhaol yn caniatáu hynny. 3 metr fydd lled llwybrau troed newydd amgaeedig, a 4 metr fydd lled llwybrau ceffyl newydd amgaeedig.

6.0 Rheoli rhwydwaith yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Nod Rheoli'r rhwydwaith er mwyn sicrhau ei fod mor hygyrch ac mor hawdd ei ddefnyddio â phosib

6.1 Rheoli rhwydwaith yr hawliau tramwy cyhoeddus yw'r swyddogaeth mynediad i gefn gwlad fwyaf yr Awdurdod. Mae'n galw am waith cynnal, gorfodi a gwelliannau, a gellid dweud hefyd ei fod yn cynnwys newid llwybrau'r rhwydwaith yn barhaol, ond ymdrinnir â'r rhain yn yr adran flaenorol ar PPOs.

Adnoddau Staff

6.2 Mae 6 o staff yn y Tîm Mynediad i Gefn Gwlad sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r rhwydwaith. Gwelir y strwythur staffio yn atodiad 11. Arweinydd y Tîm, yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy a Dau Swyddog Ardal sy'n delio â'r holl faterion sy'n ymwneud a rheoli'r rhwydwaith. Ar ben hyn mae Tîm y Ceidwaid (2 swydd) yn gwneud mân waith yn lleol, o waith bychan ar yr wyneb i nodi llwybrau.

Cynnal

6.3 Mae'r Awdurdod yn rheoli ei rwydwaith o 376 milltir â chyllideb gwaith cynnal a gwella o £160,000 (2006/7); mae hyn yn cynnwys yr holl gostau cysylltiedig â Thîm y Ceidwaid. Nid yw arian allanol o ffynonellau megis CCGC ar gael ond ar gyfer gwaith gwella – mae gwaith cynnal yn ddyletswydd statudol ac felly nid yw cyfraniadau o gronfeydd allanol ar gael. Mae'r gwaith cynnal yn cynnwys gwaith cyson megis clirio tyfiant a thrwsio'r isadeiledd; am ddiffiniad o welliannau, gweler isod.

6.4 Yn ôl arolwg defnyddwyr 2005, gordyfiant oedd y broblem fwyaf ar rwydwaith y llwybrau, gyda 64% o'r cerddwyr a 69% o'r marchogwyr yn gweld hyn fel problem. Mae'r Awdurdod yn gwario rhyw £20,000 ar contract clirio llwybrau blynyddol i atal gordyfiant ar lwybrau. Yn 2007, bydd bron 200 o lwybrau'n cael eu clirio rhwng 1 a 3 gwaith. Mae hyn yn cynnwys grant i Gyngor Cymuned Pontarddulais, sy'n rheoli eu cynllun clirio blynyddol eu hunain. Ar ben hyn mae'r Ceidwaid a'r contractwyr yn clirio llwybrau a esgeuluswyd, weithiau am flynyddoedd lawer. Wedi i'r llwybrau hyn gael eu clirio, cânt eu cynnwys ar y contract clirio ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

6.5 Mae arolwg y cyflwr wedi dangos bod cryn dipyn o'r rhwydwaith mewn cyflwr anodd neu amhosib ei ddefnyddio oherwydd rhwystrau a diffyg gwaith cynnal ar sticlau a gatiâu, yn ogystal â mynegbyst coll. Os bydd yr arian presennol yn parhau, dylai'r Awdurdod fedru datrys niferoedd digonol o'r problemau hyn i gyrraedd y targed o 75% a nodwyd ym mholisi CN1 uchod. Fodd bynnag, bydd angen cryn adnoddau i ddatrys rhai o'r problemau unigol ar y rhwydwaith, gan gynnwys y posibilrwydd o benderfynu ar achosion mewn ymchwiliadau cyhoeddus neu yn y Llys.

- 6.6 Mae dyletswydd ar yr Awdurdod i osod mynegbost yn y man lle mae llwybr yn cwrdd â ffordd gerrig. Mae'r Awdurdod hwn (fel mwyafrif yr Awdurdodau eraill) yn dehongli hyn fel y man lle mae llwybr yn cwrdd â ffordd a gynhelir yn gyhoeddus. Canfu arolwg cyflwr 2005 y dylai fod 715 o fynegbyst, a bod 225 ar goll. Byddai gosod yr holl arwyddion sydd ar goll yn dasg gymharol syml. Fodd bynnag, gan nad oes modd defnyddio nifer mawr o'r llwybrau am ryw reswm, byddai hyn yn cael effaith negyddol ar y defnyddwyr a'r tirlfeddianwyr. Ni ddylid ystyried gosod unrhyw arwydd ond os yw'r llwybr ar agor ac ar gael, a dylid gosod arwyddion ar y llwybrau sydd ar gael.



Partneriaethau

- 6.7 Anogir gwirfoddolwyr i ymuno wrth gynnal llwybrau, oddi mewn i derfynau iechyd a diogelwch, a'r gobaith yw y bydd nifer o wirfoddolwyr rheolaidd o'r Gymdeithas leol y Crwydriaid yn ymsefydlu yn y dyfodol agos.
- 6.8 Mae rhai tirlfeddianwyr wedi mynegi diddordeb mewn cynnal llwybrau ar eu tir eu hun, a gallai hyn fod yn gost-ffeithiol ac yn llesol i feithrin perthynas dda â thirlfeddianwyr.
- 6.9 Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn sawl prosiect bob blwyddyn mewn partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sydd â nodau eithaf tebyg i eiddo'r Awdurdod o ran mynediad i gefn gwlad. Mae prosiectau ar y cyd o'r fath wedi bod o fudd i'r ddwy ochr, ac felly i fynediad yn gyffredinol, a disgwylir y bydd cyfleoedd i weithio ar y cyd yn parhau.
- 6.10 Bu partneriaethau gyda Chynghorau Cymuned yn effeithiol yn y gorffennol, ac mae'r trefniant gwaith cynnal parhaus gyda Chyngor Cymuned Pontarddulais wedi bod ar waith ers dros 15 mlynedd bellach.

Cerbydau

- 6.11 Defnyddir llawer o lwybrau cyhoeddus, er enghraifft llwybrau fferm, yn gyfreithlon gan gerbydau preifat. O bryd i'w gilydd mae'r Awdurdod yn derbyn ceisiadau i uwchraddio llwybrau cyhoeddus ar gyfer cerbydau. Fodd bynnag, dyletswydd gyfreithiol yr Awdurdod yw cynnal llwybrau troed a llwybrau ceffyl cyhoeddus hyd at safon sy'n addas ar gyfer y traffig *cyhoeddus* arferol – cerddwyr a marchogwyr. Bydd y safon hon yn amrywio yn ôl lleoliad a math y defnydd cyhoeddus o'r llwybr. Gellid disgwyl yn rhesymol felly bod wyneb tarmac a physt lamp yn cael eu gosod ar lwybrau mewn ardaloedd trefol a

ddefnyddir yn fynych; tra gellid disgwyl bod mân beryglon megis mwd, arwyneb anwastad a gwreiddiau coed ar lwybrau mewn ardaloedd gwledig. Nid oes dyletswydd ar yr Awdurdod i gynnal llwybrau i safon sy'n addas at ddefnydd cerbydau preifat.

- 6.12 Mewn rhai ardaloedd o'r Awdurdod, mae defnydd anghyfreithlon o feiciau modur oddi ar y ffordd yn niwsans o leiaf, ac yn gallu bod yn berygl i ddefnyddwyr llwybrau. Gall beiciau modur hefyd achosi difrod i wyneb llwybrau. Mae'r Awdurdod wedi gosod atalfeydd ar lwybrau i atal beiciau modur neu eu rhwystro, ac at ei gilydd mae hyn wedi bod yn llwyddiannus.

Sbwriel

- 6.13 Yn arolygon y defnyddwyr a'r tîrfeddianwyr roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr o'r farn bod sbwriel a baw cŵn yn broblemau. Er nad oes modd cadw llygad ar agor am droseddwyr ar draws y rhwydwaith cyfan, mae modd targedu'r manau mwyaf poblogaidd ymhlith defnyddwyr a'r rheiny sy'n mynd â'r ci am dro, a chymryd camau i gyfyngu ar y difrod. Mae modd hefyd codi'r rhybuddion a nodir isod ac yn atodiad 7.

Gwelliannau

- 6.14 Mae grant blynyddol o £10,000 ar gael oddi wrth CCGC ar gyfer gwella mynediad i gefn gwlad, a gall fod arian o ffynonellau eraill, megis Cymdeithas Gŵyr, fod ar gael i gynorthwyo gyda hyn. Rhaid i'r Awdurdod ddarparu £10,000 o arian cyfatebol ar gyfer grant CCGC. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn gwario ymhell dros £20,000 ar wella'r rhwydwaith. Mae'r gwaith y gellir ei ystyried yn 'welliannau' (yn hytrach na gwaith cynnal) yn cynnwys gosod sticlau a gatiau newydd gwell yn lle'r hen rai, gosod gatiau yn lle sticlau, gwaith arwyneb newydd, arwyddion gwell a gwaith i agor llwybrau a fu ar gau ers blynyddoedd lawer (weithiau dros hanner canrif).
- 6.15 Datgelodd yr arolwg cyflwr fod 436 o sticlau a 587 o gatiau sy'n croesi llwybrau. Mae Deddf CROW 2000 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd wedi cynyddu'r pwysau ar awdurdodau lleol i osod gatiau yn lle sticlau neu, o ddewis, dileu'r strwythurau sy'n croesi llwybrau yn llwyr. Y drefn a ffafir yn gyffredinol yng Nghymru a Lloegr yw bwlch, wedyn gât, wedyn sticyll. Gall dringo dros cyfres o sticlau wrth gerdded flino hyd yn oed y person mwyaf heini, ond yn achos y rhai sydd â symudedd cyfyngedig o ryw fath gall hyd yn oed un sticyll eu hatal rhag defnyddio'r llwybr. Yn amlwg, mae angen sticlau a gatiau i gynnal ffin na all da byw ei chroesi, ond mae achosion lle nad oes angen strwythur o'r fath bellach, neu lle gellid gosod gatiau yn eu lle. Yn gyfreithiol, y tîrfeddiannwr sy'n gyfrifol am sticlau a gatiau, ond mae gan yr Awdurdod rôl o ran gwneud llwybrau'n fwy hygyrch. Gellir gwella sticlau a gatiau neu eu dileu trwy drafodaethau a thrwy fanteisio ar gyfleoedd i wneud hynny. Mae darparu sticlau a gatiau hefyd yn fater gorfodaeth, gweler isod.

- 6.16 Mae sticlau cerrig yn nodwedd hanesyddol a thraddodiadol o'r rhwydwaith sydd yn cyfrannu at unigrywiaeth y dirwedd leol, ac mae rhai wedi bodoli ers canrifoedd. Ceir hyd i nodweddion tebyg mewn rhannau eraill o Gymru a de-orllewin Lloegr. Yng Nghernyw, canfu arolwg defnyddwyr y llwybrau fod dau draean o'r ymatebwyr o'r farn y dylid diogelu nodweddion traddodiadol fel sticlau cerrig yn hytrach na gwella mynediad.
- 6.17 Yn y gorffennol mae'r Awdurdod wedi arfer codi sticlau yn ymyl gathau presennol i gaeau ar gais tiffeddianwyr er mwyn gwella'r mesurau diogelu da byw. Mae hyn yn amlwg yn groes i'r hyn a nodwyd uchod. Dyletswydd yr Awdurdod yw sicrhau bod llwybrau mor hygyrch â phosib i gynifer o bobl â phosib. Ni ddylai'r Awdurdod gymeradwyo unrhyw sefyllfa lle mae strwythur newydd yn cynyddu'r anawsterau i'r rheiny sy'n defnyddio'r llwybr.
- 6.18 Mae'r mwyafrif o dirfeddianwyr yn gwerthfawrogi cyfeirbwyntio da am ei fod yn annog pobl i gadw at y llwybrau cyhoeddus. Mae defnyddwyr cyfrifol hefyd yn awyddus i gael cyfeirbwyntiau da am fod hynny'n helpu i'w hatal rhag tresmasu'n anfwriadol. Gall cyfeirbwyntio wella ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r defnydd o'r rhwydwaith. Diffyg ymwybyddiaeth a hyder yw prif resymau pobl dros beidio â defnyddio'r rhwydwaith. Nodwyd arwyddion a chyfeirbwyntiau fel problem gan 32% o'r ymatebwyr yn arolwg y defnyddwyr. Yn ogystal â'r angen am gyfeirbwyntio, mae angen cymorth yn aml ar dirfeddianwyr er mwyn hysbysu defnyddwyr am eu cyfrifoldebau'n barhaus. Er enghraifft, roedd 68% o dirfeddianwyr yn teimlo bod peidio â gadael gathau fel yr oeddent yn broblem sylweddol, ac roedd 64% o'r farn bod cŵn yn broblem. Mewn ymateb i hyn mae'r awdurdod yn cynhyrchu nifer o fathau o hysbysiadau i ofyn i'r cyhoedd gau gathau, cadw eu cŵn ar dennyn ger da byw, etc. Gweler atodiad 7 am yr ystod lawn.

Rhaglen gwella llwybrau cymunedol

- 6.19 Cynhaliwyd prosiect peilot yn ystod y 5 mlynedd diwethaf i ddatrys yr holl broblemau ar y rhwydwaith yng Nghymuned Rhosili ac i agor y rhwydwaith cyfan yn llawn. Mae hyn wedi cynnwys 3 gwyriad a nifer o weithfeydd – o fynegbyst i'r gwaith gosod wyneb a draenio sylweddol ar lwybr ceffyl Keenmore Lane.
- 6.20 Mae 'agor' llwybr yn golygu nad oes rhwystrau arno, bod yr holl fynegbyst wedi'u gosod, bod y llwybr wedi'i gyfeirbwyntio, a bod y rhwydwaith wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol (mae'r llwybr ar y ddaear yn cyfateb i'r llwybr a ddangosir ar y map).
- 6.21 Mae'r llwybrau yn Rhosili'n cynrychioli 8% o gyfanswm rhwydwaith yr Awdurdod. Fodd bynnag, roedd eisoes mewn cyflwr cymharol dda cyn i'r prosiect gychwyn. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i agor y rhwydwaith cyfan ym Mhorth Einon (8% o'r rhwydwaith cyfan) a Lluchwr (1.5% o'r rhwydwaith cyfan), ac eto roedd y ddau rwydwaith eisoes mewn cyflwr day n gyffredinol.

- 6.22 Awgrymir y gallai'r prosiect barhau fel rhaglen dreigl gan gynnwys dau neu dri chymuned ar y tro. Fodd bynnag, er y gellid yn ymarferol agor 100% o'r rhwydweithiau yn yr holl Gymunedau lle ceisiwyd gwneud hynny hyd yma, ni fydd hyn yn bosib mewn rhai Cymunedau, o ystyried yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd angen cynnal arolwg o rwydwaith y Gymuned cyn cychwyn ar bob rhaglen o welliannau. Wedyn gellir defnyddio hyn yn sail ar gyfer asesu'r rhwydwaith i bennu pa lwybrau y dylid eu hagor, ar sail yr angen canfyddedig am y llwybr a'r adnoddau y mae eu hangen i ddatrys unrhyw broblemau.

Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir

- 6.23 Ym Mehefin 2006 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Raglen newydd i Wella Mynediad i'r Arfordir, fel bod mwy o arfordir Cymru ar agor i'r cyhoedd. Bydd LICC yn rhoi arian i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gynnal y Rhaglen. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf bydd y Rhaglen, a fydd yn cychwyn yn 2007, yn rhoi 100% o'r arian, ac mae cyfanswm o £1.5 miliwn ar gael i'r 16 Awdurdod sydd ar arfordir Cymru. Rhagwelir y bydd y Rhaglen yn parhau am chwe blynedd, a sicrhawyd arian ar gyfer y tair blynedd cyntaf.
- 6.24 Cerdded yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd o bell ffordd ymhlith pobl sy'n dod i arfordir Cymru ar eu gwyliau, gyda 74% o'r rheiny sydd ar eu gwyliau yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwnnw, a phrif nod y Rhaglen yw cynyddu nifer yr ymwelwyr ac yn sgîl hynny'r manteision i'r economi leol.
- 6.25 Nod arall allweddol i'r Rhaglen fydd cysylltu'r holl lwybrau arfordirol sy'n bodoli (a restrir isod) i greu Llwybr Arfordir Cymru. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen hefyd yn cynnwys y rhwydwaith sy'n arwain at yr arfordir, ac yn achos yr Awdurdod hwn mae hynny'n cynnwys bron ¼ o'r rhwydwaith cyfan.

Llwybr Arfordir Gŵyr

- 6.26 Mae llwybr arfordirol hir anffurfiol eisoes o amgylch Gŵyr, o Crofty i'r Mwmbwls. Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr hwn yn defnyddio llwybrau cyhoeddus ac, mewn rhai achosion, ffyrdd cyhoeddus. Fodd bynnag, ni wnaed ymgais erioed i'w ffurfioli fel llwybr hir fel y gwnaed yn achos Llwybr Arfordir Penfro. Bydd y Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir a ddisgrifiwyd uchod yn darparu arian i alluogi'r Awdurdod i gwblhau a hyrwyddo Llwybr Arfordir Gŵyr fel rhan o Llwybr Arfordir Cymru.
- 6.27 Mae nifer o lwybrau arfordirol yng Nghymru eisoes, gan gynnwys Llwybr Arfordir Ynys Môn, Llwybr Gogledd Cymru, Llwybr Arfordir Llŷn a Thaith Gerdded y Gororau, Llwybr Arfordir Ceredigion, Ffordd Arfordir ac Aberoedd Bae Caerfyrddin, Llwybr Arfordir Treftadaeth Morgannwg, yn ogystal â Llwybr Arfordir Penfro, sef tua 1000km o lwybrau troed o amgylch yr arfordir.
- 6.28 Mae cyfle gan yr Awdurdod felly i greu llwybr cyfan tua 39 milltir (63km) o hyd o amgylch arfordir Gŵyr trwy greu rhannau newydd o lwybrau cyhoeddus (polisi PPO4 uchod), a thrwy wella'r rhannau o'r llwybr sydd eisoes yn bodoli.

Manylir ar y gwelliannau a'r llwybrau y mae angen eu creu yn atodiad 8. Ar ben hyn mae'n hanfodol bod Llwybr yr Arfordir yn cael ei wneud yn fwy hygyrch, a rhaid gwella nifer o'r llwybrau sy'n cysylltu ag ef i ganiatáu mwy o fynediad ac er mwyn datblygu cyfres o deithiau cerdded cylchol neu lwybrau llinol ar gyfer mynd i gerdded ar y bws.

- 6.29 Bydd hyn yn anochel yn cynyddu'r defnydd o Lwybr yr Arfordir ac felly gwaith cynnal y llwybr, ac mae'n rhaid cymryd camau i leiafu effaith y llwybr ar yr amgylchedd o'i gwmpas. Fodd bynnag, fel y gwelwyd o brofiad yn Sir Benfro a Chernyw, bydd dynodi'r llwybr yn ffurfiol fel Llwybr Arfordir Gŵyr yn dod â mwy o incwm ymwelwyr i'r ardal a fydd yn fwy na digon i dalu am y costau cynyddol. Mae bob amser yn anodd amcangyfrif gwerth HTC i'r economi leol, ond amcangyfrifwyd bod Llwybr Arfordir y De-orllewin yn cyfrannu £96m at economi Cernyw.

Gorfodi

- 6.30 O dan Ddeddf Priffyrdd 1980 mae dyletswydd ar yr Awdurdod i 'ddatgan ac amddiffyn hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau unrhyw briffyrdd y maent hwy'n awdurdod priffyrdd ar ei gyfer'. Dyletswydd yr Awdurdod yw 'atal, i'r graddau y mae modd, cau neu rwystro priffyrdd y mae'n awdurdod priffyrdd ar eu cyfer'.
- 6.31 Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn mae Deddf y Priffyrdd yn rhoi nifer o bwerau i'r Awdurdod, o ddelio â llwybrau aredig i docio coed sydd wedi gordyfu. Y math mwyaf cyffredin o orfodaeth y mae'r Awdurdod yn ymgymryd ag ef yw clirio ffensys sydd ar draws llwybrau, sydd fel arfer yn golygu codi sticyll neu gât yn y ffens. Y tîrfeddiannwr sy'n gyfrifol am ddarparu a chynnal sticlau a gatiâu, ac mae rhwymedigaeth ar yr Awdurdod i ddarparu o leiaf 25% o gost eu gosod neu eu cynnal.
- 6.32 Ers 2003 mae hawl gan unrhyw aelod o'r cyhoedd i gyflwyno rhybudd i'r Cyngor ynghylch clirio rhwystrau (heblaw adeiladau).
- 6.33 Mae'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi tir preifat. Canfu arolwg y tîrfeddiannwyr y byddai'n well gan bron hanner y tîrfeddiannwyr a holwyd gau'r cyhoedd allan o'u tir, gyda'r gweddill yn barod i ganiatáu mynediad i'r cyhoedd cyhyd â'u bod yn ymddwyn yn gyfrifol. Gall llwybr sydd wedi'i rwystro felly fod yn sefyllfa ymfflamychol. Bu rhwystr ar rai llwybrau ers degawdau, yn bennaf oherwydd esgeulustod yr Awdurdod cyfrifol perthnasol. Weithiau cofnodir sefyllfaoedd o'r fath ar arolwg plwyfol 1950, hyd yn oed. Mae'r Awdurdod felly'n wynebu dwy sefyllfa orfodi wahanol, ac mae angen ymdrin â'r ddwy mewn ffyrdd gwahanol -
1. Bu pobl yn cerdded ar y llwybr tan yn ddiweddar, ond mae bellach wedi'i rwystro naill ai'n fwriadol neu'n ddamweiniol.
 2. Bu rhwystr ar y llwybr ers degawdau, weithiau ers cyn 1950.

- 6.34 Anaml y gwelir Sefyllfa 1. Bydd y mwyafrif o dirfeddianwyr yn gwybod ble mae llwybr os yw'n cael ei ddefnyddio, ac ni fyddent yn ei rwystro'n ddamweiniol, a byddent hefyd yn debygol o sylweddoli y bydd yr Awdurdod yn cael gwybod ar fyrder am rwystrau sy'n cael eu gosod yn fwriadol ar lwybr a ddefnyddir.
- 6.35 Mae Sefyllfa 2 yn dal yn gymharol gyffredin a nes i Gyngor Sir Gornllewin Morgannwg ddechrau cynyddu'r arian oedd ar gael i gynnal llwybrau yn y 1980au, roedd nifer y llwybrau lle roedd rhwystr tymor hir yn llawer uwch nag y mae bellach. At ei gilydd mae'r llwybrau hynny lle roedd y galw mwyaf wedi cael eu 'hagor' eisoes, a'r llwybrau sydd ar ôl yw'r rheiny lle nad oedd fawr ddim neu ddim galw o gwbl i'w hagor ar gyfer defnydd.
- 6.36 Mae gan yr Awdurdod bŵer dewisol; i ddarparu 100% o gost gosod sticlau neu gatiâu, ac fel arfer mae'n gosod sticlau a gatiâu yn ôl y galw. Felly, ni chodir tâl ar y tiffeddiannwr am waith o'r fath fel arfer.
- 6.37 Mae deddfwriaeth yn caniatáu i'r Awdurdod naill ai weithredu'n uniongyrchol i symud y rhwystrau neu erlyn y troseddwr. Fodd bynnag, yr arfer fyddai dod o hyd i'r tiffeddiannwr a thrafod y rhwystr gydag ef/gyda hi cyn cymryd camau cyfreithiol. Mae mwyafrif llethol y materion gorfodaeth yn cael eu datrys yn llwyddiannus drwy gydweithredu fel hyn – yn enwedig pan fo'r Awdurdod yn gosod y sticlau a'r gatiâu y mae eu hangen i agor y llwybr. Gellir tynnu'r disgresiwn i ddarparu 100% o'r costau yn ôl os na fydd tiffeddianwyr yn gydweithredu â'r Awdurdod.
- 6.38 Wrth ystyried cymryd camau gorfodi i agor llwybr, rhaid i'r Awdurdod ystyried holl gostau gwneud hynny, nid cost gorfodi yn unig. Mae'n debygol y bydd angen gwaith y mae'r Awdurdod yn gyfrifol amdanol, megis gwaith clirio neu bontydd.
- 6.39 Gallai'r Awdurdod sicrhau arian allanol i gynnal y gwaith hwn, yn ogystal â'r gwaith 'gorfodi' megis codi sticlau. Fodd bynnag, petai'r llwybr yn cael ei agor, byddai angen gwaith arno yn y dyfodol i'w gadw'n glir a'i gynnal. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo angen camau gorfodi ffurfiol. Os bydd yr Awdurdod yn trefnu i symud y rhwystrau, rhaid iddo fod mewn sefyllfa i ddelio ag unrhyw broblemau y mae'n gyfrifol amdanynt.
- 6.40 Weithiau ceir rhwystrau sylweddol ar lwybrau cyhoeddus, adeiladau er enghraifft. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai dargyfeirio'r llwybr fel arfer yn llesol i'r tiffeddiannwr a'r defnyddiwr. Fodd bynnag, mae'n aml yn anodd sicrhau ffurflen gais am ddargyfeirio wedi'i llenwi gan dirfeddianwr o dan amgylchiadau o'r fath. Mae felly'n un o'r ychydig achosion lle mae'n rhaid i'r Awdurdod fod mewn sefyllfa i fedru erlyn.
- 6.41 Gall arwyddion heb awdurdod ar lwybrau cyhoeddus atal pobl rhag eu defnyddio, e.e. 'Ffordd Breifat'. Mae gan yr Awdurdod bwerau o dan y Ddeddf Priffyrdd i symud arwyddion o'r fath.
- 6.42 Hysbyswyd yr Awdurdod am nifer o ddigwyddiadau yn ystod y blynyddoedd lle bu perchnogion neu feddianwyr tir yn ymddwyn yn fygythiol tuag at

gerddwyr neu farchogwyr er mwyn atal llwybr rhag cael ei ddefnyddio. Mae'n drosedd rhwystro llwybrau yn y modd hwn, ond, er mwyn gweithredu, mae'r Awdurdod yn gofyn bod y rheiny sydd o'r farn eu bod wedi cael eu rhwystro yn cytuno i fod yn dystion yn y Llys, ac mae wedi bod yn anodd darbwyllo pobl i wneud hyn.

- 6.43 Diben gweithredu o unrhyw fath yw sicrhau llwybr y gellir ei ddefnyddio wedi'r gweithredu hwnnw.

Mynediad i gefn gwlad a ffyrdd gwledig

- 6.44 Bydd y rhan fwyaf o deithiau ar hyd y rhwydwaith o lwybrau'n galw am groesi ffyrdd cyhoeddus neu eu defnyddio. Nid yw hyn yn destun pryder yn gyffredinol – mae lonydd gwledig bychain a thawel yn ychwanegiad gwerthfawr i fynediad i gefn gwlad. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd cefn gwlad gall ffyrdd prysur rwystro mynediad ac achosi perygl posib i gerddwyr a marchogwyr. Mae ymylon ffyrdd yn aml yn darparu mynediad rhwng llwybrau mewn ardaloedd gwledig, ond gall trefniadau cynnal, dyluniad y draenio a safle arwyddion leihau eu gwerth yn aml. Nid oes ymylon ar rai rhannau o ffyrdd prysur, megis yr A4118, ffordd ddeheuol Gŵyr, a gall hyn, i bob pwrpas, greu bwlch yn y rhwydwaith drwy beri bod cerdded neu farchnogaeth rhwng llwybrau yn rhy beryglus.

Polisiau a Chamau Gweithredu

Cynnal

- MN1 Rhaid gosod mynegbyst ar bob llwybr mewn ardaloedd gwledig lle maent yn cwrdd â ffordd. O dan rai amgylchiadau ni fydd angen arwyddion mewn ardaloedd trefol.
- MN2 Blaenoriaethau cynnal a chadw. Y materion cynnal a chadw uchaf eu blaenoriaeth fydd y rheiny lle ceir perygl i'r cyhoedd. Bydd blaenoriaethau is yn seiliedig ar y nifer sy'n defnyddio'r llwybr.
- MN3 Bydd safon y gwaith cynnal a chadw'n amrywio yn ôl y nifer y defnyddwyr.
- MN4 Bydd yr Awdurdod yn parhau i ehangu ei raglen flynyddol o glirio llystyfiant oddi ar lwybrau er mwyn sicrhau bod cymaint â phosib o'r rhwydwaith ar agor ac ar gael.
- MN5 Erydiad. Lle mae llwybr ar yr arfordir neu ar lan afon wedi cael ei erydu i'r fath raddau fel nad oes modd ei ddefnyddio, chwilir am y dull mwyaf cost-effeithiol o ailagor y llwybr.

- MN6 Ni fydd yr Awdurdod yn gwella llwybr at ddefnydd cerbydau preifat yn unig. Mewn sefyllfaoedd lle gall fod o fantais i ddefnyddwyr preifat a chyhoeddus, bydd yr Awdurdod yn ystyried cynorthwyo gyda gwaith cynnal neu wella ar llwybr i gyd-fynd â defnydd cyhoeddus a phreifat ohono.
- MN7 Ni fydd yr Awdurdod yn caniatáu i drydydd parti newid arwyneb llwybr oni bai bod yr arwyneb newydd yn addas ar gyfer defnydd cyhoeddus, a'r trydydd parti fydd yn atebol am waith cynnal yn y dyfodol.
- MN8 Lle mae defnydd anghyfreithlon o feiciau modur yn achosi niwsans neu berygl i ddefnyddwyr a/neu ddifrod i arwyneb llwybrau, bydd yr Awdurdod yn ystyried cymryd camau i atal mynediad i feiciau modur ar hyd llwybrau.

Gwella

- MN9 Bydd trefn blaenoriaeth gwelliannau wedi'i seilio ar lefel y defnydd a ragwelir, yr adnoddau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwelliannau, a lle bydd y gwelliannau o fudd i'r rheiny sydd â symudedd cyfyngedig.
- MN10 Lle mae'n debygol y bydd gosod arwyddion gwell ar hyd llwybrau o'r ffordd yn annog mwy o ddefnydd ohonynt, bydd arwyddion yn cael eu gwella drwy gynnwys cyrchfannau a phellteroedd.
- MN11 Bydd y cyfeirbwyntiau ar bob llwybr sy'n cael ei hyrwyddo yn cael eu gwella, a bydd cyfeirbwyntiau gwell yn rhan hanfodol o unrhyw gynllun i wella llwybr.
- MN12 Rhagdybir bod arwynebau llwybrau i gael eu gadael yn eu cyflwr naturiol. Ni osodir arwyneb newydd oni bai bod angen gwneud llwybr yn hygyrch, creu llwybr sy'n addas ar gyfer pobl â symudedd cyfyngedig, neu wella llwybr sy'n cael ei hyrwyddo er mwyn denu rhagor o ddefnyddwyr. Bydd y deunyddiau a ddefnyddir yn cydweddu â'r amgylchedd lleol. Bydd llwybrau mewn ardaloedd trefol yn cael arwyneb asffalt lle mae'r nifer posib o gerddwyr yn golygu bod hyn yn briodol.
- MN13 Bydd Llwybr Arfordir Gŵyr yn cael ei wella mewn modd sy'n cydweddu â'r dirwedd a'r amgylchedd, ac yn cael ei gynnal i'r graddau mae hynny'n bosib yn ei gyflwr naturiol.
- MN14 Bydd Rhaglen Gwella Llwybrau Cymunedol yn parhau i wella'r rhwydwaith fesul Cymuned.
- MN15 Lle mae angen i gerddwyr neu farchogwyr deithio ar hyd neu ar draws ffyrdd prysur, ystyrir gwella diogelwch drwy gynnal neu wella ymylon glaswellt presennol a/neu reoli traffig.
- MN16 Bydd cynlluniau gwella ffyrdd yng nghefn gwlad yn ystyried angen marchogwyr a cherddwyr i groesi'n ddiogel neu deithio ar hyd y ffordd. Dylid manteisio ar gyfleoedd i wella mynediad ar draws neu ar hyd ffyrdd drwy

greu/wella'r ymylon, gwella gweledd, gostwng terfynau cyflymdra neu greu cysylltiadau llwybrau ychwanegol (Gweler PPO3).

Gorfodi

MN17 Bernir bod adeiledd wedi'i awdurdodi os yw'n ymddangos ar fapiau'r plwyf.

MN18 Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda thirfeddianwyr a rheolwyr tir i hyrwyddo'r opsiwn lleiaf cyfyngol sydd ar gael yn nhrefn bwllch, gyda gât ac wedyn sticyll yn dilyn, a bydd yn ceisio cyfyngu gymaint â phosib ar adeileddau. Rhagdybir mai dim ond gathau a gaiff eu hawdurdodi fel adeileddau newydd.

MN19 Lle nad oes angen adeiledd bellach er mwyn rheoli stoc neu er diogelwch y cyhoedd, bydd yr Awdurdod yn ceisio trefnu ei fod yn cael ei symud gan adael bwllch.

MN20 Lle mae perchennog neu feddiannwr tir yn methu â chydweithredu â'r Awdurdod, ni fydd yr Awdurdod yn darparu mwy na'r isafswm statudol – 25% - o gost gosod neu gynnal gât neu sticyll.

MN21 Lle bynnag y bo modd, diogelir sticlau carreg traddodiadol.

MN22 Lle mae perchennog/rheolwr tir yn creu ffos newydd ar draws llwybr, rhaid i berchennog/rheolwr y tir ddarparu pont neu adeiledd addas.

MN23 Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau uniongyrchol i symud unrhyw gnydau neu i ailsefydlu llwybrau a rwystrwyd, gan hawlio'r costau yn ôl.

MN24 Ystyrir erlyn troseddwr pan droseddir am yr eildro, pan gaiff yr Awdurdod ei atal rhag gweithredu'n uniongyrchol i agor llwybr neu, yn achos rhwystr y byddai'n rhy ddrud neu'n anymarferol ei symud, pan na fydd perchennog neu feddiannwr tir yn gwneud cais am wyro'r llwybr.

MN25 Defnyddir y polisïau a'r gweithdrefnau gorfodi a geir yn atodiad 5 i hawlio a diogelu lle bo ewyllys da a chydweithrediad wedi methu.

MN26 Ni fydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod rhwystrau'n cael eu symud os nad oes adnoddau ar gael i ymdrin â phroblemau ychwanegol y mae'n gyfrifol amdanynt ar yr un llwybr.

MN27 Bydd arwyddion camarweiniol a chyfeirbwyntiau heb eu hawdurdodi yn cael eu symud, a chymerir camau gorfodi priodol.

Cyffredinol

MN28 Lle mae hynny'n gost-effeithiol, a lle mae manteision yn sgîl meithrin gwell dealltwriaeth, anogir partneriaethau gyda Chynghorau Cymuned,

tirfeddianwyr/tenantiaid, gwirfoddolwyr a sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

MN29 Bydd yr Awdurdod yn parhau i gynnig cefnogaeth i berchnogion tir i'w helpu i ddelio gyda cherddwyr a marchogwyr sy'n croesi eu tir.

MN30 Bydd llyfryn 'Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Canllaw' yn cael ei ddiweddarau a'i gyhoeddi eto, er mwyn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

MN31 Bydd Dinas a Sir Abertawe'n ceisio annog defnydd cyfrifol o'r rhwydwaith a pharch tuag at y rheiny sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad.

MN32 Bydd yr Awdurdod yn adennill holl gostau hysbysebu'r gorchymyn oddi wrth Ymgeiswyr am gau dros dro, ac unrhyw gostau eraill y gall eu hadennill yn gyfreithlon.

7.0 Tir Mynediad a chyfleoedd mynediad eraill

- 7.1 Dengys y map isod yn eglur bod ardal anferth o dir, yn ogystal â'r rhwydwaith o lwybrau, ar gael i gerddwyr yn ôl y gyfraith. Mae'r tir hwn yn bennaf yn Dir Mynediad a ddynodwyd o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 neu Ddeddf CROW 2000. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys:

Gwarchodfeydd Natur

Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol na ddaeth yn Dir Mynediad

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (yn Whiteford ac Oxwich)



Tir y Gymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar (RSPB) yng Nghwm Clydach



Symbol Tir
Mynediad

- 7.2 Yn 2006 daeth tir ym mherchnogaeth y Comisiwn Coedwigaeth hefyd yn Dir Mynediad. Nid yw'r map yn dangos rhai ardaloedd eraill sydd hefyd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys traethau, llwybrau mynediad ganiataol, Cronfeydd Lliw, Coedydd Penllergaer, a Pharc Gwledig Clun.
- 7.3 Dim ond ar droed y mae Mynediad i'r Cyhoedd ar draws yr holl dir hwn. Fel y disgrifiwyd yn Anghenion Defnyddwyr uchod, nid yw'n eglur a yw mynediad i Dir Comin Trefol ar gael i'r rheiny ar gefn ceffyl.
- 7.4 Er bod hawl gan y cyhoedd i ddefnyddio tir mynediad, nid oes dyletswydd i gynnal y tir yn y fath fodd ag i sicrhau ei fod bob amser ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae gordyfiant na ellir treiddio trwyddo ar beth tir mynediad, ac felly nid yw ar gael i'r cyhoedd. Mae'r rhan fwyaf o Dir Mynediad yn cael ei groesi gan lwybrau cyhoeddus. Heblaw am lwybrau cyhoeddus nid oes gan yr Awdurdod bwerau i osod mynegbyst na chynnal llwybrau ar draws tir mynediad. Fodd bynnag, bu modd cytuno gyda'r perchennog mewn un achos ar lwybr 'a ffafrir' ar draws tir mynediad. Nid yw llwybrau o'r fath yn effeithio ar hawliau'r cyhoedd na pherchennog y tir, ond maent yn ddull anffurfiol o gynnal llwybrau penodol a gosod mynegbyst arnynt lle bo angen.
- 7.5 Mae gan yr Awdurdod bwerau i godi hysbysiadau fel bod modd i'r cyhoedd weld cwmpas tir mynediad a darllen am unrhyw gyfyngiadau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi codi hysbysiadau o'r fath eto, ac nid ymddengys bod unrhyw alw amdanynt.
- 7.6 Trefnwyd nifer bychan o lwybrau 'caniataol' hefyd yn swyddogol, ac mae'r rhain i gyd ar gyfer cerddwyr yn unig. Cyflwynwyd y llwybrau hyn gyda chytundeb perchnogion y tir naill ai gan yr Awdurdod hwn neu o dan gynllun amaeth-amgylcheddol megis Tir Gofal.

Access Land in the City and County of Swansea



Reproduced from the Ordnance Survey Map with
the permission of the Controller of HMSO
Crown Copyright
City and County of Swansea licence no. 100013350

- 7.7 Yn wahanol i lwybrau cyhoeddus, nid yw llwybrau caniataol yn barhaol, ac fel arfer gellir eu cau wedi cyfnod byr o rybudd. At ei gilydd, ni welir llwybrau caniataol ar fapiau'r Arolwg Ordnans, ac yn aml mae gwybodaeth y cyhoedd am y llwybrau hyn yn gyfyngedig. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, gallant ychwanegu at y mynediad presennol mewn modd defnyddiol.

Polisiâu a Chantau Gweithredu

- AL1 Ni ddylai'r cytundeb i ddarparu llwybr caniataol neu a ffafir fod er mwyn disodli llwybr cyhoeddus presennol. Lle cytunir ar lwybr caniataol, rhaid i'r llwybrau cyhoeddus sy'n bodoli eisoes barhau ar agor ac ar gael.
- AL2 Dylid cytuno ar lwybrau caniataol neu a ffafir dim ond lle byddant yn gwella'r rhwydwaith presennol.
- AL3 Lle mae creu dolen newydd yn y rhwydwaith yn hanfodol (megis ar lwybr yr Arfordir) rhaid creu'r ddolen o dan Ddeddf y Priffyrdd yn unig.

8.0 Twristiaeth a hyrwyddo

Nod Gwneud yn fawr o rwydwaith y llwybrau a thir mynediad er budd iechyd, lles a ffyniant economaidd pobl Dinas a Sir Abertawe

- 8.1 Mae rhwydwaith llwybrau'r Awdurdod a thir mynediad yn asedau gwerthfawr. Mae Gŵyr yn gyrchfan i dwristiaid o bob rhan o'r byd sy'n dod i brofi'r dirwedd a'r arfordir yn arbennig. Rhwydwaith y llwybrau a Thir Mynediad yw'r prif gyfryngau i ymwelwyr gael y profiad hwn.
- 8.2 Yn ôl amcangyfrif Bwrdd Croeso Cymru, roedd twristiaeth ar sail cerdded yng Nghymru yn cynnal 5000 o swyddi ac yn cynhyrchu £550 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifwyd bod Llwybr Arfordir Penfro'n cynhyrchu £12 miliwn i'r economi leol. Dangosodd argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001 hefyd werth economaidd mynediad i Gefn Gwlad wrth i lawer o fusnesau gael trafferth ymdopi â'r gostyngiad sydyn yn nifer yr ymwelwyr. Mae mynediad i gefn gwlad yn rhan bwysig ac annatod o Strategaeth Twristiaeth ddrafft yr Awdurdod ac o Strategaeth Twristiaeth Arfordirol ddrafft Cymru.
- 8.3 Ar wahân i fanteision economaidd pur mynediad i gefn gwlad mae manteision hamdden a iechyd i'r trigolion. Bernir mai cerdded yw un o'r dulliau iachaf o ymarfer corff, ac yn sicr dyma'r ymarfer corff mwyaf cyffredin o bell ffordd ymhlith pobl Cymru. Mae cerdded hefyd yn boblogaidd iawn yn Dinas a Sir Abertawe. Yn ystod y 4 mis o fis Mehefin i fis Hydref 2006 cyfrifwyd 324,000 o bobl yn mynd heibio ar 4 o lwybrau troed Gŵyr. Gall hamdden awyr agored gael effaith gadarnhaol ar les ac wrth leihau straen.
- 8.4 Mae strategaeth chwaraeon a hamdden LICC, 'Dringo'n Uwch', yn ceisio gwella iechyd a lles pobl Cymru mewn sawl modd, gan gynnwys cynyddu canran y bobl sy'n defnyddio amgylchedd naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau awyr agored o 36% i 60% erbyn 2023.
- 8.5 Ym mis Mehefin 2006, cyhoeddodd LICC y bydd mynediad i'r arfordir yn cael ei wella, fel rhan o Raglen Gwella Mynediad i'r Arfordir, trwy gysylltu'r holl lwybrau arfordirol presennol â'i gilydd i greu Llwybr Arfordirol hir o amgylch holl arfordir Cymru.
- 8.6 Nod y Strategaeth Twristiaeth ddrafft yw annog ymwelwyr i ddefnyddio cyfleusterau mynediad i gefn gwlad yr Awdurdod trwy ddatblygu llwybrau penodol wedi'u gwella ar gyfer cerdded a beicio. Byddai hyn yn galw am hyrwyddo'r llwybrau hyn a gosod gwell arwyddion a chyfeirbwyntiau. Y nod hefyd yw datblygu Llwybr Arfordir Gŵyr a gwella Ffordd Gŵyr.

8.7 Yn 2001 cyhoeddodd yr Awdurdod dair taflen yn hyrwyddo tair taith gerdded fer a oedd yn annog pobl i gerdded er lles eu hiechyd (Cerdded i Fywyd Iach). Dyma oedd y taflenni hyrwyddo cyntaf i'r Awdurdod eu cynhyrchu. Disodlwyd y rhain yn 2006 gan bum taflen newydd yn hyrwyddo pum llwybr byr ar gyfer 'Mynd i Gerdded ar y Bws' – un yng Nghronfeydd Lliw, a phedwar ym Mhenrhyn Gŵyr. Am y tro cyntaf, defnyddiwyd nodau arbennig i ddangos y llwybrau ar y ddaear, a dewiswyd pob llwybr i fod mor hwylus i'w ddefnyddio â phosib. Mae'r taflenni ar gael am ddim.



8.8 Yn ogystal â'r pum taflen a nodwyd uchod mae llawer o lyfrau a gyhoeddwyd yn breifat sy'n disgrifio teithau cerdded, yn bennaf yng Ngŵyr, ond hefyd yn yr ardal i'r gogledd o Abertawe. Dim ond yn lleol y mae'r rhan fwyaf o'r cyhoeddiadau hyn ar gael. Ceir rhestr o'r teithlyfrau cyfredol yn atodiad 6.

8.9 Fel mae'r Strategaeth Twristiaeth ddrafft yn cydnabod, mae angen i'r Awdurdod wneud mwy o waith hyrwyddo i ddenu ymwelwyr mewn amgylchedd cynyddol gystadleuol. Ar hyn o bryd nid yw adnodd mynediad yr Awdurdod i gefn gwlad yn cael ei ecsbloetio'n ddigonol. Am fuddsoddiad cymharol fach yn yr isadeiledd mynediad, gellid cynhyrchu incwm llawer iawn yn fwy ar gyfer yr economi leol. O'i gymharu ag Awdurdodau eraill, mae'r Awdurdod hwn wedi bod yn araf i sylweddoli hyn ac mae angen iddo wneud tipyn o ddal i fyny. Fodd bynnag, dylai'r Strategaeth Twristiaeth newydd annog datblygu rhwydwaith o lwybrau sy'n cael eu hyrwyddo.

8.10 Fel y trafodwyd yn Rheoli'r Rhwydwaith, mae bron y cyfan o Lwybr Arfordir Gŵyr (rhyw 63 km – 39 milltir o hyd) eisoes yn bodoli. Mae Lwybr Arfordir Penfro'n denu pobl i Sir Benfro fel atyniad i ymwelwyr ynddo'i hyn, felly bydd hyrwyddo Lwybr Arfordir Gŵyr, fel rhan o Lwybr Arfordir Cymru, yn cael effaith debyg – gan weithredu fel atyniad i ddenu cerddwyr i benrhyn Gŵyr. Bydd hyn o fudd i'r economi leol yn ogystal â'r rhwydwaith llwybrau ehangach.

8.11 Mae cyflwr iechyd y genedl yn destun pryder cynyddol. Mae cerdded yn ffordd iach o wella a chynnal ffitrwydd, a chydabyddir hyn yn y strategaeth Dringo'n Uwch a drafodwyd uchod. Bydd llawer o nodau'r Strategaeth Twristiaeth ddrafft hefyd o fudd i ddefnyddwyr lleol rhwydwaith y llwybrau, yn ogystal ag ymwelwyr. Awgrymir felly y dylai'r Awdurdod ddatblygu cyfres o lwybrau cylchol o bentrefi ac ymylon trefi neu yn eu hymyl i annog ymwelwyr i ddod i'r ardal ac i annog mwy o bobl leol i gerdded er lles eu hiechyd.

- 8.12 Ar hyn o bryd ychydig o ddeunydd hyrwyddo sydd ar gael ar gyfer beicio oddi ar y ffordd, ac nid oes dim ar gael i farchogwyr. Mae sefydliadau marchogaeth lleol wedi gwneud awgrymiadau ynghylch hyrwyddo rhai llwybrau. Ar hyn o bryd, ychydig sy'n hysbys am y galw ar gyfer llwybrau o'r fath nag ar ba ffurf y dylent fod, yn ogystal ag a ddylid targedu pobl leol neu ymwelwyr wrth hyrwyddo. Bydd angen, felly, mynd ati i drafod mater hyrwyddo llwybrau i farchogwyr gyda'r marchogwyr eu hunain a sefydliadau marchogaeth. Gall fod cyfleoedd hefyd i ddarparu llwybrau wedi'u hyrwyddo ar gyfer beicio oddi ar y ffordd, a dylai'r rhain hefyd gael eu harchwilio gan ymgynghori â beicwyr.
- 8.13 Wrth hyrwyddo unrhyw lwybrau dylid ystyried yr angen am weithredu'n gynaliadwy, a dylid annog defnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd llwybrau troed, ceffyl neu feicio (fel yn y taflenni 'mynd i gerdded ar y bws'). Awgrymodd yr arolwg defnyddwyr bod y rhan fwyaf o bobl yn cyrraedd eu taith gerdded yn y car. Fodd bynnag, petai llwybrau lleol ar gael, byddai pobl yn eu defnyddio heb orfod dibynnu ar gerbydau modur. Er gwaethaf yr angen am annog cynaladwyedd, mae llawer o ddefnyddwyr wedi gofyn am fwy o leoedd parcio yn ymyl man cychwyn llwybrau troed.
- 8.14 Rhaid i hyrwyddo unrhyw lwybr fynd law yn llaw â gwelliannau i'r llwybrau a gaiff eu hyrwyddo. Rhaid i bobl gael bod y llwybrau a hyrwyddir mewn cyflwr addas i'w defnyddio ac fel y'u disgrifir yn y deunydd hyrwyddo, neu ni fyddant yn awyddus i'w defnyddio, a bydd yr adnoddau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r llwybrau'n cael eu gwastraffu. Rhaid iddynt ganfod hefyd bod y llwybrau a hyrwyddir yn hawdd eu dilyn a dylid, fel yn achos y taflenni mynd i gerdded ar y bws a gyhoeddwyd yn ddiweddar, defnyddio cyfeirbwyntiau penodol, hawdd eu hadnabod.
- 8.15 Mae nifer o Gamau Gweithredu a Pholisïau a geir mewn manau eraill yn y Cynllun hwn yn cyfeirio at gyflwr rhwydwaith y llwybrau, a chanfu'r arolwg cyflwr fod y rhwydwaith llwybrau, at ei gilydd, mewn cyflwr annigonol. Mae'r sefyllfa hon yn effeithio ar dwristiaeth a'r defnydd o'r rhwydwaith. Os bydd pobl yn disgwyl canfod rhwystrau ar lwybrau neu gael trafferth wrth eu defnyddio, bydd hynny'n eu hatal rhag cerdded neu farchogaeth. Ni fydd y rhwydwaith sy'n cael ei hyrwyddo'n cynnwys y rhwydwaith cyfan o lwybrau, ac mae ymwelwyr yn debygol o ddefnyddio llwybrau na chânt eu hyrwyddo gan yr Awdurdod. Mae'n bwysig felly bod cymaint â phosib o'r rhwydwaith yn hwylus i'w ddefnyddio.

Polisïau a Chamau Gweithredu

- TP1 Bydd yr Awdurdod yn ceisio cydnabyddiaeth swyddogol ac yn mynd ati i hyrwyddo Llwybr Arfordir Gŵyr o Crofty i'r Mwmbwls a'r teithiau cerdded cylch cysylltiedig.
- TP2 Bydd yr Awdurdod yn parhau i ehangu rhwydwaith presennol y llwybrau cerdded sy'n cael eu hyrwyddo trwy gynhyrchu rhagor o daflenni 'mynd i gerdded ar y bws'.

- TP3 Bydd yr Awdurdod yn creu rhwydwaith o deithiau cerdded sy'n cael eu hyrwyddo, wedi'u seilio ar bentrefi ac ymyl trefi er mwyn darparu mwy o fanteision o ran iechyd a thwristiaeth.
- TP4 Bydd yr Awdurdod, gan ymgynghori â marchogwyr a beicwyr, yn ystyried hyrwyddo llwybrau beicio oddi ar y ffordd a llwybrau marchogaeth.
- TP5 Bydd yr Awdurdod yn parhau i wella'r wefan trwy ddarparu mwy o wybodaeth i ddarpar ymwelwyr ynghylch cyflwr rhwydwaith y ffyrdd, er mwyn eu galluogi i gynllunio'u teithiau cerdded a marchogaeth cyn ymweld â'r ardal.

Polisïau perthnasol eraill

- LM1 Bydd yr Awdurdod yn trafod gyda'r rheiny â symudedd cyfyngedig y dull gorau o ddarparu wybodaeth er mwyn galluogi'r rheiny â Symudedd Cyfyngedig i gael mynediad i'r rhannau hynny o'r rhwydwaith sydd ar gael iddynt.
- MN7 Lle mae'n debygol y bydd arwyddion gwell yn annog defnydd cynyddol o lwybr, bydd arwyddion wrth gyffyrdd llwybrau gyda ffyrdd yn cael eu gwella drwy gynnwys cyrchfannau a phellteroedd.
- MN11 Bydd y cyfeirbwyntiau ar bob llwybr sy'n cael ei hyrwyddo yn cael eu gwella, a bydd cyfeirbwyntiau gwell yn rhan hanfodol o unrhyw gynllun i wella llwybr.
- MN13 Bydd Llwybr Arfordir Gŵyr yn cael ei wella mewn modd sy'n cydweddu â'r dirwedd a'r amgylchedd.
- MN30 Bydd y llyfryn 'Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Canllaw' yn cael ei ddiweddarau a'i ailgyhoeddi, er mwyn hysbysu defnyddwyr ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

9.0 Datganiad Gweithredu

Prif Nod – gwella hawliau tramwy cyhoeddus i bawb

Er mwyn cyflawni'r prif nod bydd Dinas a Sir Abertawe'n:-

- diogelu ac yn ceisio gwella'r rhwydwaith sydd ar gael i bob defnyddiwr
- sicrhau bod y map a'r datganiad terfynol yn darparu cofnod cywir
- rheoli'r rhwydwaith i sicrhau ei fod mor hygyrch ac mor hawdd ei ddefnyddio â phosib
- gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol i wella'r rhwydwaith i bawb
- gwneud yn fawr o rwydwaith y llwybrau a thir mynediad er budd iechyd, lles a ffyniant economaidd pobl Dinas a Sir Abertawe

Cyflawnir y nodau uchod drwy'r polisiau a'r camau gweithredu a amlinellir isod.

Polisiau a Chamau Gweithredu

Cyflwr y rhwydwaith

CN1 Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod 75% o'r rhwydwaith yn cynnwys mynegbyst ac yn hawdd ei ddefnyddio erbyn 2010.

Cynnal

MN1 Rhaid gosod mynegbyst ar yr holl lwybrau sydd ar gael i'w defnyddio mewn ardaloedd gwledig lle maent yn cwrdd â ffordd. O dan rai amgylchiadau ni fydd angen arwyddion mewn ardaloedd trefol.

MN2 Blaenoriaethau gwaith cynnal. Y materion cynnal a gaiff y flaenoriaeth uchaf fydd y rheiny lle mae perygl i'r cyhoedd. Seilir blaenoriaethau is ar y nifer sy'n defnyddio'r llwybr.

MN3 Bydd safon y gwaith cynnal yn amrywio yn ôl y nifer y defnyddwyr.

MN4 Bydd yr Awdurdod yn parhau i ehangu ei raglen flynyddol o glirio tyfiant ar lwybrau er mwyn sicrhau bod cymaint â phosib o'r rhwydwaith ar agor ac ar gael.

- MN5 Erydiad. Lle bu erydiad difrifol ar lwybr arfordirol neu ar lan afon, fel nad oes modd defnyddio'r llwybr, chwilir am yr ateb mwyaf cost-effeithiol er mwyn ailagor y llwybr.
- MN6 Ni fydd yr Awdurdod yn gwella llwybr at ddefnydd cerbydau preifat yn unig. Mewn sefyllfaoedd lle gallai mantais fodoli ar gyfer defnyddwyr preifat a chyhoeddus bydd yr Awdurdod yn ystyried cynorthwyo gyda'r gwaith cynnal neu welliannau i lwybr mewn modd cymesur i'r defnydd cyhoeddus a phreifat.
- MN7 Ni fydd yr Awdurdod yn rhoi caniatâd i drydydd parti newid arwyneb llwybr oni bai bod yr arwyneb newydd yn addas at ddefnydd y cyhoedd, a'r trydydd parti fydd yn atebol am y gwaith cynnal yn y dyfodol.
- MN8 Lle mae defnydd anghyfreithlon o feiciau modur yn tarfu ar ddefnyddwyr neu'n eu peryglu a/neu'n difrodi wyneb llwybrau, bydd yr Awdurdod yn ystyried camau i atal mynediad i feiciau modur ar hyd llwybrau.

Gwelliant

- MN9 Bydd trefn blaenoriaeth gwelliannau wedi'i seilio ar lefel y defnydd a ragwelir, yr adnoddau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwelliannau, a lle bydd y gwelliannau o fudd i'r rheiny sydd â symudedd cyfyngedig.
- MN10 Lle mae'n debygol y bydd gosod arwyddion gwell ar lwybrau yn annog mwy o ddefnydd ohonynt, bydd arwyddion yn cael eu gwella wrth gyffyrdd llwybrau â ffyrdd trwy gynnwys cyrchfannau a phellteroedd.
- MN11 Bydd y cyfeirbwyntiau ar bob llwybr sy'n cael ei hyrwyddo yn cael eu gwella, a bydd cyfeirbwyntiau gwell yn rhan hanfodol o unrhyw gynllun i wella llwybr.
- MN12 Rhagdybir y caiff arwynebau llwybrau eu gadael yn eu cyflwr naturiol. Ni osodir arwyneb newydd oni bai bod angen gwneud llwybr yn hygyrch, creu llwybr sy'n addas ar gyfer pobl â symudedd cyfyngedig, neu wella llwybr sy'n cael ei hyrwyddo er mwyn annog mwy o ddefnydd ohono. Bydd y deunyddiau a ddefnyddir yn cydweddu â'r amgylchedd lleol. Bydd llwybrau mewn ardaloedd trefol yn cael arwyneb asffalt lle mae'r nifer posib o gerddwyr yn golygu bod hyn yn briodol.
- MN13 Bydd Llwybr Arfordir Gŵyr yn cael ei wella mewn modd sy'n cydweddu â'r dirwedd a'r amgylchedd, ac yn cael ei gynnal i'r graddau mae hynny'n bosib yn ei gyflwr naturiol.
- MN14 Bydd Rhaglen Gwella Llwybrau Cymunedol yn parhau i wella'r rhwydwaith fesul Cymuned.
- MN15 Lle mae angen i gerddwyr neu farchogwyr deithio ar hyd neu ar draws ffyrdd prysur, ystyrir gwella diogelwch drwy gynnal neu wella ymylon glaswellt presennol a/neu reoli traffig.

MN16 Bydd cynlluniau gwella ffyrdd yng nghefn gwlad yn ystyried angen marchogwyr a cherddwyr i groesi'n ddiogel neu deithio ar hyd y ffordd. Dylid manteisio ar gyfleoedd i wella mynediad ar draws neu ar hyd ffyrdd drwy greu/wella'r ymylon, gwella gweledd, gostwng terfynau cyflymdra neu greu cysylltiadau llwybrau ychwanegol (Gweler PPO3).

Gorfodi

MN17 Bernir bod adeiledd wedi'i awdurdodi os yw'n ymddangos ar fapiau'r plwyf.

MN18 Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda thirfeddianwyr a rheolwyr tir i hyrwyddo'r opsiwn lleiaf cyfyngol sydd ar gael yn nhrefn bwllch, gyda gât ac wedyn sticyll yn dilyn, a bydd yn ceisio cyfyngu gymaint â phosib ar adeileddau. Rhagdybir mai dim ond gatau a gaiff eu hawdurdodi fel adeileddau newydd.

MN19 Lle nad oes angen adeiledd bellach er mwyn rheoli stoc neu er diogelwch y cyhoedd, bydd yr Awdurdod yn ceisio trefnu ei fod yn cael ei symud gan adael bwllch.

MN20 Lle mae perchennog neu feddiannwr tir yn methu â chydweithredu â'r Awdurdod, ni fydd yr Awdurdod yn darparu mwy na'r isafswm statudol – 25% - o gost gosod neu gynnal gât neu sticyll.

MN21 Lle bynnag y bo modd, diogelir sticlau carreg traddodiadol.

MN22 Lle mae perchennog/rheolwr tir yn creu ffos newydd ar draws llwybr, rhaid i berchennog/rheolwr y tir ddarparu pont neu adeiledd addas.

MN23 Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau uniongyrchol i symud unrhyw gnydau neu i ailsefydlu llwybrau a rwystrwyd, gan hawlio'r costau yn ôl.

MN24 Ystyrir erlyn troseddwr pan droseddir am yr eildro, pan gaiff yr Awdurdod ei atal rhag gweithredu'n uniongyrchol i agor llwybr neu, yn achos rhwystr y byddai'n rhy ddrud neu'n anymarferol ei symud, pan na fydd perchennog neu feddiannwr tir yn gwneud cais am wyro'r llwybr.

MN25 Defnyddir y polisïau a'r gweithdrefnau gorfodi a geir yn atodiad 5 i hawlio a diogelu lle bo ewyllys da a chydweithrediad wedi methu.

MN26 Ni fydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod rhwystrau'n cael eu symud os nad oes adnoddau ar gael i ymdrin â phroblemau ychwanegol y mae'n gyfrifol amdanynt ar yr un llwybr.

MN27 Bydd arwyddion camarweiniol a chyfeirbwyntiau heb eu hawdurdodi yn cael eu symud, a chymerir camau gorfodi priodol.

Cyffredinol

- MN28 Lle mae hynny'n gost-effeithiol, a lle mae manteision yn sgîl meithrin gwell dealltwriaeth, anogir partneriaethau gyda Chynghorau Cymuned, tîrfeddianwyr/tenantiaid, gwirfoddolwyr a sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- MN29 Bydd yr Awdurdod yn parhau i gynnig cefnogaeth i berchnogion tir i'w helpu i ddelio gyda cherddwyr a marchogwyr sy'n croesi eu tir.
- MN30 Bydd llyfryn 'Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Canllaw' yn cael ei ddiweddarau a'i gyhoeddi eto, er mwyn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am eu hawliau a'u cyfrifoldebau.
- MN31 Bydd Dinas a Sir Abertawe'n ceisio annog defnydd cyfrifol o'r rhwydwaith a pharch tuag at y rheiny sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad.
- MN32 Bydd yr Awdurdod yn adennill holl gostau hysbysebu'r gorchymyn oddi wrth Ymgeiswyr am gau dros dro, ac unrhyw gostau eraill y gall eu hadennill yn gyfreithlon.

Map terfynol

- DM1 Anghysondebau sy'n golygu bod defnydd o'r llwybr yn cael ei atal fydd y flaenoriaeth uchaf, a byddant yn derbyn sylw fel mater o frys.
- DM2 Cynhelir arolwg o'r map a'r datganiad terfynol i asesu nifer y cywiriadau y bydd angen eu gwneud i'r cofnod cyfreithiol presennol. Unwaith bydd graddfa'r broblem yn hysbys, caiff pob cywiriad ei ystyried mewn gorchymyn a gytunwyd rhwng y Gwasanaethau Cyfreithiol a Mynediad i Gefn Gwlad.
- DM3 Caiff pob llwybr heb ffordd drwodd ei ystyried a chymerir y camau mwyaf priodol i ddatrys y sefyllfa, sef cynnal y sefyllfa presennol, uwchraddio neu greu llwybr troed, israddio llwybr ceffyl neu gilffordd.
- DM4 Cynhyrchu LEMOs ar gyfer yr ôl-groniad o PPOs ac yn union wedi i bob PPO newydd gael ei gadarnhau.
- DM5 Cyhoeddi map terfynol newydd bob 5 mlynedd a cheisio modd i'w gyhoeddi ar y wefan.
- DM6 Sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ffurfiol ar gyfer HTC rhwng y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Cynllunio.
- DM7 Mae ceisiadau am orchymyn addasu i dderbyn sylw yn nhrefn derbyn y ceisiadau cyflawn, oni bai bod y llwybr a hawlir dan fygythiad datblygiad, lle caiff y cais sylw blaenoriaeth.

DM8 Gorfodir llinell llwybrau honedig a rwystrwyd gan ddatblygiad os caiff y llwybr honedig ei gofrestru. Gweler y polisi gorfodi yn atodiad 5.

DM9 Lle mae manteision amlwg i lunio PPO neu gytundeb creu yn hytrach na gorchymyn addasu, dylid ffafrio'r PPO neu'r cytundeb creu.

Anghenion y rheiny â symudedd cyfyngedig

LM1 Bydd yr Awdurdod yn trafod gyda'r rheiny â symudedd cyfyngedig y dull gorau o ddarparu gwybodaeth er mwyn eu galluogi i gael mynediad i'r rhannau hynny o'r rhwydwaith sydd ar gael iddynt.

Anghenion marchogwyr

HR1 Bydd yr Awdurdod yn agor pob llwybr ceffyl (gyda'r rhwystrau wedi'u symud, wedi'u diffinio'n gyfreithiol, a chyda mynegbyst) erbyn 2012.

Anghenion y rheiny nad ydynt yn ddefnyddwyr

NU1 Bydd yr Awdurdod yn annog pobl o bob cefndir ym maes Mynediad i Gefn Gwlad i gymryd rhan.

NU2 Bydd y Gwasanaeth Mynediad i Gefn Gwlad yn datblygu cysylltiadau ag asiantaethau eraill i wella'r cyfleoedd ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Cytundebau a gorchmynion creu

PPO1 Bydd yr Awdurdod yn arwain drwy esiampl ac yn creu llwybrau ar ei dir ei hun lle gellir dangos bod angen gwella mynediad i'r cyhoedd.

PPO2 Manteisio ar bob cyfle i sefydlu llwybrau newydd yn yr ardal a eithriwyd yn flaenorol (Bwrdeistref Abertawe gynt) trwy greu llwybrau newydd fel rhan o ddatblygiad newydd a lle gellir dangos yn glir bod angen cyhoeddus am llwybrau newydd.

PPO3 Lle gellir dangos y bydd creu llwybr newydd yn rhoi llwybr diogel i'r ysgol ar gyfer plant neu'n gwella diogelwch ffyrdd, cefnogir creu'r llwybr hwnnw.

PPO4 Lle mae dolenni coll yn Llwybr Arfordir Gŵyr bydd yr Awdurdod yn ceisio creu llwybrau cyhoeddus.

PPO5 Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod Llwybr Arfordir Gŵyr yn dilyn yr arfordir mor agos â phosib.

PPO6 Cefnogir cytundebau cyflwyno lle dangosir bydd hynny'n gwella'r rhwydwaith.

Gorchmynion dargyfeirio a dileu o dan Ddeddf y Priffyrdd

PPO7 Cefnogir llunio gorchmynion dargyfeirio sydd er lles defnyddwyr a thirfeddianwyr.

PPO8 Cychwynnir gorchmynion dargyfeirio gan yr Awdurdod lle dangosir mai dyma'r dull mwyaf cost-efeithiol o ddatrys problem ar lwybr.

PPO9 Bydd gofyn i'r ymgeisydd dalu costau dargyfeirio neu ddileu ac am waith angenrheidiol i agor y llwybr newydd.

PPO10 Lle mae manteision iechyd a diogelwch amlwg i ddargyfeirio llwybr (megis y rheiny sy'n mynd trwy fuarth fferm weithredol) bydd yr Awdurdod yn cyfrannu at gost llunio'r gorchymyn a'r gwaith angenrheidiol i agor y llwybr newydd.

PPO11 Yr unig strwythurau a ganiateir ar draws llwybr troed newydd fydd gatiau, oni bai bod rhesymau rheoli da byw cryf dros ben o blaid caniatáu sticlau. Rhagdybir y cyfyngir gymaint â phosib ar y strwythurau ar unrhyw llwybr newydd, ac na ddefnyddir gatiau ond pan fo angen cynnal ffin na all da byw ei chroesi.

PPO12 Lle rhwystrwyd llwybr ers cyn 1950, rhoddir cefnogaeth i ddargyfeirio'r llwybr i lwybr amgen addas os dyna yw'r dull gorau o ddatrys problem y rhwystr.

PPO13 Cefnogir dargyfeirio llwybrau a rwystrwyd eisoes gan adeiladau os dyma'r unig opsiwn sydd ar gael ac os na ellir symud neu adleoli'r adeilad.

PPO14 Bydd dileu yn cael ei ystyried lle cyflawnir y gofynion cyfreithiol angenrheidiol, h.y. nid oes angen y llwybr bellach at ddefnydd y cyhoedd. Gellir bodloni'r prawf hwn os oes mynediad amgen i'r cyhoedd sydd wedi disodli'r llwybr gwreiddiol i bob pwrpas. Cyn llunio Gorchymyn, rhaid i'r llwybr gynnwys mynegbyst, bod ar agor ac ar gael i'w ddefnyddio, oni bai bod adeiladau ar y llwybr.

Gorchmynion dargyfeirio a chau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref

PPO15 Rhaid cadarnhau dargyfeirio neu gau llwybr cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn. Bydd unrhyw safle adeiladu sy'n rhwystro llwybr yn cael ei ystyried fel rhwystr ac yn derbyn sylw o dan y polisi gorfodi yn atodiad 5.

PPO16 Caniateir dargyfeirio llwybrau ar draws safleoedd yr effeithir arnynt gan ddatblygiad dim ond lle profwyd bod rhaid dargyfeirio'r llwybr i ganiatáu'r datblygiad, a phryd hynny dim ond pan ddarperir llwybr amgen derbyniol.

PPO17 Ni chaniateir cau llwybrau ar gyfer datblygiad ond mewn amgylchiadau eithriadol.

PPO18 Ceisir cyfleoedd ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith lle mae datblygiadau newydd wedi'u cynllunio.

PPO19 Rhaid llunio llwybrau newydd i fod yn gyn lleied o niwsans â phosib i'r trigolion lleol ac i roi hyder i ddefnyddwyr eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Lle mae'r dirwedd yn caniatáu, rhaid i lwybrau newydd fod ar gael i ddefnyddwyr o bob gallu.

PPO Cyffredinol

PPO20 Lled unrhyw lwybr troed newydd fydd 2 fetr, a bydd unrhyw lwybr ceffyl newydd yn 3 metr o led, oni bai nad yw cyflwr y ddaear neu strwythurau parhaol yn caniatáu hynny.

Tir Mynediad a llwybrau a ganiateir

AL1 Ni ddylai'r cytundeb i ddarparu llwybr a ganiateir neu a ffafrir geisio disodli llwybr cyhoeddus sy'n bodoli.

AL2 Dylid cytuno ar lwybrau a ganiateir neu a ffafrir dim ond lle byddant yn gwella'r rhwydwaith presennol.

AL3 Lle bo rhaid creu dolen newydd yn y rhwydwaith (megis ar Lwybr yr Arfordir) ni cheir creu'r ddolen ond o dan Ddeddf y Priffyrdd.

Twristiaeth a Hyrwyddo

TP1 Bydd yr Awdurdod yn ceisio cydnabyddiaeth swyddogol a hyrwyddo llwybr Arfordir Gŵyr o Crofty i'r Mwmbwls a'r teithiau cerdded cylchol cysylltiedig.

TP2 Bydd yr Awdurdod yn parhau i ehangu rhwydwaith presennol y teithiau cerdded sy'n cael eu hyrwyddo trwy gynhyrchu mwy o daflenni 'mynd i gerdded ar y bws'.

TP3 Bydd yr Awdurdod yn creu rhwydwaith o deithiau cerdded sy'n cael eu hyrwyddo, wedi'u seilio ar bentrefi a chyrion trefi, er mwyn darparu mwy o fanteision iechyd a thwristiaeth.

TP4 Bydd yr Awdurdod yn ystyried, gan ymgynghori â beicwyr a marchogwyr, hyrwyddo llwybrau beicio oddi ar y ffordd a llwybrau marchogaeth.

TP5 Bydd yr Awdurdod yn parhau i wella'r wefan drwy ddarparu mwy o wybodaeth i ddarpar ymwelwyr ynghylch cyflwr rhwydwaith y llwybrau i'w galluogi i gynllunio'u teithiau cerdded a marchogaeth cyn ymweld â'r ardal.

Atodiadau

1. Rhestr o'r ymgynghoreion a'r ymatebion
2. Rhestr o'r Cymunedau lle ceir HTC
3. Llwybrau Ceffyl heb ffordd drwodd
4. Gweithdrefn cyflwyno cais am ddargyfeirio
5. Y weithdrefn orfodi
6. Rhestr o gyhoeddiadau hyrwyddo
7. Hysbysiadau cyngor ar hyd llwybrau
8. Llwybr yr Arfordir
9. Canlyniadau arolygon tiffeddianwyr a defnyddwyr
10. Cyd-destun strategol
11. Strwythur Staffio

ATODIAD 1

Ymgynghoreion ac ymatebion

Ymgynghorwyd â'r holl Gynghorau Cymuned, a derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn.

Cyngor Cymuned Pengelli

Codwyd nifer o bwyntiau ynghylch ardal Pengelli a Waungron, a hefyd rhai cyffredinol.

Maent yn pryderu am y diffyg arwyddion a gwaith cynnal ar lwybrau ar draws Comin Mynydd Lliw (y prif gyfleuster mynediad yn yr ardal).

Maent yn awgrymu nifer o welliannau:

- gwella'r arwyddion yn sylweddol ar lwybrau troed, beicio a cheffyl presennol, ardaloedd mynediad agored, a chodi arwyddion rhybudd lle mae llwybrau cheffyl yn croesi ffyrdd neu yn eu hymyl,
- sicrhau nad oes gordyfiant na rhwystrau ar lwybrau,
- clirio'r sbwriel a mynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus a gwerthu cyffuriau,
- gorfodi'r deddfau yn erbyn defnyddio cerbydau, gollwng sbwriel a baw cŵn,
- gosod gatiu "hardd" sy'n hwylus ar gyfer cadeiriau gwthio,
- cynyddu cyhoeddusrwydd i gynnwys gwybodaeth gymunedol, hysbysfyrdau, mapiau, teithiau tywys "dod i nabod eich ardal", hysbysebion yn y wasg am lwybrau ac ardaloedd penodol a rhai cyffredinol.
- clirio ar ôl plygu perthi,
- gwneud y gwaith hwn mewn modd crefftus ac yn y tymor cywir,
- mynd i'r afael â chanclwm ymwthiol.
- gwella'r cysylltiadau â llwybrau eraill.

Gwnaed y sylwadau canlynol hefyd

Enghreifftiau o broblemau gyda llwybrau troed yw'r llwybr o Heol y Plas (LC103). Mae'r arwydd wedi'i ddifrodi, wedi plygu ac mewn lleoliad gwael, mae'r cyfeirbwyntio'n wael, mae gordyfiant ac mae ffensys yn peri rhwystr. Mae'r llwybr hefyd heb ffordd drwodd. Nid oes arwyddion o gwbl ar y llwybr troed o Heol Coalbrook (LC95). Mae llwybrau troed eraill yn yr ardal mewn sefyllfa debyg o ran gordyfiant neu arwyddion gwael.

Byddai arwyddion yn rhybuddio traffig eu bod yn debygol o ddod ar draws ceffylau a marchogwyr lle mae Heol Pentre, Heol Allt-y-graban a Heol Carmel yn croesi tir comin yn gwella diogelwch.

Mae problemau gyda mynediad cyhoeddus i Gomin Mynydd Lliw, yn enwedig ardal yr hen domen fwyngloddio yn ymyl Heol Allt-y-graban: gosodwyd ffensys ar beth o'r tir ac mae gatiu yno sydd dan glo, gan atal mynediad i'r rheiny ar gefn cheffyl a

cherddwyr, ac ar adegau gall niferoedd mawr o fuchod newynnog iawn fod yn fygythiad i unrhyw un sy'n defnyddio'r rhan olaf o Llwybr Troed a Llwybr Beicio Gogledd Gŵyr ar draws y rhan hon o'r comin.

Mae'r heddlu wedi cael eu hysbysu am lanciau sy'n ymgynnull wrth groesfan Ffordd Gogledd Gŵyr a Heol yr Orsaf, Pengelli, gan ymddwyn yn dramgwyddus a chymryd cyffuriau. Ni chymerwyd camau yn erbyn hyn. Mae'r mathau hyn o weithgareddau ar bob adeg o'r dydd yn atal y cyhoedd rhag defnyddio'r llwybr hwn yn benodol, ond maent hefyd yn broblem ar lawer o lwybrau eraill lle ceir mynediad cyhoeddus yn Ninas a Sir Abertawe.

Yn gyffredinol, mae problemau parhaus gyda thipio sbwriel yn anghyfreithlon, sbwriel, a beiciau modur a cherbydau eraill ar y comin a'r llwybrau troed a'r ffordd mynediad cysylltiedig. Mae'r defnydd anghyfreithlon o gerbydau yn yr ardaloedd hyn yn peri braw a pherygl i gerddwyr, beicwyr a marchogwyr. Mae'n achosi creithiau a rhigolau ac yn aml yn digwydd o ganlyniad i ddymchwel gatiau a ffensys. Ac ar ben hynny, mae'n achosi niwsans sŵn.

Mae'r llwybr i feiciau a cherddwyr sy'n dilyn yr hen reilffordd o Bengelli i Gorseinon yn boblogaidd gyda beiciau modur! Ar ochr Pengelli y llwybr roedd gât fawr, ond fe'i dymchwelwyd yr haf diwethaf, ac mae'n dal heb gael ei hatgyweirio er bod y Cyngor Cymuned wedi rhoi gwybod am y sefyllfa sawl tro. Mae cerbydau hefyd yn cyrraedd y llwybr o hen safle Valeo. Mae llawer o sbwriel ar hyd yr holl ran hon o'r llwybr, yn fwyaf arbennig ym mhen Gorseinon.

Ymddengys bod y mannau mynediad cyhoeddus yn y pentref hwn yn cael eu defnyddio'n bennaf i "gerdded" cŵn. Nid oes arwyddion am yr angen i bobl glirio baw eu cŵn o bob man lle ceir mynediad i'r cyhoedd, nac am y dirwyon, y dylid eu gorfodi.

Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch cynyddu'r rhwydwaith presennol i wella ardaloedd lle mae diffyg mynediad:

- estyn y Llwybr Beicio ar hyd yr hen reilffordd o Bengelli i Bontarddulais
- cysylltu rhan Pengelli-Gorseinon-Pontybrenin o'r Llwybr Beicio â'r rhan sy'n mynd trwy Dregŵyr
- ychwanegu llwybrau troed fel bod modd i drigolion Pengelli a Waungron gerdded yn uniongyrchol at Afon Llŵchwr, yr aber a Chasllŵchwr
- cysylltu Gorseinon â Llwybr Beicio'r Mileniwm yn Llanelli
- caniatáu marchogaeth ar Ffordd Gogledd Gŵyr
- creu cysylltiadau ag ardaloedd a llwybrau eraill.

Yn ogystal â'r pwyntiau a wnaed uchod roeddent o'r farn ei bod yn bwysig:

- darparu cludiant cyhoeddus sy'n hwylus i feiciau
- darparu parcio oddi ar y ffordd lle gellir cael mynediad i lwybrau troed yn bennaf o ffordd anghysbell
- cadw ymylon y ffordd yn glir fel bod modd i gerddwyr a marchogwyr eu defnyddio'n ddiogel
- sicrhau bod patrymau draenio'n cael eu diogelu

- cynnwys Pengelli a Waungron mewn ymgynghoriadau a chyfarfodydd a gweithgareddau wedi'u targedu – rydym y tu allan i'r meini prawf ar gyfer diffiniadau'r mwyafrif o ardaloedd targed
- sicrhau bod Pengelli'n cael ei gynnwys ar fap bysus Abertawe!
- darparu cefnogaeth ar gyfer cadwraeth a chynnal gwirfoddol, a hyd yn oed i roi hwb i rai gweithgareddau
- gweithio gyda thîm y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a'r Rhaglen Byw'n lach i ddatblygu llwybrau a gweithgareddau.

Cyngor Tref Casllwchwr

Roeddent hwy o'r farn y dylai'r Awdurdod gynnal yr holl lwybrau a gwirio i sicrhau nad oes rhwystrau arnynt.

Cyngor Cymuned Cilâ Uchaf

Roeddent hwy o'r farn bod cynnal llwybrau'n rheolaidd yn bwysig, yn enwedig yn achos llwybr y Ddôl yn lleol, yn ogystal â chael mwy o arwyddion a chyhoedduswydd. Roeddent yn teimlo bod rhwydwaith digonol yng Nghilâ Uchaf, gan ddarparu mynediad cyffredinol digonol.

O ystyried lleoliad y pentref ar gyrion y dref, a natur agored llawer o'r ardal, nid ymddengys bod unrhyw anhawster wrth ymweld â'r ardaloedd cyhoeddus, nac o ran parcio na threfnu mynediad i'r hawliau tramwy eu hunain.

Ar ben hyn, ymgynghorwyd â'r sefydliadau canlynol

Cymdeithas Gŵyr
 Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
 Cymdeithas Ceffylau Prydain
 Y Gymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar
 Clwb Cerdded Tawe Trekkers
 Clwb Teithiau Beicwyr
 Cymdeithas y Crwydriaid
 Grŵp Awyr Agored Gŵyr
 Clwb Cerdded Pontarddulais
 Clwb Heicio Prifysgol Cymru

Ymatebion a dderbyniwyd

Cymdeithas Gŵyr

Awgrymwyd y canlynol i wella'r rhwydwaith presennol.

- Cynyddu'r gwaith clirio ar lwybrau. Dylai rhwystrau eraill, e.e. weiren bigog, gael eu clirio cgâph.
- Byddai arwyddion ychwanegol (cynnil) o gymorth ar hyd llwybrau troed, yn enwedig pan fo newid cyfeiriad.

- Gallai arwyneb gwell helpu o dan amgylchiadau anodd, ond dylid osgoi arwynebau caled ac eithrio mewn amgylchiadau trefol.
- Gall hyrwyddo llwybrau penodol fod o gymorth, ond dylid defnyddio hyn er mwyn annog cerddwyr i ardaloedd a ddefnyddir yn llai yn hytrach na chynyddu'r pwysau ar deithiau cerdded poblogaidd.

Ymddengys bod nifer rhesymol o lwybrau troed yn y mwyafrif o ardaloedd, ond hoffem weld cysylltiadau'n cael eu creu:

- Ar arfordir gogledd Gŵyr (LM8) lle cafodd pont dros nant Burry ei hystyried ar un adeg. Byddai'n werth cwblhau'r gwaith hwn.
- Llethryd – Cillibion – dylid ailagor (ailgyfeirio?) rhan o'r llwybr a gaewyd rai blynyddoedd yn ôl i ddarparu taith gerdded gylchol sy'n osgoi cerdded ar y ffordd brysur hon.

Mynediad cyffredinol

- Nid yw bysus yn debygol o gael eu defnyddio oni bai eu bod yn rhedeg yn ddigon aml a bod yr amserlenni'n haws eu darllen
- Ni fyddem am weld meysydd parcio mawr, ond gallai cilfannau bach i 2-3 car fod yn ddefnyddiol iawn, er y byddai angen ystyried y rhain yn ofalus
- Mae defnydd beicwyr neu farchogwyr o lwybrau bron bob amser yn llesteirio cerddwyr. Nid yw pob beiciwr yn anystyriol, ond mae rhai ohonynt. Mae marchogaeth yn difrodi pob arwyneb nad yw'n galed iawn, a gall hynny arwain weithiau at fannau sy'n rhy fwdlyd i'w croesi neu rigolau a fydd yn troi eich pigwrn.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Awgrymwyd nifer o welliannau i'r rhwydweithiau presennol.

- Cysylltu llwybrau ceffyl â llwybrau ceffyl lle mae bylchau, megis ger Widegate
- Clirio'n amlach, yn enwedig ar lwybrau trwy redyn, sy'n tueddu i blygu ymlaen wedi glaw yn yr haf
- Cynyddu ymwybyddiaeth o ba lwybrau sydd i'w defnyddio gan beth e.e. llwybr ceffyl/cerbydau modur, llwybr troed nad yw i'w ddefnyddio gan geffylau (yn enwedig grwpiau merlota neu feicwyr!)
- Gwella arwynebau fel sy'n briodol e.e. Dyffryn Llandeilo Ferwallt
- Gwella'r arwyddion mewn manau trafferthus megis arfordir de Gŵyr lle mae llawer o'r llwybrau'n serth iawn. Dylid ystyried pa mor weladwy yw arwyddion yn y dirwedd
- Dim mwy o gyhoeddusrwydd, mae digon o lyfrynnau/taflenni teithiau cerdded eisoes
- Cynnal arwynebau sydd eisoes yn cael eu defnyddio – e.e. llwybrau estyll Twyni Pennard
- Byddai gatiâu sy'n cau eu hunain lle cedwir da byw yn helpu'r berthynas rhwng ffermwyr/cominwyr a'r cyhoedd ac yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd etc.
- Gwella'r sticlau presennol – mae rhai'n anodd iawn eu croesi (rhy uchel, rhy gul etc.)

Barnwyd bod y mynediad yn ddigonol.

Materion Cyffredinol

- Dylai llwybrau'r bysus hysbysebu manau cerdded – cysylltu arosfannau bysus â llwybrau poblogaidd
- Darparu rheseli beiciau ar fysus
- Mae parcio'n broblem fawr ar dir comin, ac mae pobl yn parcio o flaen gatiau.

Clwb Marchogaeth Gŵyr

Awgrymwyd y strategaeth ganlynol

1. Cyflwyniad

Mae tua 2,500 o geffylau'n marchogaeth yn Ninas a Sir Abertawe ac, o'i chymharu ag ardaloedd eraill Cymru, mae'r cyfleusterau yno'n dda at ei gilydd. Mae'n cynnwys rhyw 120 km (75 milltir) o lwybrau ceffyl penodedig. Mae'r rhain wedi'u lleoli yn bennaf, fodd bynnag, ger y traethau yn ne Gŵyr, o amgylch tir comin yr ardal ac ar y tir comin ei hun. Gwaetha'r modd, nid yw'r dosbarthiad yn gyfartal, ac mae manau lle mae'n eithaf hwylus cadw ceffyl, ond nid oes cyfleusterau marchogaeth. Nid oes cyfleusterau oddi ar y ffordd ar gyfer gyrru trap o gwbl. Mae defnyddio hyd yn oed y ffyrdd llai yn dod yn fwyfwy peryglus oherwydd y cynnydd yn swm a chyflymdra'r traffig.

2. Diffiniadau

Yn y ddogfen hon, defnyddir y diffiniadau canlynol ar gyfer y termau sy'n dilyn:

- a) Llwybr Troed: Hawl Tramwy lle caniateir defnydd gan gerddwyr.
- b) Llwybr Ceffyl: Hawl Tramwy lle caniateir defnydd gan farchogwyr, beicwyr a cherddwyr.
- c) Cilffordd: Hawl Tramwy lle caniateir defnydd gan gerbydau mecanyddol, trapiau, marchogwyr, beicwyr a cherddwyr.
- ch) Llwybr i Geffylau: Nifer o lwybrau ceffyl, cilffyrdd, llwybrau, ffyrdd a ganiateir, traethau, traciau a ffyrdd y gellir ei defnyddio gan berson sy'n marchogaeth, ar gefn beic neu'n cerdded.
- d) Llwybr Aml-ddenydd: Llwybr a luniwyd yn benodol i symud traffig heblaw cerbydau o'r ffyrdd neu i wella mwynhad o'r amgylchedd.
- dd) Reid: Nifer o Lwybrau i Geffylau wedi'u cysylltu â'i gilydd
- e) Lŵp: Reid gylchol, sy'n dechrau ac yn gorffen yn yr un man.
- f) Dolen: Reid sy'n cysylltu dau Lŵp.

3. Amcanion

- a) Diffinio system, gan greu Lwpiâu a Dolenni newydd yn ôl y galw, i ddarparu'n gynaliadwy ar gyfer marchogaeth a gyrru trapiau ar draws y Sir.
- b) Creu canllaw sy'n rhoi manylion y Lwpiâu a'r Dolenni ynghyd â gwybodaeth arall am Lwybrau i Geffylau.

4. Gweithredu

a) Mae'r sail ar gyfer system Lwpiau a Dolenni eisoes yn bodoli mewn rhai ardaloedd – gweler yr Astudiaeth Achos. Yn y sefyllfa hon nid oes angen gwneud llawer mwy na'u nodi'n ffurfiol, ysgrifennu disgrifiad addas ar gyfer marchogwyr a'u cynnwys yn yr wybodaeth a gyhoeddwyd.

b) Mae ardaloedd lle ceir nifer o llwybrau ceffyl, ond maent naill ai mewn clwstwr neu'n arwain rhwng prif ffyrdd neu ffyrdd prysur yn unig. Mewn rhai achosion nid yw llwybrau ceffyl yn cael eu defnyddio bellach, a gellid eu hailagor. Gallai fod cyfleoedd hefyd i sefydlu llwybrau cytunedig gan ddefnyddio ffyrdd mynediad a thir fferm, neu o bosib trwy uwchraddio rhai llwybrau troed.

c) Mae ardaloedd hefyd yn bodoli lle nad oes fawr ddim cyfleusterau marchogaeth (Felindre, Gellifedw, etc.). Bydd angen cymryd camau radical yn y rhain. Mae'n debyg bydd angen arolwg ym mhob ardal i asesu'r defnydd posib a lleoliad y llwybrau ac yna i gychwyn proses o greu llwybrau trwy gytundeb neu ddefnyddio deddfwriaeth fel opsiwn terfynol.

d) Gellid creu canllaw ar gyfer y Lwpiau a'r Dolenni ar sawl ffurf – llyfr, taflenni unigol neu wefan. Mae llyfrau a thafleuni'n fanteisiol yn yr ystyr y gellir eu gwerthu ar ôl eu cyhoeddi, er mwyn adennill peth o'r costau cynhyrchu. Fodd bynnag, maent yn anodd eu haddasu heb ailgyhoeddi, felly mae posibilrwydd bob amser na fyddant yn gyfoes wrth i bethau newid. Mantais gwefan yw, er na fyddai'r wybodaeth yno'n ddeinamig, ac y byddai angen ymdrin â hi'n rheolaidd, gellir gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn syml iawn, ac o hynny allan bydd yr wybodaeth a welir yn gywir. Mae gan y mwyafrif o bobl beth mynediad i'r rhyngwryd ac yn economaidd mae gwefan yn rhoi gwell gwerth am arian.

5. Ystyriaethau

a) Dylid cydnabod bod unrhyw weithgaredd gyda cheffylau, p'un a ydynt yn cael eu marchogaeth neu eu gyrru, yn cynnwys peryglon nad ydynt yn bresennol mewn gweithgareddau hamdden eraill megis beicio neu gerdded. Ni ellir ystyried bod unrhyw geffyl yn un na ellir peri braw iddo, oherwydd gall ymateb yn sydyn i unrhyw sefyllfa a welir fel bygythiad ganddo. Serch hynny, mae modd gor-asesu'r risgiau dan sylw ac anghofio'r ffaith y bydd ceffyl profiadol sydd wedi derbyn hyfforddiant rhesymol, y rhan fwyaf o'r amser, yn ymdopi ag amodau newydd annisgwyl yn dawel a digynnwrf. Mae traddodiad hir o geffylau'n ymdopi ag amgylcheddau swnllyd, brawychus ac anghyffredin. Felly, er mwyn cynnal a datblygu cyfleusterau marchogaeth a gyrru sy'n lleihau'r risg gymaint â phosib i gyfranogwyr ac eraill, mae angen ystyried y mesurau canlynol:

b) Mae eithaf nifer o Lwpiau a Dolenni'n bodoli eisoes, yn enwedig yn ne Gŵyr. Mae angen cydnabod, fodd bynnag, bod rhai o'r dolenni ar draws traethau sydd ar gau yn dymhorol (mae traeth Oxwich ar gau o adeg y Pasg tan 30 Medi) neu dan gyfyngiad yn ôl Deddfau Lleol Abertawe. Nid yw dolenni eraill yn dilyn llwybrau ceffyl, ond yn hytrach yn croesi tir comin a ddynodwyd ar gyfer Mynediad Agored. O dan Atodlen 2 Deddf CROW ni chaniateir y rheiny sy'n marchogaeth ceffylau ar dir mynediad oni bai bod ganddynt ganiatâd y tiffeddiannwr, neu bod defnydd *defacto* wedi'i sefydlu.

c) Lle mae Lŵp, Dolen neu Lwybr yn dilyn ffordd a ddefnyddir gan gerbydau fel arfer:

i) Mae angen rhybuddio defnyddwyr y ffordd bod mwy o gyfle o gwrdd â cheffylau ar hyd y rhan benodol honno o'r ffordd. Mewn modd tebyg, lle mae Llwybr i Geffylau'n croesi ffordd, yn enwedig un lle mae llawer o draffig, mae angen rhybudd bob ochr i'r man croesi.

ii) Os oes ymyl glaswellt addas, dylid rhoi blaenoriaeth i'w dorri'n fyr. Mae'n ddymunol cynnal pob ymyl felly, ond bydd adnoddau cyfyngedig bob amser.

iii) Gall fod modd dosbarthu'r ffordd fel 'ffordd werdd' neu osod terfyn cyflymdra is ar hyd y rhan a ddefnyddir gan Llwybr i Geffylau.

ch) Mae o leiaf un Llwybr i Ddefnyddwyr Niferus (o Dregŵyr i'r tu hwnt i'r Rheilffordd) yn gweithio'n llwyddiannus iawn. Gall fod cyfleoedd i ddatblygu eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried pob sefyllfa unigol yn ofal. Dylid caniatáu digon o le bob amser i geffylau a beicwyr fynd heibio'n hwylus i'r ddau gyfeiriad. Ni ddylid cynnwys llethr serth fel nad yw beicwyr yn mynd yn rhy gyflym. Dylai gwelededd ar hyd y llwybr fod yn dda, gan osgoi corneli 'dall' os oes modd. Lle mae'n anodd gweld y llwybr o'ch blaen, dylid ystyried gosod rhyw fath ar rybudd. Y sefyllfa lle na ddylid cyfuno ceffylau a beiciau ar unrhyw gyfrif yw lle lluniwyd cwrs arbennig i lawr rhiw ar gyfer beicwyr. Mae hyn yn arbennig o wir os yw'r llwybr yn arw, gan na ellir disgwyl iddynt symud na stopio'n sydyn i osgoi ceffyl.

d) Mae Cyngor Abertawe wedi sefydlu sawl llwybr ceffyl newydd, ac mae wrthi'n eu datblygu. Mae hyn wedi cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer marchogaeth.

dd) Mae goblygiadau i dwristiaeth wrth greu system ddiffiniedig wedi'i chyhoeddi o Lwpiâu a Dolenni. Byddai'n amlwg yn denu marchogwyr sy'n barod i gludo'u ceffylau i'r ardal petaent yn gwybod ble gallent farchogaeth a beth i'w ddisgwyl. Byddai'n anffodus, fodd bynnag, petai'r cyfleoedd twristiaeth yn tansilio'r bwriad o ddiogelu natur unigryw cefn gwlad y Sir. Mae llawer o Lwybrau i Geffylau'n mynd trwy Ardaloedd Cadwraeth neu SoDdGA, a gallai gordefnydd ohonynt fod yn niweidiol iawn.

e) Mae cynnal y system a'i chynnaladwyedd yn hollbwysig. Nid oes perthi y mae angen eu tocio ar hyd pob llwybr ceffyl, ond mae angen cynnal pob un rywbyrd. Yn 2005, nodwyd tua 15% o'r llwybrau presennol ar y rhestr glirio flynyddol. Roedd y tyfiant uwch yn golygu bod rhaid clirio rhai ddwywaith. Gwellwyd arwyneb rhyw 7.5% o'r llwybrau ceffyl. Mae'n amlwg awgrymu y dylid cynyddu gwaith cynnal a gwella, ond mae'n debygol nad yw hynny'n ymarferol bosib. Byddai'n anffodus petai llai o ymdrech yn cael ei gwneud, ond er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol mae angen cymhwysio cynllun blaenoriaethau. Yr uchaf ymhlith y rhain fyddai'r llwybrau a ddefnyddir amlaf, gyda lefel eilaidd sy'n ymwneud â sicrhau bod y system Lwpiâu a Dolenni a grewyd yn dal ei thir. Lle mae llwybrau ceffyl yn ymyl ei gilydd ac yn mynd o'r/i'r un man mae'n debygol y bydd angen rhoi blaenoriaeth wahanol iddynt. Gall hyn arwain at beth gostyngiad ymddangosiadol yn eu defnydd. Ni fyddai'n briodol cau'r rhain gan y gellid eu cynnwys mewn datblygiadau yn y dyfodol.

f) Er gwaethaf yr holl ymdrechion i ddarparu llwybrau diogel i geffylau ar draws y Sir, bydd rhai ardaloedd bob amser mewn sefyllfa well nag eraill. Ar ben hynny, mae'n dda i geffylau a'r rheiny sy'n eu marchogaeth gael cyfle i newid golygfa, tirwedd ac amodau. Mae'n debygol bod gan lai na 6% o berchnogion ceffylau'r cyfleuster i gludo'u ceffylau, ac i'r rheiny sydd â'r cyfleuster hwnnw, y broblem ar hyn o bryd yw dod o hyd i rywle diogel i barcio a gadael cerbydau. Mae'r maes parcio yn Parkmill a maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Southgate yn ddau le a ddefnyddir ar hyn o bryd. Mae'n debygol bod lleoliadau eraill ar gael, ac os gellir eu nodi gallai hynny annog mwy o bobl i 'Barcio a Marchogaeth'. Gellid cynnwys y safle ar y wefan, gan nodi'r tâl, os codir un.

Astudiaeth Achos – Enghraifft o Lŵp a Dolenni - Southgate i Landeilo Ferwallt i Southgate

Mae'r Lŵp yn cynnwys dau lwybr i geffylau:

1. O West Cliff yn Southgate ar hyd heol Eastcliff i Fferm Hunt. Oddi yno ar hyd llwybrau ceffyl Pennard 39, Llandeilo Ferwallt 35 a Llandeilo Ferwallt 34 i ben pellaf Lôn Pwll Du. Mae'r llwybr yn mynd drwy gildraeth Pwll Du.

2. Wedyn mae'r llwybr yn dilyn Lôn Pwll Du i'r gornel gyda Heol y Pîl ac yna'n troi i'r gorllewin i ddilyn llwybrau ceffyl Llandeilo Ferwallt 20 a 21 i mewn i Ddyffryn Llandeilo Ferwallt. Mae'r ardal hon ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae'n gyffredinol hysbys bod marchogwyr yn ei defnyddio. Wedyn mae'r llwybr yn dilyn llwybr troed Pennard 40 i gysylltu â llwybr ceffyl Pennard 27 (Lôn Hael). Mae hon yn ymuno â Heol Southgate ac felly'n dychwelyd i West Cliff.

Mae dwy Ddolen, a hefyd esgair sy'n cysylltu â'r Lŵp hwn.

3. O Landeilo Ferwallt mae cysylltiad ar hyd Heol y Pîl, Oldway, Lôn yr Odyn Calch, Erw Hir i lwybr ceffyl Llandeilo Ferwallt 4 ac oddi yno i Gomin Clun.

4. O West Cliff ar hyd llwybr clogwyn i lwybr ceffyl Pennard 1 ac oddi yno drwy lwybrau a ganiateir naill ai i Gildraeth Pobbles neu o amgylch Comin Pennard (Clwb Golff) i Fae'r Tri Chlogwyn.

5. Mae'r esgair yn gadael Dyffryn Llandeilo Ferwallt ar hyd llinell llwybr troed Pennard 26 ac yn arwain i Lôn Widegate ac oddi yno i Eglwys Pennard wrth gyffordd Lôn Vennaway. Mae cae Clwb Merlod Abertawe a'r Cyffiniau ar gornel Lôn Widegate, a defnyddir y llwybr hwn yn gyson gan farchogwyr ifanc sy'n dod o Landeilo Ferwallt i ymarfer a chymryd rhan mewn digwyddiadau yn y Clwb Merlod. Yn yr haf mae hynny'n golygu 18 i 20 o farchogwyr sawl gwaith yr wythnos. Mae manteision aruthrol i'r llwybr diogel hwn, i ffwrdd o'r cerbydau, ond ar hyn o bryd mae problemau gyda chyflwr glan yr afon ar hyd Dyffryn Llandeilo Ferwallt.

Mae'r lan wedi erydu a bellach mae coed yn agos at ymyl y nant. Mae'r arwyneb yn llithrig gyda gwreiddiau coed, mae'n feddal iawn, ac mae rhannau'n ymddatod ac yn syrthio i'r dŵr. Gobeithio y bydd peth gwaith adferol neu ailgyfeiriol yn bosib er mwyn osgoi colli'r llwybr pwysig a diogel hwn.

ATODIAD 2

ARDALOEDD CYMUNEDOL – HYD Y RHWYDWAITH HTC (METRAU)

Cymuned	Rhwydwaith (metrau)	Gorchymyn
Gorseinon	4863	23
Tregŵyr	16658	14
Pengelli	4239	24
Llangyfelach	12915	16
Llwchwr	8525	20
Penllergaer	2082	27
Pontarddulais	13228	15
Pontlliw	3580	26
Mawr	70694	2
Clydach	15054	13
Llandeilo Ferwallt	18663	11
Ilston	41127	5
Llangynydd, L & C	88,240	1
Llanrhidian Isaf	29384	9
Llanrhidian Uchaf	37451	8
Penrhys	39665	6
Pennard	37845	7
Porth Einon	42677	3
Reynoldston	8650	19
Rhosili	42370	4
Cilâ Uchaf	10254	18
Gellifedw	3686	25
Cocyd	1422	28
Dyfnant	5828	21
Cilâ	5108	22
Llansamlet	11572	17
Y Mwmbwls	26435	10
Gweddill Abertawe	3800	

ATODIAD 3

Llwybrau ceffyl a chilffyrdd 'heb ffordd drwodd'

Mae'r llwybrau ceffyl sy'n dilyn yn dod i ben wrth lwybr troed neu ar dir comin. Felly, nid oes llwybr drwodd i farchogwyr a beicwyr.

LL27	Welshmoor
LL36	Cefn Bryn
LH76	Llanmorlais
MU52	Comin Clun
BI1	Llandeilo Ferwallt
BI5	Comin Clun
RH1	Pen Pyrod
RH21	Rhos Rhosili
LG53	Rhos Rhosili
LD12	Rhos Rhosili
PE13	Owrtyn
PD39	Pwll du
PD1	Southgate
PM5	Penmaen

Mae un o dair cilffordd yr Awdurdod hefyd heb ffordd drwodd

PR6	Horton
-----	--------

ATODIAD 4

CEISIADAU AM WYRIAD

Crynodeb o'r weithdrefn

1. Unwaith y derbynnir cais, bydd yr Awdurdod yn ymgynghori'n anffurfiol â'r rhai sydd â diddordeb. Bydd y rhain yn cynnwys aelod lleol y Cyngor Sir, y Cyngor Cymuned a'r grwpiau defnyddwyr perthnasol. Caniateir pedair wythnos ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad.
2. Bydd swyddogion yn penderfynu ar y mater o dan bwerau dirprwyedig neu, os yw'n ddadleuol, byddant yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor priodol y Cyngor.
3. Os cymeradwyir y cais, caiff gorchymyn ei lunio gan yr Awdurdod. Bydd rhybuddion yn hysbysu am lunio'r gorchymyn yn cael eu cyhoeddi yn y wasg leol, yn cael eu harddangos ar y safle, ac yn cael eu hanfon at bawb â diddordeb, gan ganiatáu 28 niwrnod iddynt wrthwynebu'r gorchymyn.

Os na chymeradwyir y cais, cewch eich hysbysu am benderfyniad y Swyddogion/Pwyllgor. Nid oes hawl apelio yn erbyn cais a wrthodwyd.

Os na cheir gwrthwynebiadau i'r gorchymyn, caiff ei gadarnhau, a chyhoddir rhybuddion yn cyhoeddi'r cadarnhâd fel uchod.

4. Os derbynnir gwrthwynebiadau i'r gorchymyn o fewn y cyfnod o 28 niwrnod, cynhelir trafodaethau gyda'r gwrthwynebwyr gyda'r bwriad o ddatrys y gwrthwynebiadau. Os na ellir datrys y gwrthwynebiadau, cyfeirir y gorchymyn at Bwyllgor priodol y Cyngor, a all benderfynu naill ai tynnu'r gorchymyn yn ôl yn llwyr neu gyfeirio'r gorchymyn gyda'r gwrthwynebiadau at Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd LICC hefyd yn ceisio datrys y gwrthwynebiadau. Os na fydd hyn yn llwyddiannus, byddant yn penodi Arolygydd Annibynnol i benderfynu ar y gorchymyn. Gall hyn olygu cynnal ymchwiliad cyhoeddus.

Profion i'w cymhwyso cyn cadarnhau gorchymyn gwyrriad

Rhaid i'r Cyngor gael ei fodloni:

- bod hyn er lles perchennog, prydlesydd neu feddiannwr y tir y mae'r llwybr troed neu'r llwybr ceffyl yn ei groesi

NEU

bod hyn er lles y cyhoedd

- bod hyn yn hwylus (o fantais, i'w gymeradwyo)

- na fydd y llwybr newydd yn llawer llai cyfleus i'r cyhoedd na'r llwybr gwreiddiol (e.e. yn hwy, yn fwy cul, yn galw am fwy o ymdrech)
- bod cadarnhau'r gorchymyn yn llesol o ystyried effaith y gwriad ar fwynhad y cyhoedd o'r llwybr cyfan a'r effaith ar y tir y mae'r llwybrau presennol a newydd yn ei groesi

ATODIAD 5

Polisiau a gweithdrefnau gorfodi ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus

Rhagdybir mewn unrhyw weithdrefn orfodi yr ymdrinnir ag unrhyw achos ar y cychwyn mewn modd cymodol a chydweithredol. Dim ond pan fydd y dull hwn yn methu y caiff camau cyfreithiol eu hystyried.

Polisiau

Cnydau ac aredig

Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Priffyrdd 1980, ymyrraeth gan gnydau a137A, aredig a134

Cyfnod o rybudd ar gyfer gweithredu uniongyrchol

Cnydau	-	24 awr
Aredig	-	14 diwrnod

Pwy sy'n gyfrifol?

Perchnogion a meddianwyr tir sy'n gyfrifol am sicrhau bod llwybrau'n cael eu hadfer ar ôl aredig ac nad ydynt wedi'u rhwystro gan gnydau. Ni ddylid byth aredig llwybrau sydd wrth ymyl caeau. Mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gadw llwybrau'n glir, heb gnydau arnynt, a gorfodi'r gyfraith o ran aredig.

Pam mae hyn yn broblem

Gall cnydau sy'n tyfu ar draws llwybr nid yn unig achosi rhwystr ond hefyd beri anhawster wrth ddilyn y llwybr gan fod y cnwd yn ei guddio. Gall cae wedi'i aredig hefyd fod yn anodd ei groesi, ac eto caiff y llwybr ei guddio.

Polisi'r Awdurdod

Bydd yr Awdurdod yn cwrdd â'r troseddwr ac yn egluro polisi'r Awdurdod. Wedyn anfonir llythyr at y troseddwr yn gofyn iddo adfer y llwybr o fewn 7 niwrnod. Os na chaiff y llwybr ei adfer yn unol â'r llythyr bydd yr Awdurdod yn cyflwyno rhybudd cyfreithiol ffurfiol i'r troseddwr yn bersonol neu drwy bost cofrestredig, yn gofyn bod y llwybr yn cael ei adfer o fewn 7 niwrnod arall. Os na chaiff y llwybr ei adfer wedi 7 niwrnod, bydd yr Awdurdod yn adfer y llwybr ac yn adennill y costau oddi wrth y troseddwr.

Os cyflawnir trosedd mewn blwyddyn ddilynol gan yr un troseddwr, bydd yr Awdurdod yn rhoi rhybudd cyfreithiol ffurfiol i'r troseddwr, yn caniatáu 14 diwrnod i adfer y llwybr yn achos trosedd aredig a 7 niwrnod yn achos trosedd cnydau.

Os cyflawnir trosedd gan yr un troseddwr dair gwaith mewn blynyddoedd olynol, bydd yr Awdurdod yn ystyried erlyniad.

Ffensys trydan

Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Priffyrdd 1980, a130

Pwy sy'n gyfrifol?

Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod i sicrhau bod pob llwybr yn ddi-rwystr. Mae ganddo hefyd hawl cyfraith gwlad i symud unrhyw beth, heb ymgynghori, sy'n rhwystr ar lwybr.

Pam mae hyn yn broblem

Mae ffens drydan heb ei hynysu ar draws llwybr yn rhwystr, yn beryglus ac yn niwsans.

Polisi'r Awdurdod

Bydd yr Awdurdod yn gofyn i'r person cyfrifol symud y ffens drydan ar unwaith, neu ddarparu dull diogel o groesi'r ffens. Os nad unionir y sefyllfa ar unwaith, bydd yr Awdurdod yn symud y ffens o'r llwybr heb roi rhybudd pellach. Os bydd y person dan sylw yn parhau i rwystro llwybrau â ffensys trydan, bydd yr Awdurdod yn ystyried eu herlyn.

Coed a llystyfiant arall sy'n tyfu ar draws y llwybr o'r ochrau

Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Priffyrdd 1980 a154

Cyfnod o rybudd ar gyfer gweithredu uniongyrchol

14 diwrnod

Pwy sy'n gyfrifol?

Perchennog y tir y mae'r coed neu'r llystyfiant yn tyfu ohono sy'n gyfrifol am sicrhau nad yw'n rhwystro'r llwybr. Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am sicrhau bod perchnogion yn tocio coed sy'n estyn dros y llwybr neu llystyfiant sy'n peri rhwystr.

Pam mae hyn yn broblem

Gall llwybrau ddod yn anodd neu'n amhosibl eu defnyddio os bydd llystyfiant ar dir yn ymyl yn tyfu drostynt.

Polisi'r Awdurdod

Mae gan yr Awdurdod yr hawl i glirio llystyfiant sy'n tyfu dros lwybr. Os bydd y gordyfiant mor ddifrifol fel nad yw cost clirio'n dderbyniol i'r Awdurdod neu os yw'r gordyfiant dros lwybr ag arwyneb, bydd yr Awdurdod yn rhoi rhybudd i'r perchennog yn gofyn ei fod yn clirio'r llystyfiant o holl led y llwybr.

Sticlau a gatiâu

Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Priffyrdd 1980 a143, a145, a146, ac a147

Cyfnod o rybudd ar gyfer gweithredu uniongyrchol

Un mis

Pwy sy'n gyfrifol?

Y tirfeddiannwr sy'n gyfrifol am gynnal sticlau a gatiâu ar draws llwybrau. Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am sicrhau bod y tirfeddiannwr yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i gynnal sticlau neu gatiâu ac mae'n cyfrannu o leiaf 25% o gost cynnal sticlau a gatiâu. Mae gan yr Awdurdod bwerau i ddarparu holl gost gwaith cynnal a gosod sticlau a gatiâu.

Pam mae hyn yn broblem

Gall sticlau a gatiâu sydd heb eu cynnal yn briodol neu sydd ar goll achosi rhwystrau ar lwybr a'i wneud yn anodd neu'n beryglus ei ddefnyddio.

Polisi'r Awdurdod

Bydd yr Awdurdod yn gosod ac yn cynnal sticlau a gatiâu yn ôl y galw, heb effeithio ar gyfrifoldebau'r tirfeddiannwr, oni bai bod y tirfeddiannwr yn methu â chydweithredu neu'n rhwystro llwybrau eraill. Os na fydd y tirfeddiannwr yn gweithredu, bydd unrhyw sticlau neu gatiâu sydd ar goll neu mewn cyflwr gwael yn cael eu trin fel rhwystrau ac yn derbyn sylw o dan y polisi gorfodi priodol.

Rhwystrau

Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Priffyrdd 1980 a130 ac a143

Cyfnod o rybudd ar gyfer gweithredu uniongyrchol

Un mis

Pwy sy'n gyfrifol?

Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod i sicrhau bod pob llwybr heb rwystrau. Mae ganddo hefyd hawl o dan gyfraith gwlad i symud unrhyw beth, heb ymgynghori, sy'n rhwystro llwybr.

Pam mae hyn yn broblem

Gall rhwystrau (unrhyw beth a osodir ar draws neu ar lwybr sy'n atal neu'n cyfyngu ar ei led) atal defnydd o lwybr, peri bod hynny'n anodd, neu gyfyngu ar ddefnydd y cyhoedd o lwybr. Gall rhwystrau gynnwys unrhyw beth o ddarn o weiren bigog i adeilad, a gallant fod yn eu lle ers ychydig oriau neu flynyddoedd lawer.

Polisi'r Awdurdod

Rhwystrau diweddar ar lwybrau 'agored'

Anfonir llythyr at y person sy'n gyfrifol am y rhwystr yn gofyn am ei symud o fewn 7 niwrnod. Os na symudir y rhwystr o fewn 7 niwrnod cyflwynir rhybudd cyfreithiol ffurfiol i'r troseddwr yn bersonol neu trwy bost cofrestredig yn gofyn ei fod yn ei symud o fewn un mis. Os na symudir y rhwystr o fewn un mis, bydd yr Awdurdod yn ei symud ac yn adennill y costau oddi wrth y troseddwr.

Os caiff y llwybr ei rwystro eto gan yr un troseddwr, bydd yr Awdurdod yn ystyried ei erlyn.

Rhwystrau hir-sefydlog bychain (e.e. ffensys) ar lwybrau nad ydynt 'ar agor'

Bydd swyddogion yr Awdurdod yn cwrdd â'r person cyfrifol ac yn trafod y rhwystr a'r gwaith angenrheidiol i agor y llwybr at ddefnydd y cyhoedd. Bydd yr Awdurdod yn gwneud yr holl waith i agor y llwybr oni bai bod y person cyfrifol yn gwrthod cydweithredu. Os digwydd hyn, bydd yr Awdurdod yn ysgrifennu at y person cyfrifol gan ofyn iddynt symud y rhwystr o fewn un mis. Os nad yw'r rhwystr wedi'i symud ar ôl un mis, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno rhybudd cyfreithiol ffurfiol yn bersonol neu drwy bost cofrestredig i'r person cyfrifol yn gofyn ei fod yn symud y rhwystr o fewn un mis. Os na symudir y rhwystr o fewn un mis bydd yr Awdurdod yn ei symud ac yn adennill y costau oddi wrth y troseddwr.

Rhwystrau hir-sefydlog sy'n anymarferol eu symud (e.e. adeiladau)

Bydd yr Awdurdod yn trafod y rhwystr gyda'r person cyfrifol ac yn eu cynghori y gallant gyflwyno cais am wyro'r llwybr. Anfonir llythyr yn cadarnhau safbwynt yr Awdurdod at y person cyfrifol. Os na fydd y person cyfrifol yn cytuno naill ai i symud y rhwystr neu i wneud cais am wyriad, ni fydd gan yr Awdurdod ddewis ond erlyn y troseddwr.

Rhwystro llwybrau honedig

Anfonir llythyr at y person sy'n gyfrifol am y rhwystr yn eu hysbysu, os daw'r llwybr troed honedig yn llwybr cyhoeddus cofrestredig, y bydd unrhyw strwythur sy'n rhwystr ar y llwybr hwnnw (ac a osodwyd yno ers dyddiad gwreiddiol honni bodolaeth y llwybr) yn cael ei ystyried yn rhwystr ac yn derbyn sylw o dan y polisiau uchod.

ATODIAD 6

Cyhoeddiadau cyfredol ac yn y gorffennol a gynhyrchwyd yn breifat ac sy'n hyrwyddo mynediad i gefn gwlad yn Ninas a Sir Abertawe (nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysol).

Cerdded

Cardiff Swansea and Gower Walks	Arolwg Ordnans	2003
Walking around Northern Gower and the Swansea Valley	Crwydriaid Gorllewin Morgannwg	2003
Gower Coastal Walks	Dr Gordon Avery	2001
Carmarthenshire Coast and Gower Circular Walks	Paul Williams	2000
Circular Walks in Gower	Nick Jenkins	1998
Gower Walks	Cymdeithas Gŵyr	1994
Pembrokeshire and Gower Walks	Arolwg Ordnans	1993
Walking Around Gower	Crwydriaid Gorllewin Morgannwg	1993
Mawr Community Council – A Guide to Rights of Way	Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad Dyffryn Lliw	1993
Gower Farm Trail	Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg	1988
4 Walks in Gower	The Glamorgan Naturalist's Trust	cyn 1996
St Illtyd's Walk	G Colin Davies	cyn 1996

Beicio

The Valleys of South Wales, The Gower Peninsula and Lower Wye Valley	Nick Cotton	1999
Cycle Tours	Arolwg Ordnans, Nick Cotton	1996

Marchogaeth

Dim cyhoeddiadau

ATODIAD 7

Hysbysiadau cyngor a ddarperir gan yr Awdurdod

Saeth cyfeirbwynt llwybr troed



Saeth cyfeirbwynt llwybr ceffyl



PREIFAT

**DIM LLWYBR
CYHOEDDUS**

GWYRIAD I'R LLWYBR

Mae'r llwybr cyhoeddus hwn wedi cael ei wro drwy orchymyn. Dilynwch y cyfeirbwyntiau, os gwelwch yn dda.

Llwybr cyhoeddus dros dir preifat. Byddwch gystal â:

Chadw at y llwybr – dilynwch y saethau cyfeirbwynt

Gadael y gatiau ac eiddo fel y cewch hyd iddynt

Ystyried pobl eraill

Cadw cŵn dan reolaeth lem

Mynd â'ch sbwriel adref

CŴN

Gallant roi braw i anifeiliaid fferm neu eu hanafu

Cadwch eich ci ar dennyn gerllaw da byw

TIR FFERM

Caewch y gât, os gwelwch yn dda
Diolch yn fawr

TIR FFERM

Cadwch eich ci ar dennyn

Diolch yn fawr

ATODIAD 8

Llwybr Arfordir Gŵyr

Dolenni y mae angen eu creu i gwblhau'r llwybr

Llwybr troed Llangynydd 27 i lwybr troed Llanmadog 3 ar draws Bae Broughton
1600m (1 filltir)

Llwybr troed Penmaen 4 i lwybr troed Bennard 4 ar draws Bae'r Tri Chlogwyn 1200m
($\frac{3}{4}$ milltir)

Angen dolen o bosib rhwng Llangynydd 32 a Rhosili 3 ar draws Bae Rhosili 4200m
($2\frac{3}{4}$ filltir)

Gwiriadau y mae eu hangen i gwblhau'r llwybr

RH35 Pitton
PE8 Pwynt Porth Einon
OX8 Bae Slade
LG32 Twyni Broughton

Gwaith sylweddol sy'n angenrheidiol

LM8 Ailgodi'r morglawdd
RH35 Torri grisiau yn y creigiau
PE8 Torri grisiau yn y creigiau
BI32 Grisiau a llwybr diogel

ATODIAD 9

Canlyniadau arolwg y cerddwyr

Rhwng Mehefin a Hydref 2005, cynhaliwyd arolwg cerddwyr drwy ofyn i'r cyhoedd lenwi holiadur. Derbyniwyd 519 o ymatebion.

Ydych chi wedi defnyddio llwybr troed a/neu lwybr ceffyl cyhoeddus yn ystod y 12 mis diwethaf?

Ydw	96.3%
Nac ydw	3.7%

Pa mor aml byddwch chi'n defnyddio llwybrau troed a/neu lwybrau ceffyl?

5-7 gwaith yr wythnos	27.9%
3-4 gwaith yr wythnos	18.6%
1-2 waith yr wythnos	23.9%
1-2 waith y mis	16.0%
Unwaith bob 2 fis	2.8%
Unwaith bob 3 mis	2.4%
Unwaith bob 6 mis	1.2%
Yn llai aml	5.9%
Arall	1.2%

Pam byddwch chi'n defnyddio llwybrau troed neu lwybrau ceffyl?

Ar gyfer hamdden	99.6%
Ar gyfer busnes	3.6%

Os ar gyfer hamdden, rhowch fwy o fanylion, os gwelwch yn dda

Mynd i'r ysgol/gwaith/siopau	18.0%
Cerdded ar eich pen eich hun	60.2%
Cerdded gyda grŵp	51.6%
Mynd â'r ci am dro	33.2%

Os ar gyfer busnes, pa mor bwysig yw'r llwybrau troed a/neu'r llwybrau ceffyl ar gyfer eich busnes?

Pwysig iawn	50.0%
Gweddol bwysig	28.6%
Ddim yn bwysig iawn	14.3%
Ddim yn bwysig o gwbl	7.1%

Am faint o amser byddwch chi'n cerdded fel arfer?

Hyd at 1 awr	25.9%
1-3 awr	51.9%
Dros 3 awr	19.6%
Arall	2.6%

Sut byddwch chi'n cyrraedd cefn gwlad i ddechrau cerdded?

Yn y car	72.2%
Cludiant cyhoeddus	15.9%
Yn syth o'ch cartref (h.y. cerdded)	68.1%

Ydych chi erioed wedi cael eich atal rhag defnyddio llwybr troed a/neu llwybr ceffyl?

Ydw	38.2%
Nac ydw	61.8%

Ydych chi'n teimlo bod unrhyw un o'r canlynol yn broblem gyda'r llwybrau rydych chi'n eu defnyddio?

Aredig / cnydau	8.0%
Tipio anghyfreithlon/sbwriel/baw cŵn	59.3%
Gormod o gatiâu/sticlau	6.4%
Dyluniad gatiâu/sticlau	19.1%
Gordyfiant	64.2%
Cyflwr yr arwyneb	37.6%
Mathau eraill o ddefnyddwyr	9.3%
Cerbydau modur ar llwybrau troed/ceffyl	23.8%
Mynediad i llwybrau troed/ceffyl	13.8%
Arwyddion a'r man cychwyn/gorffen	32.9%
Cyfeirbwyntiau ar hyd y llwybr ceffyl	16.7%
Gwybodaeth ar y dechrau/diwedd	16.9%
Gwybodaeth ar hyd llwybrau troed/ceffyl	14.4%
Yr wybodaeth sydd ar gael yn gyffredinol	17.8%
Gwybodaeth am llwybrau penodol	16.0%

Yn eich barn chi, pa mor dda neu wael yw hygyrchedd cyffredinol llwybrau troed a llwybrau ceffyl cyhoeddus yn ardal Abertawe ar gyfer: Pobl sydd â phramiau a chadeiriau gwthio?

Da iawn	3.9%
Gweddol dda	30.2%
Gweddol wael	36.3%
Gwael iawn	29.6%

Yn eich barn chi, pa mor dda neu wael yw hygyrchedd cyffredinol llwybrau troed a llwybrau ceffyl cyhoeddus yn ardal Abertawe ar gyfer: Pobl sydd â phlant ifanc?

Da iawn	10.7%
Gweddol dda	56.3%
Gweddol wael	26.8%
Gwael iawn	6.3%

Yn eich barn chi, pa mor dda neu wael yw hygyrchedd cyffredinol llwybrau troed a llwybrau ceffyl cyhoeddus yn ardal Abertawe ar gyfer: Pobl hŷn?

Da iawn	10.9%
Gweddol dda	52.1%
Gweddol wael	28.0%
Gwael iawn	9.0%

Yn eich barn chi, pa mor dda neu wael yw hygyrchedd cyffredinol llwybrau troed a llwybrau ceffyl cyhoeddus yn ardal Abertawe ar gyfer: Pobl iau?

Da iawn	38.3%
Gweddol dda	54.6%
Gweddol wael	5.6%
Gwael iawn	1.5%

Yn eich barn chi, pa mor dda neu wael yw hygyrchedd cyffredinol llwybrau troed a llwybrau ceffyl cyhoeddus yn ardal Abertawe ar gyfer: Siaradwyr Cymraeg (h.y. arwyddion dwyieithog, etc)?

Da iawn	21.3%
Gweddol dda	42.1%
Gweddol wael	21.3%
Gwael iawn	15.4%

Yn eich barn chi, pa mor dda neu wael yw hygyrchedd cyffredinol llwybrau troed a llwybrau ceffyl cyhoeddus yn ardal Abertawe ar gyfer: Pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn?

Da iawn	1.6%
Gweddol dda	13.5%
Gweddol wael	34.2%
Gwael iawn	50.6%

Yn eich barn chi, pa mor dda neu wael yw hygyrchedd cyffredinol llwybrau troed a llwybrau ceffyl cyhoeddus yn ardal Abertawe ar gyfer: Pobl sydd â nam ar y golwg?

Da iawn	1.1%
Gweddol dda	17.6%
Gweddol wael	39.7%
Gwael iawn	41.6%

Yn eich barn chi, pa mor dda neu wael yw hygyrchedd cyffredinol llwybrau troed a llwybrau ceffyl cyhoeddus yn ardal Abertawe ar gyfer: Pobl sydd ag anawsterau symudedd?

Da iawn	2.0%
Gweddol dda	15.9%
Gweddol wael	39.3%
Gwael iawn	42.7%

Yn eich barn chi, pa mor dda neu wael yw hygyrchedd cyffredinol llwybrau troed a llwybrau ceffyl cyhoeddus yn ardal Abertawe ar gyfer: Pobl sydd â chŵn?

Da iawn	33.6%
Gweddol dda	53.1%
Gweddol wael	10.7%
Gwael iawn	2.7%

O ystyried dosbarthiad ac argaeledd llwybrau troed a llwybrau ceffyl yn ardal Abertawe, pa mor dda neu wael yw'r canlynol;

Rhwydwaith cyffredinol y llwybrau troed a llwybrau ceffyl?

Da iawn	30.7%
Gweddol dda	59.9%
Gweddol wael	7.2%
Gwael iawn	2.2%

Y cysylltiadau rhwng llwybrau troed, llwybrau ceffyl ac ardaloedd eraill (e.e. traethau)?

Da iawn	23.7%
Gweddol dda	62.1%
Gweddol wael	11.2%
Gwael iawn	3.0%

A oes unrhyw ardaloedd a fyddai'n elwa o gysylltiadau ychwanegol neu ddarpariaeth well?

Oes	27.2%
Nac oes	72.8%

O feddwl am fynediad i gefn gwlad yn gyffredinol, allwch chi awgrymu unrhyw welliannau posib ar gyfer y 10 mlynedd nesaf?

Gallaf	55.3%
Na allaf	44.7%

Ydych chi'n un o drigolion Dinas a Sir Abertawe?

Trigolyn	79.7%
Ymwelydd	20.3%

Pa ryw ydych chi?

Benyw	48.4%
Gwryw	51.6%

Beth yw eich cenedl?

Prydeinig	40.4%
Cymreig	44.7%
Seisnig	11.9%
Gwyddelig	0.2%
Albanaidd	1.2%
Nid o Brydain	1.0%
Arall	0.6%

I ba grŵp ethnig rydych chi'n perthyn, yn eich barn chi?

Prydeinig	98.6%
Cymysg Gwyn a Du Asiaidd	0.4%
Tsieineaidd	0.2%
Arall	0.8%

Pa ieithoedd fyddwch chi'n eu defnyddio o ddydd i ddydd?

Saesneg	96.9%
Cymraeg	5.2%

Ydych chi'n teimlo bod anabledd gennych?

Ydw	10.5%
Nac ydw	89.5%

Fyddech chi'n barod i ymuno mewn cyfarfod/grŵp trafod i drafod Mynediad i Gefn Gwlad?

Byddwn	38.5%
Na fyddwn	61.5%

Canlyniadau arolwg y marchogwyr a beicwyr

Rhwng Mehefin a Hydref 2005 cynhaliwyd arolwg o farchogwyr a beicwyr drwy ofyn i'r cyhoedd lenwi holiadur. Derbyniwyd 153 o ymatebion.

Ydych chi wedi defnyddio llwybr ceffyl cyhoeddus o fewn y 12 mis diwethaf?

Ydw	99.3%
Nac ydw	0.7%

Ydych chi'n mynd ar gefn...?

Ceffyl	73.9%
Beic	37.9%

Pa mor aml byddwch chi'n defnyddio llwybrau ceffyl?

5-7 gwaith yr wythnos	23.7%
3-4 gwaith yr wythnos	37.5%
1-2 waith yr wythnos	18.4%
1-2 waith y mis	10.5%
Unwaith bob 2 fis	2.6%
Unwaith bob 3 mis	2.0%
Unwaith bob 6 mis	2.0%
Yn llai aml	3.3%

Pam byddwch chi'n defnyddio llwybrau ceffyl?

Ar gyfer hamdden	100%
Ar gyfer busnes	5.9%

Os ar gyfer hamdden, rhowch fwy o fanylion, os gwelwch yn dda

Mynd i'r ysgol/gwaith/siopau	8.3%
Marchogaeth/reidio ar eich pen eich hun	87.1%
Marchogaeth/reidio gyda grŵp	79.9%

Os ar gyfer busnes, pa mor bwysig yw'r llwybrau ceffyl ar gyfer eich busnes?

Pwysig iawn	77.8%
Gweddol bwysig	22.2%
Ddim yn bwysig iawn	0.0%

Am faint o amser byddwch chi'n marchogaeth/reidio fel arfer?

Hyd at 1 awr	12.0%
1-3 awr	75.3%
Dros 3 awr	11.3%
Arall	1.3%

Sut byddwch chi'n cyrraedd cefn gwlad i ddechrau marchogaeth/reidio?

Yn y car	31.8%
Cludiant cyhoeddus	0.7%
Yn syth o'm cartref/stabl/cae (h.y.marchogaeth/reidio)	84.8%
O Ganolfan Ferlota/Hurio Beiciau	2.6%

Ydych chi erioed wedi cael eich atal rhag defnyddio llwybr ceffyl?

Ydw	52.0%
Nac ydw	48.0%

Sut byddwch chi'n mynd i gefn gwlad i ddechrau marchogaeth/reidio?

Ar fy ngheffyl/meic fy hun	93.2%
Ar geffyl/beic wedi'i rentu/logi	4.7%
Ar geffyl/beic wedi'i rentu/logi	8.8%

Ydych chi'n teimlo bod unrhyw un o'r canlynol yn broblem gyda'r llwybrau ceffyl rydych chi'n eu defnyddio?

Aredig/cnydau	2.1%
Tipio anghyfreithlon/sbwriel/baw cŵn	44.0%
Gormod o gatiâu/sticlau	17.7%
Dyluniad gatiâu sticlau	39.0%
Gordyfiant	68.8%
Cyflwr yr arwyneb	59.6%
Mathau eraill o ddefnyddwyr	19.9%
Cerbydau modur ar lwybrau ceffyl	42.6%
Mynediad i lwybrau ceffyl	31.2%
Arwyddion a'r man cychwyn/gorffen	34.8%
Cyfeirbwyntiau ar hyd y llwybr ceffyl	26.2%
Gwybodaeth ar y dechrau/diwedd	19.1%
Gwybodaeth ar hyd llwybrau ceffyl	22.0%
Yr wybodaeth sydd ar gael yn gyffredinol	29.8%
Gwybodaeth am lwybrau penodol	32.6%

O ystyried dosbarthiad ac argaeledd llwybrau ceffyl yn ardal Abertawe, pa mor dda neu wael yw'r canlynol;

Rhwydwaith cyffredinol y llwybrau ceffyl?

Da iawn	9.1%
Gweddol dda	50.8%
Gweddol wael	28.0%
Gwael iawn	12.1%

Y cysylltiadau rhwng llwybrau ceffyl ac ardaloedd eraill (e.e. traethau)?

Da iawn	5.6%
Gweddol Dda	38.8%
Gweddol wael	34.1%
Gwael iawn	21.4%

A oes unrhyw ardaloedd a fyddai'n elwa o gysylltiadau ychwanegol neu well darpariaeth?

Oes	56.2%
Nac oes	43.8%

O feddwl am fynediad i gefn gwlad yn gyffredinol, allwch chi awgrymu unrhyw welliannau posib ar gyfer y 10 mlynedd nesaf?

Gallaf	58.8%
Na allaf	41.2%

Ydych chi'n un o drigolion Dinas a Sir Abertawe?

Trigolyn	93.3%
Ymwelydd	6.7%

Beth yw eich rhyw?

Gwryw	25.3%
Benyw	74.7%

Beth yw eich cenedl?

Prydeinig	39.6%
Cymreig	53.7%
Seisnig	6.0%
Gwyddelig	0.7%

I ba grŵp ethnig rydych chi'n teimlo eich bod chi'n perthyn?

Prydeinig	98.6%
Cymysg Gwyn a Du Caribïaidd	0.7%
Arall	0.7%

Pa ieithoedd rydych chi'n eu defnyddio o ddydd i ddydd?

Saesneg	99.3%
Cymraeg	9.2%

Ydych chi'n teimlo bod anabledd gennych?

Ydw	6.9%
Nac ydw	93.1%

Fyddech chi'n barod i ymuno mewn cyfarfod/grŵp trafod i drafod mynediad i gefn gwlad?

Byddwn	57.0%
Na fyddwn	43.0%

Canlyniadau arolwg y tirfeddianwyr

Anfonwyd holiadur at berchnogion tir yn gofyn eu barn ynghylch nifer o faterion sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad. Dychwelwyd 50 o holiaduron.

A1 Sut byddech chi'n disgrifio'ch agwedd at fynediad cyhoeddus?

Rwy'n croesawu'r cyhoedd ar fy nhir at ddibenion hamdden	0%
Does dim ots gen i fod y cyhoedd yn defnyddio fy nhir, cyhyd ag nad ydynt yn achosi difrod a'u bod yn ymddwyn yn gyfrifol.....	52%
Byddai'n well gen i wahardd pob mynediad i'r cyhoedd ar fy nhir	48%

A2 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiad sy'n dilyn, 'Mae rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad gyda'i gilydd yn darparu digon o fynediad i gefn gwlad i'r cyhoedd'

<i>Cytuno'n Bendant</i>	<i>Tueddu i Gytuno</i>	<i>Tueddu i Anghytuno</i>	<i>Anghytuno'n Bendant</i>	<i>Ddim yn Gwybod /gwag</i>
54%	40%	0%	4%	2%

A3 (a) O ystyried y rhwydwaith Hawliau Tramwy presennol, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol. 'Mae'r rhwydwaith yn....'?

	<i>Cytuno'n Bendant</i>	<i>Tueddu i Bendant</i>	<i>Tueddu i Gytuno</i>	<i>Anghytuno'n Bendant</i>	<i>Ddim yn Gwybod</i>
Cael ei gynnal hyd at safon uchel	8%	34%	28%	6%	14%
Cynnwys mynegbyst/cyfeirbwyntiau da	10%	46%	22%	2%	20%

(b) Os ydych yn anghytuno, nodwch pam?

Gordyfiant	12%
Cyfeirbwyntiau gwael	18%
Gwaith cynnal gwael	8%
Dim sticlau cŵn	2%
Heb ei reoli	2%

B1 Oes gennych chi unrhyw un o'r canlynol ar eich tir?

Hawl Tramwy Cyhoeddus – Llwybr troed/ceffyl	82%	Tir mynediad agored wedi'i fapio gan CCGC	2%
Llwybr honedig sy'n cael ei brosesu nawr.	2%	Hawliau preitat i grwpiau wedi'u trefnu	2%
Llwybr gyda Chaniatâd trwy Dir Cymen/Tir Gofal	4%	Llwybrau tollau	0%
Tir mynediad dynodedig ar gyfer hamdden cyhoeddus	0%	Dim	14%

B2 Ac eithrio Hawliau Tramwy cyhoeddus (HT), fyddwch chi'n gwahodd y cyhoedd i'ch tir ar gyfer unrhyw un o'r canlynol?

Gwersylla/carafanio/G&B.....	20%	Caffi/bwyty.....	2%
Siop Fferm	8%	Marchogaeth	4%

B3 (a) Ydych chi'n rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd?

Ydw..... **36%**
 Nac ydw..... **64%**

(b) Os ydych, ydy'r taliadau cyfredol yn ddigonol neu'n annigonol ar gyfer llwybrau gyda chaniatâd?

Digonol ar gyfer llwybrau gyda chaniatâd . **4%** Ddim yn gwybod.....**80%**
 Annigonol ar gyfer llwybrau gyda chaniatâd **16%**

B4 Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, sy'n achosi'r problemau mwyaf difrifol yn eich barn chi ar HT cyhoeddus yn eich ardal?

Mynediad heb ganiatâd/tresmasu.....	50%	Sbwriel.....	48%
Tipio anghyfreithlon	40%	Pobl yn cychwyn tanau.....	22%
Peidio â gadael gatiâu fel roeddent	68%	Gwersylla heb ganiatâd.....	28%
Parcio anystyriol/gosod rhwystrau	30%	Pobl yn mynd y tu hwnt i'w hawliau	48%
Ymyrryd â phreifatrwydd/.....	32%	Cŵn heb fod o dan reolaeth/	
poeni da byw.....		Cŵn yn baeddu ar eich eiddo.....	64%
Fandaliaeth.....	20%		

B5 Os oes hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi'ch tir, fydddech chi'n barod i gyfrannu at y gwaith o'u cynnal petaech yn cael tâl am wneud hynny?

Byddwn.....**52%** Ddim yn Gwybod..... **6%**
 Na fyddwn.....**42%**

C1 Petai digon o symbyliad ariannol dros gynyddu mynediad y cyhoedd i'ch tir, fydddech chi'n...?

Darparu mwy o lwybrau cyhoeddus..... **4%**
 Gwrthod mynediad pellach
 80% || Ddim yn gwybod | **16%** |

(b) Os ydych yn barod i ddarparu mwy o fynediad i'r cyhoedd, pa lefel o dâl y flwyddyn fyddai'n ddigonol yn eich barn chi?

Y Llwybr		Y Fetr		Yr Hectar	
£0 - £50	0%	£0 - £0.10.....	0%	£0 - £5	0%
£51 - £100	0%	£0.11 - £0.50.....	0%	£6 - £10	0%
£101 - £200.....	2%	£0.51 - £1.00.....	0%	£11 - £20	0%
£201 - £500.....	2%	£1.01 - £5.00.....	4%	£21 - £50	0%
£501+.....	4%	£5.01 +.....	2%	£51+.....	0%

C2	Sut byddai mwy o fynediad i'r cyhoedd yn effeithio ar reolaeth eich tir?	
	Costau uwch yn sgîl premiymau yswiriant	60%
	Bygythiad o fethdaliad yn sgîl hawliadau personol gan ddefnyddwyr	40%
	Difrod/bygythiadau i dda byw a chnydau (bioddiogeledd).....	82%
	Cynnydd mewn gofynion iechyd a diogelwch a'r asesiadau risg	70%
	Gostyngiad yng ngwerth y tir oherwydd presenoldeb hawliau tramwy.....	42%
	Dim gwahaniaeth i'r rheolaeth	2%

C3 O ystyried datblygu a gwella, pa mor bwysig yw'r canlynol i chi ar gyfer y 10 mlynedd nesaf?

Cynnal y rhwydwaith HT presennol yn well..... **70%** 3ydd neu 4ydd fwyaf pwysig

Cynyddu hyd y rhwydwaith HT

92% lleiaf pwysig

Rhesymoli llwybrau i fodloni gofynion defnydd modern

70% 3ydd neu 4ydd fwyaf pwysig

Dargyfeirio llwybrau o fuarth ffermydd er diogelwch a diogeled.....

66% mwyaf pwysig

(**90%** 1^{af} neu 2^{il} fwyaf pwysig)

Mwy o addysg i'r cyhoedd ynghylch eu cyfrifoldebau yng nghefn gwlad **16%** mwyaf pwysig

(**60%** 1^{af} neu 2^{il} fwyaf pwysig)

ATODIAD 10

Cyd-destun strategol

Mae nifer o ddogfennau a gynhrychir gan yr Awdurdod hwn a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfeirio at fynediad i gefn gwlad. Mae'r cyfeiriadau a wneir yn ymwneud yn bennaf â mynediad cyffredinol, cerdded a beicio. Ychydig iawn o gyfeiriadau a geir at farchogaeth. Mae llawer o gyfeiriadau'n sôn am fynediad mewn cyd-destun trefol.

Cynllun Datblygu Unedol

Mae'r CDU (a gynhrychir gan y Gwasanaethau Cynllunio) yn ystyried hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i gefn gwlad mewn nifer o Bolisiâu. Mae'r polisiâu hyn yn ceisio diogelu hawliau tramwy cyhoeddus a thir comin rhag datblygiad a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gwell mynediad yn yr ardal drefol ac yng nghefn gwlad.

Caiff hawliau tramwy cyhoeddus eu hystyried ym Mholisi AS3 ac EV12.

Polisi AS3

Ni chaniateir datblygiad sy'n cael effaith niweidiol ar ddiogelwch, mwynhad a defnydd hwylus hawl tramwy cyhoeddus (HTC) oni bai y darperir llwybr amgen derbynol cyn i'r datblygiad ddigwydd.

Caniateir cau HTC dim ond o dan amgylchiadau eithriadol.

Polisi EV12

Diogelir cymeriad lonydd a llwybrau cyhoeddus sy'n cyfrannu at amwynder ardal. Bydd cynigion datblygu sy'n cynnwys gofynion ar gyfer gwthio llinellau gwelliannau yn ôl, clirio perthi, a darparu trefniadau mynediad a gwelededd newydd sy'n debygol o arwain at gollu cymeriad yn cael eu gwrthsefyll.

Mewn ardaloedd gwledig dylai dyluniad unrhyw waith angenrheidiol fod yn briodol i gymeriad yr ardal, heb dynnu oddi wrth y dirwedd na throi'r ardal yn faestref.

Ystyrir mynediad yn gyffredinol ym mholisiâu AS2, AS4 ac AS5

Polisi AS2

Dylid dylunio datblygiadau newydd er mwyn:

- (i) Darparu cyfleusterau addas ac amgylchedd deniadol i gerddwyr, beicwyr a dulliau cludiant eraill heb foder;

Polisi AS4

Anogir creu neu wella llwybrau mynediad cyhoeddus, gan gynnwys y rhwydwaith HTC. Bydd y camau a gymerir i gyflawni hyn yn cynnwys:

- (i) Rheoli a chynnal y rhwydwaith i ddiwallu anghenion defnyddwyr mewn modd sy'n mwyafu diogelwch ac yn lleiafu'r potensial ar gyfer gwrthdaro rhwng defnyddwyr.
- (ii) Sicrhau bod llwybrau newydd arfaethedig wedi'u diogelu rhag cynigion datblygu a fyddai'n peryglu eu darparu neu eu defnyddio yn y dyfodol; a
- (iii) Sicrhau bod datblygiad newydd yn gysylltiedig â llwybr mynediad cyhoeddus neu'r rhwydwaith HTC lle bynnag y bo modd.

Polisi AS5

Bydd gofyn i gynigion datblygu ystyried gofynion mynediad cerddwyr a beicwyr a, lle bo angen, ddarparu cyfleusterau priodol a/neu isadeiledd i annog eu defnydd.

Ystyrir tiroedd comin ym mholisi EV29

Polisi EV29

Caiff tir comin ei ddiogelu rhag datblygu gan gydnabod ei bwysigrwydd o safbwynt amaethyddiaeth, treftadaeth naturiol, yr amgylchedd hanesyddol ac adnodd hamdden anffurfiol.

Mae Polisi HC26 hefyd yn berthnasol i fynediad a hamdden.

Polisi HC26

Bydd cyfleoedd ar gyfer hamdden anffurfiol yng nghefn gwlad ac o fewn y system mannau glas trefol yn cael eu hyrwyddo cyhyd ag:

- (i) Na fyddai niwed i gymeriad neu olwg cefn gwlad neu fannau glas trefol,
- (ii) Na fyddai pobl yn yr ardal yn colli amwynder, na defnyddwyr eraill cefn gwlad yn colli mwynhad, ac
- (iii) Na fyddai difrod i safleoedd pwysig o ran treftadaeth naturiol ac amgylchedd hanesyddol, ac
- (iv) Y gellir darparu mynediad trwy ddewis amrywiol o ddulliau teithio, ond yn arbennig cerdded, beicio neu gludiant cyhoeddus.

Cynllun Trafnidiaeth Lleol

Cynhyrchir hwn gan y Gwasanaethau Technegol, ac fe gaiff ei ysgrifennu mewn cyd-destun trefol, heb gyfeirio llawer at fynediad i gefn gwlad.

Fodd bynnag, mae'r strategaeth a'r rhaglen 5 mlynedd o'r farn y dylid cynnal a gwella mynediad i'r rhwydwaith HTC mewn ardaloedd trefol a gwledig dan yr adran 'Cerdded' (para.14.20)

Mae'r CTLI yn cynnwys Strategaeth Cerdded sydd o'r farn, ym mharagraff 4.10:

'Bod Asiantaethau Cefn Gwlad a Chymdeithasau Twristiaeth ar eu hennill yn hyrwyddo cerdded a beicio fel gweithgareddau hamdden ynddynt eu hunain, ac fel dull o gael mynediad cynaliadwy i atyniadau twristiaid. Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r grwpiau hyn i hyrwyddo llwybrau cerdded i atyniadau ymwelwyr ac i hyrwyddo cerdded er mwynhad.'

Y Cynllun Cymunedol

Mae'r Cynllun Cymunedol yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer amgylchedd Abertawe

—
“Abertawe amgylcheddol gynaliadwy sy'n lle gwych i fyw ynddo, a lle mae ansawdd yr amgylchedd ymhlith 25% uchaf ardaloedd tebyg yn Ewrop.”

Mae'n nodi pum her a fydd yn gwneud gwahaniaeth mesuradwy i hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i gefn gwlad (ymhlith pethau eraill).

Cynllun Rheoli AHNE Gŵyr

Mae'r Cynllun Rheoli ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr (a gynhyrchwyd gan Swyddog AHNE yr Awdurdod) yn cyfeirio'n eithaf manwl at y rhan honno o'r rhwydwaith HTC a'r tir mynediad a geir yn yr AHNE, gan gyflwyno gweledigaeth, polisiau ac amcanion ar gyfer adnodd mynediad i gefn gwlad. Mae tua 66% o'r rhwydwaith yn yr AHNE.

Gweledigaeth

Rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus sy'n gwbl agored, yn medru cael ei ddefnyddio ac mewn cyflwr da, sydd wedi cael ei wella i ddarparu mynediad i bawb i'r graddau mae modd. Tir mynediad sydd wedi'i nodi'n glir, ac sydd ar gael i'w ddefnyddio, oni bai ei fod wedi'i gyfyngu dros dro. Traethau sy'n cael eu rheoli'n dda at ddefnydd y cyhoedd ac sy'n bodloni safonau a meini prawf rheoli cyfredol, gan gynnwys y rheiny a bennir gan gynlluniau gwobrwyo.

Polisiau

RR1 Cynyddu nifer yr hawliau tramwy cyhoeddus y gellir eu defnyddio.

RR2 Sicrhau bod tir mynediad ar gael at ddefnydd y cyhoedd a bod ei argaeledd yn derbyn digon o gyhoeddusrwydd.

RR3 Rheoli a chynnal traethau at safon uchel.

RR4 Hyrwyddo'r adnodd hamdden yn unol ag egwyddorion twristiaeth gynaliadwy ar y cyd â rhanddeiliaid.

Amcan 25 Gwella safon a lefel gynnal gyfredol hawliau tramwy cyhoeddus, fel bod 95% ohonynt ar agor, yn medru cael eu defnyddio, ac yn cynnwys mynegbyst clir erbyn 2009.

Camau i gyflawni'r amcan

- Nodi llwybrau nad ydynt ar agor
- Paratoi rhaglen waith ar y cyd â'r cynllun gwella hawliau tramwy

Amcan 26 Nodi a hyrwyddo rhan o'r rhwydwaith hawliau tramwy ar y cyd â thir mynediad (gweler Amcan 23 isod) ar gyfer cerdded (gan gynnwys teithiau cerdded cylchol) marchogaeth a beicio erbyn 2009, gan ystyried y bobl hynny sydd â galluoedd amrywiol, ac yng nghyswllt agenda byw'n iach.

Camau i gyflawni'r amcan

- Cynnal arolwg tir i wirio ymarferoldeb y llwybr
- Ymgynghori â phobl â diddordeb
- Cynhyrchu taflenni i hyrwyddo teithiau cerdded hwylus y gellir eu cyrraedd ar gludiant cyhoeddus

Amcan 27 Sefydlu trefniadau i roi cyhoeddusrwydd i argaeledd tir mynediad o dan Ddeddf CROW, ac unrhyw achosion o gau dros dro neu newidiadau, erbyn 2006.

Camau i gyflawni'r amcan

- Nodi dulliau cyhoeddusrwydd priodol
- Paratoi nodyn arfer ymarferol
- Gweithredu'r trefniadau cyhoeddusrwydd

Y Strategaeth Twristiaeth

Mae strategaeth ddrafft yn cael ei chynhyrchu ar hyn o bryd. Mae'n cyfeirio'n galonogol sawl tro at fynediad i gefn gwlad. Mae'r Cynllun Gweithredu drafft, sy'n cynnwys 56 o bwntiau, yn canolbwyntio ar ardaloedd.

O dan Ardal 3, y Mwmbwls, mae'n cyfeirio at wella cysylltiadau cludiant, gan gynnwys llwybrau beicio a cherdded a llwybrau i benrhyn Gŵyr.

O dan Ardal 4, Gŵyr, mae'n cyfeirio at y camau dilynol a fydd yn effeithio ar fynediad i gefn gwlad:

Datblygu llwybrau cerdded a beicio cylchol, ar ffurf lŵp a chysylltiol, gan ddefnyddio pentrefi fel canolbwyntiau/canolfannau.

Datblygu llwybr o amgylch Gŵyr a fydd yn ymgorffori Ffordd Gŵyr.

Datblygu Ffordd Gŵyr fel llwybr wedi'i nodi lle ceir dehongli a lwpiau, a'i hyrwyddo â llety.

Parhau i hyrwyddo gwasanaethau bws y Gower Explorer a'r Lliw Link gyda llwybrau cerdded a beicio.

1. Cefnogi datblygu isadeiledd priodol i hwyluso darparu gweithgareddau perthnasol yn yr awyr agored, gan gynnwys llwybrau a thrywyddau wedi'u cyfeirbwyntio.
2. Mynd ati i hyrwyddo datblygiad llwybr arfordir Gŵyr er mwyn darparu llwybr arfordirol di-dor ar hyd de a de-orllewin Cymru.

O dan Ardal 6, Mawr, mae'n cyfeirio at y canlynol:

1. Sefydlu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio wedi'u cyfeirbwyntio sy'n tarddu o'r prif bentrefi.
2. Datblygu Ffordd Gŵyr fel llwybr wedi'i gyfeirbwyntio gyda dehongli a lwpiau a hyrwyddo hynny gyda llety.
3. Datblygu cysylltiadau â Ffordd Gŵyr a llwybr beicio Sustrans ac oddi yno.
4. Archwilio ffyrdd o integreiddio gwasanaeth bws 'Lliw Link' a chyfleoedd cerdded a beicio yn yr ardal hon.

Strategaeth Ddrafft Twristiaeth Arfordir Cymru (Ionawr 2007)

Mae cryn amrywiaeth o ran y nifer sy'n cymryd rhan, y tueddiadau o ran galw, a'r gwariant ar weithgareddau o amgylch arfordir Cymru. Mae'r galw uchaf o bell ffordd am gerdded (gyda 74% yn gwneud hynny ar eu gwyliau), wedi'i ddilyn gan ymweld â safleoedd treftadaeth (34%) a theithiau astudiaethau maes (22%). Canolig yw'r nifer sy'n beicio (11%) ac yn mynd ar gychod (10%). Mae'r gweithgareddau eraill yn cynnwys chwaraeon creigiau (6%), golff (5%), sgïo dŵr (2%) a phlymio (1%).

O'r holl weithgareddau ar yr arfordir, cerdded yw'r mwyaf poblogaidd o bell ffordd. Mae nifer o lwybrau arfordirol eisoes, gan gynnwys Llwybr Arfordir Ynys Môn, Llwybr Gogledd Cymru, Llwybr Arfordir Llŷn, a **Thaith Gerdded y Gororau**, Llwybr Arfordir Ceredigion, Llwybr Arfordir ac Aberoedd Bae Caerfyrddin, Llwybr Arfordir Treftadaeth Morgannwg, yn ogystal â Llwybr Arfordir Penfro, sy'n darparu rhyw 1000kms o lwybrau troed ar yr arfordir. Mae mynediad i'r cyhoedd i chwe deg un y cant o'r arfordir ar hyn o bryd, gydag 11% arall yn meddu ar fynediad ganiatol neu fynediad o'r lan yn unig. Nid oes modd cael mynediad i bump y cant o'r arfordir (afonydd, dociau, llinellau rheilffordd), ac nid oes mynediad cyhoeddus i 23% o'r arfordir.

Trwy annog a galluogi mwy o bobl i fwynhau hamdden corfforol ar yr arfordir, bydd Llwybr Arfordir Cymru Gyfan yn dod â budd economaidd sylweddol i gymunedau lleol. Bydd yn galluogi mwy o bobl i fwynhau hamdden corfforol ar yr arfordir, gan gynorthwyo'r ymdrechion i sicrhau bod Cymru'n genedl fwy heini ac iach.

Strategaeth Cerdded a Beicio i Gymru

Mae pwyslais y strategaeth hon (a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) ar yr amgylchedd trefol, ond mae cyfeiriadau sylweddol at fynediad i gefn gwlad, yn enwedig manteision economaidd mynediad i gefn gwlad a'r angen am hyrwyddo twristiaeth cerdded a beicio. Mae'r Strategaeth hefyd o'r farn bod rhaid integreiddio llwybrau gwledig a chyfnwidfeydd cludiant cyhoeddus, a bod hyn yn ffactor allweddol wrth hyrwyddo twristiaeth cerdded a beicio nad yw'n dibynnu ar gar.

Dringo'n Uwch

Strategaeth o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer chwaraeon a hamdden actif yng Nghymru yw hon. Mae'n cyflwyno nifer o nodau yn ei datganiad o weledigaeth sydd i'w chyflawni erbyn 2023.

Y nodau perthnasol yw:

Iechyd

- Bydd Cymru mor actif ag y mae'r Ffindir heddiw – bydd 70% o ddynion a menywod hyd at 65 oed yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol dwysedd cymedrol am o leiaf 30 munud, bum gwaith yr wythnos.
- Bydd 50% o ddynion a menywod dros 65 oed yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol dwysedd cymedrol am o leiaf 30 munud, bum gwaith yr wythnos.

Yr Economi

- Bydd chwaraeon a'r diwydiant hamdden actif yn cynnal 12,000 o swyddi eraill yng Nghymru.

Yr Amgylchedd

- Bydd canran y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio amgylchedd naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn cynyddu o 40% i 60%, a bydd amllder y profiad yn treblu.
- Dylai llwybr cerdded, llwybr loncian neu lwybr beicio di-draffig fod o fewn taith gerdded o ddeng munud i 95% o bobl Cymru.

Cefndir

Yn ôl amcangyfrif ceidwadol o effaith cyfredol cerdded wrth hamddena yng Nghymru, mae'n gyfrifol am gynhyrchu rhyw £55 miliwn o incwm a 3,000 o swyddi bob blwyddyn. Petai gweithgareddau mynydda'n cael eu hystyried hefyd, byddai £22 filiwn a 1,250 o swyddi eraill yn cael eu hychwanegu. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli rhyw 2% o'r CMC gwledig.

Camau Gweithredu

- Cynnal y twf cynaliadwy yn ansawdd a nifer y cyfleusterau gweithgareddau awyr agored a'r isadeiledd sy'n ofynnol i ddenu mwy o bobl o Gymru i gyfranogi'n amlach. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys gwella rhwydwaith y llwybrau beiciau mynydd a nifer y ceidwaid beiciau mynydd.

- Sicrhau bod yr holl hawliau tramwy ar agor i'r cyhoedd.

Strategaeth Cefn Gwlad Abertawe (1999)

Mae'r strategaeth hon, a gynhyrchwyd gan Uned Cefn Gwlad yr Awdurdod, yn cyflwyno nifer o nodau ac amcanion.

Nodau

Darparu ystod gytbwys o gyfleoedd hamdden a mynediad yng nghefn gwlad, heb danseilio rheolaeth a chadwraeth cefn gwlad ei hun.

Addysgu a chynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr, defnyddwyr posib, perchnogion a rheolwyr tir fel ei gilydd o'u hawliau a'u cyfrifoldebau yng nghyd-destun mynediad a hamdden.

Cynnal a gwella rhwydweithiau mynediad lleol fel rhan o ddull yr Awdurdod o sicrhau system gludiant gynaliadwy sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol.

Amcanion

Bod Dinas a Sir Abertawe'n canolbwyntio'u hadnoddau mynediad a hamdden ar ei chyfrifoldebau statudol o ran gwella hawliau tramwy cyhoeddus.

Parhau i ddatblygu partneriaethau ar lefel gymunedol a chyda grwpiau defnyddwyr, tîrfeddianwyr, ffermwyr a grwpiau gwirfoddol i gyflawni nodau cyffredin ac ymgymryd â phrosiectau penodol er mwyn cefnogi'r amcanion eraill.

ATODIAD 11

Strwythur Staffio

Geirfa

Tir Mynediad	Darn o dir lle ceir hawl mynediad cyfreithiol i gerddwyr
BHS	Cymdeithas Ceffylau Prydain
BOAT	Gweler cilffordd sydd ar agor i bob traffig
Cilffordd sydd ar agor i bob traffig	Hawl tramwy cyhoeddus i gerddwyr, marchogwyr, beiciau neu unrhyw gerbyd
Cilffordd	Gweler cilffordd sydd ar agor i bob traffig
Llwybr Beicio	Llwybr lle gall y cyhoedd gerdded neu reidio beic
Arolwg cyflwr	Arolwg a gynhaliwyd gan Exegesis ar ran Dinas a Sir Abertawe yn hydref 2005
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CGCG	Cynllun Gweithredu Cefn Gwlad
DASA	Dinas a Sir Abertawe
Deddf CROW	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
DDA	Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
Map terfynol	Cofnod o'r holl hawliau tramwy cyhoeddus cofrestredig
Datganiad terfynol	Disgrifiad ysgrifenedig o bob hawl tramwy cyhoeddus sy'n cyd-fynd â'r map terfynol
GIS	Rhaglen gyfrifiadurol sy'n caniatáu defnyddio mapiau a lluniau o'r awyr ar gyfrifiaduron personol

LEMO	Gorchymyn Addasu Digwyddiad Cyfreithiol. Mae'r rhain yn newid y Map Terfynol ar ôl cadarnhau PPO
PPO	Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus. Gorchmynion yw'r rhain y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu gwneud os oes angen dargyfeirio, creu neu ddileu llwybrau
Llwybr cyhoeddus	Priffyrdd nad yw i gerbydau, llwybr troed neu llwybr ceffyl (bridleway neu bridlepath yw'r ddau enw Saesneg cyfystyr ar y rhain)
Llwybr troed cyhoeddus	Hawl tramwy cyhoeddus i gerddwyr yn unig
Llwybr ceffyl cyhoeddus	Hawl tramwy cyhoeddus i gerddwyr, marchogwyr a beicwyr
Llwybr caniatool	Llwybr a ddarperir gyda chaniatâd y tîrfeddiannwr
DP	Dangosydd Perfformiad – canran y llwybrau sydd â mynegbyst ac sy'n hawdd eu defnyddio.
Llwybr dewisol	Llwybr answyddogol ar draws Tir Mynediad sy'n cael ei gynnal a'i nodi at ddefnydd y cyhoedd gyda chaniatâd y tîrfeddiannwr
HTC	Hawl Tramwy Cyhoeddus (llwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd sydd ar agor i bob traffig)
CGHT	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Llwybrau diogel i'r ysgol	Cynllun i ddarparu llwybrau diogel i'r ysgol ar gyfer plant
Arolwg Defnyddwyr	Arolwg cerddwyr, marchogwyr a beicwyr a gynhaliwyd gan Ddinas a Sir Abertawe yn 2005
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
BCC	Bwrdd Croeso Cymru